



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 9 Rhagfyr 2009  
Wednesday, 9 December 2009**

**Cynnwys  
Contents**

- |     |  |
|-----|--|
| 3   | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus<br>Questions to the Minister for Finance and Public Service Delivery   |
| 23  | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau<br>Questions to the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills  |
| 38  | Enwebiadau ar gyfer Prif Weinidog<br>Nominations for First Minister  |
| 43  | Atal Rheolau Sefydlog<br>Suspension of Standing Orders   |
| 44  | Ethol Aelodau i Bwyllgorau<br>Election of Members to Committees  |
| 44  | Dadl a Chymeradwyo Gorchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>(Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd a Lles Cymdeithasol)<br>2010<br>Debate and Approval of the Draft National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Health and Health Services and Social Welfare) Order 2010 |
| 64  | Dadl am Gynnig Darren Millar ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol—<br>Cynllun Parcio Ffafriol<br>Debate on Darren Millar's Proposal for a Legislative Competence Order—Preferential Parking Scheme   |
| 84  | Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar y Gwasanaeth Cyngori a<br>Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru<br>The Health, Wellbeing and Local Government Committee's Report on the Children and Family Court Advisory and Support Service Cymru   |
| 105 | Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Llifogydd<br>Welsh Conservatives Debate: Flooding   |
| 133 | Cyfnod Pleidleisio<br>Voting Time  |
| 137 | Cynnig Trefniadol<br>Procedural Motion   |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambra. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.*  
*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Gweinidog. **The Presiding Officer:** Order for questions to the Minister.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus** **Questions to the Minister for Finance and Public Service Delivery**

### **Budget Deficit**

**Q1 Alun Cairns:** What assessment has the Minister made of the impact of the UK budget deficit on the Welsh Assembly Government budget? OAQ(3)0889(FPS)

**The Minister for Finance and Public Service Delivery (Andrew Davies):** The Assembly Government has been preparing for tighter budgets for some time. It is not possible to forecast precisely the impact of UK fiscal decisions, although we will be considering the detail of the UK Government's pre-budget report published today. The Chancellor of the Exchequer is currently reporting to the House of Commons.

**Alun Cairns:** You are right that the Chancellor is currently reporting to the House of Commons, but it has been widely reported by UK Government Ministers that there will be severe cuts across the public sector, although it is emphasised that those cuts will be in bureaucracy in spending departments in England. However, if a cut—in bureaucracy or otherwise—is made in spending departments in England, it will have an impact on the budget made available through the Barnett formula to the Welsh Assembly Government and the National Assembly. What scale is that likely to be, and what do you think is a good figure or a bad figure for cuts that really starts to impact on public services in Wales?

**Andrew Davies:** As I said, it is premature to comment on the pre-budget report. The Chancellor was on his feet as I came into the Chamber. We will have fuller information at the end of his report, and we will, obviously, be issuing a statement. However, I will not be lectured about cuts by Tories. Your party's

### **Diffyg Cyllideb**

**C1 Alun Cairns:** Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith diffyg cyllideb y DU ar gyllideb Llywodraeth Cymru? OAQ(3)0889(FPS)

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn paratoi ar gyfer cyllidebau tynnach ers cryn amser. Nid yw'n bosibl rhagweld effaith penderfyniadau ariannol y DU yn union, er y byddwn yn ystyried manylion adroddiad rhag-gyllidebol Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd heddiw. Mae Canghellor y Trysorlys wrthi'n adrodd ar hyn o bryd i Dŷ'r Cyffredin.

**Alun Cairns:** Yr ydych yn gywir wrth ddweud bod y Canghellor wrthi'n adrodd ar hyn o bryd i Dŷ'r Cyffredin, ond nodwyd yn helaeth gan Weinidogion Llywodraeth y DU y bydd toriadau llym ar draws y sector cyhoeddus, er y pwysleisir y bydd y toriadau hynny mewn biwrocratiaeth mewn adrannau gwario yn Lloegr. Fodd bynnag, os gwneir toriad—mewn biwrocratiaeth neu fel arall—mewn adrannau gwario yn Lloegr, bydd yn effeithio ar y gyllideb a fydd yn cael ei darparu drwy fformiwla Barnett i Lywodraeth y Cynulliad a'r Cynulliad Cenedlaethol. Beth fydd maint tebygol yr effaith honno, a beth yn eich barn chi yw ffigur da neu ffigur gwael o ran toriadau, a fydd yn dechrau effeithio'n wirioneddol ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru?

**Andrew Davies:** Fel y dywedais, mae'n rhy gynnar i wneud sylwadau ar yr adroddiad rhag-gyllidebol. Yr oedd y Canghellor ar ei draed wrth imi ddod i mewn i'r Siambr. Bydd gennym wybodaeth lawnach ar ddiwedd ei adroddiad, a byddwn, wrth gwrs, yn cyhoeddi datganiad. Fodd bynnag, ni wnaf ganiatáu i'r

leader and shadow chancellor have already put on record that they intend to have an emergency budget within 50 days of—heaven forbid—winning a general election. They have talked about an emergency budget and slashing expenditure, which would not only undermine the delivery of front-line services but threaten a double-dip recession.

Torïaid roi pregeth imi ar doriadau. Mae arweinydd a changhellor eich plaid chi eisoes wedi cyhoeddi eu bod yn bwriadu cael cylideb frys cyn pen 50 diwrnod iddynt ennill etholiad cyffredinol—a'n gwaredo. Maent wedi sôn am gyllideb frys a thorri gwariant yn sylweddol, a fyddai nid yn unig yn tanseilio gwaith cyflenwi gwasanaethau rheng flaen ond a fyddai hefyd yn bygwth ail ddirwasgiad.

**Gareth Jones:** A yw Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi unrhyw bwysau ar Lywodraeth bresennol San Steffan i weithredu argymhellion comisiwn Holtham cyn Mehefin 2010? A fydddech yn cytuno fod hynny'n gwbl angenreidiol er mwyn lliniaru rhywfaint ar y toriadau ariannol fyddai'n digwydd dan y Llywodraeth Dorïaidd—a'n gwaredo—sy'n debyg o gael ei hethol rywbryd yn ystod y chwe mis nesaf?

**Andrew Davies:** We have made extensive representations to the UK Government. I met the Chief Secretary to the Treasury, Liam Byrne, on 23 September, the First Minister has spoken to both the Prime Minister and the Chancellor of the Exchequer, and we continue to press the case for the recommendations made by Gerry Holtham in his first report. We welcome the response of the UK Government, which, for the first time, as far as we are aware, has acknowledged the so-called Barnett squeeze or convergence of spending. The UK Government has at least recognised that, but we feel that there is a considerable way to go. As Gerry Holtham himself pointed out, the UK Government response has only partly taken us towards the recommendations contained in the first report. We will continue to make the case.

**Gareth Jones:** Has the Assembly Government brought any pressure to bear on the current Government in Westminster to implement the recommendations of the Holtham commission before June 2010? Would you agree that that is essential in order to alleviate the financial cuts that would happen under the Tory Government that—heaven forbid—is likely to be elected sometime within the next six months?

**Andrew Davies:** Yr ydym wedi cyflwyno sylwadau helaeth i Lywodraeth y DU. Cyfarfum â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, Liam Byrne, ar 23 Medi, mae Prif Weinidog Cymru wedi siarad â Phrif Weinidog y DU a Changhellor y Trysorlys, ac yr ydym yn parhau i wthio'r ddadl dros yr argymhellion a wnaed gan Gerry Holtham yn ei adroddiad cyntaf. Yr ydym yn croesawu ymateb Llywodraeth y DU sydd, am y tro cyntaf hyd y gwyddom, wedi cydnabod gwasgfa honedig Barnett neu gydgyfeirio gwariant. Mae Llywodraeth y DU o leiaf wedi cydnabod hynny, ond credwn fod tipyn o ffordd i fynd eto. Fel y dywedodd Gerry Holtham ei hun, nid yw ymateb Llywodraeth y DU ond wedi mynd â ni'n rhannol ar hyd y ffordd tuag at yr argymhellion sydd yn yr adroddiad cyntaf. Byddwn yn parhau i gyflwyno'r ddadl dros yr argymhellion.

## Public Services

**Q2 Val Lloyd:** Will the Minister give an update on initiatives to improve public services in Wales? OAQ(3)0895(FPS)

**Andrew Davies:** Yesterday, I issued a policy statement, in conjunction with the final budget, entitled 'Better Outcomes for Tougher Times', on the next phase in public service improvement, which sets out our

## Gwasanaethau Cyhoeddus

**C2 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(3)0895(FPS)

**Andrew Davies:** Ddoe cyhoeddais ddatganiad polisi, ar y cyd â'r gyllideb derfynol, a oedd yn dwyn y teitl 'Canlyniadau Gwell ar gyfer Cyfnod Anoddach'. Mae'n ymwneud â'r cam nesaf i

priorities and how they will be achieved. At its heart is a team Wales approach to achieving better with the same or less, in resource terms, for the citizens and communities of Wales.

wella gwasanaethau cyhoeddus, ac yn nodi ein blaenoriniaethau a sut y caint eu cyflawni. Wrth ei wraidd mae dull gweithredu sy'n golygu gweithio fel tim yng Nghymru i sicrhau canlyniadau gwell â'r un adnoddau neu lai, ar gyfer dinasyddion a chymunedau Cymru.

**Val Lloyd:** As well as welcoming that, I welcome the recent launch by the Welsh Assembly Government of a survey in every local authority area between now and February 2010 to assess people's views and to look at trends, and to use them to assist in developing policies and priorities. I am, however, concerned that some cross-sections of society may not take full advantage of this opportunity to shape the future of public services in Wales. Could you therefore give further details of what is being done to engage communities per se, and, in particular, black and minority ethnic communities?

**Andrew Davies:** The survey that you referred to is a random sample and, by its nature, will pick up representatives or citizens from BME communities. Therefore, that survey will reflect some of those communities. However, you raise some important issues. The Living in Wales survey, which is a face-to-face survey of 7,000 citizens, has been successful, but it only takes us so far. We need greater detail and we need to look at the impact on particular communities. The plans that the Government has for the following year are to have a much more comprehensive survey in conjunction, we hope, with local authorities across Wales. However, I think that we need to look at how we can get an accurate representation of the views of, in this case, the BME community. That is an important point and I will ensure that your concerns are addressed.

**Val Lloyd:** Yn ogystal â chroesawu hynny, croesawaf lansiad diweddar arolwg gan Lywodraeth y Cynulliad ym mhob ardal awdurdod lleol, rhwng yn awr a mis Chwefror 2010, i asesu barn pobl ac edrych ar dueddiadau, a'u defnyddio i helpu i ddatblygu polisiau a blaenoriniaethau. Fodd bynnag, yr wyf yn pryderu na fydd rhai rhannau o gymdeithas efallai'n manteisio'n llawn ar y cyfle hwn i lunio dyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. A allwch roi manylion pellach felly ynghylch yr hyn a wneir i gynnwys cymunedau, ac yn benodol, cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig?

**Andrew Davies:** Mae'r arolwg y cyfeiriasoch ato'n hapsampl, ac oherwydd ei natur, bydd yn cynnwys cynrychiolwyr neu ddinasyddion o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Bydd yr arolwg hwnnw felly'nadlewyrchu rhai o'r cymunedau hynny. Fodd bynnag, yr ydych wedi codi rhai materion pwysig. Mae'r arolwg Byw yng Nghymru, sy'n arolwg wyneb yn wyneb sy'n cynnwys 7,000 o ddinasyddion, wedi bod yn llwyddiannus, ond i ryw bwynt yn unig y mae'n mynd â ni. Mae angen rhagor o fanylion arnom, ac mae angen inni edrych ar yr effaith ar gymunedau penodol. Cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer y flwyddyn nesaf yw cael arolwg llawer mwy cynhwysfawr ar y cyd, gobeithio, ag awdurdodau lleol ledled Cymru. Fodd bynnag, credaf fod angen inni edrych ar sut y gallwn gael darlun cywir o safbwytiau'r gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, yn yr achos hwn. Mae'n bwynt pwysig, a byddaf yn sicrhau bod eich pryderon yn cael sylw.

**The Leader of the Opposition (Nick Bourne):** I want to ask you about hospices, which you and I, and Members around the Chamber, realise are vital for Wales. In Wales, 21 per cent of their funding comes from the Welsh Assembly Government—12

**Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne):** Hoffwn eich holi ynghylch hosbisau, yr wyf innau a chithau, ac Aelodau o amgylch y Siambr, yn sylweddoli eu bod yn hanfodol i Gymru. Yng Nghymru, daw 21 y cant o'u harian oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad—

per cent in the case of children's hospices. However, in England, 50 per cent of hospices' core funding comes from central Government through the Department of Health. Given what the Sugar review said about the patchy nature of the provision and the announcement that Andrew R.T. Davies made on our behalf that we would put extra funds towards their core funding, what is the Government doing to respond to the patchy nature of that service?

**Andrew Davies:** The Minister for Health and Social Services is here, Nick, and I will ask her to follow that up in more detail.

**David Lloyd:** O ran ariannu gwasanaethau cyhoeddus, ac yn dilyn cyhoeddi adroddiad Holtham a'ch ateb i Gareth Jones yn gynharach, a allaf eich gwthio ymhellach ynghylch yr union amserlen i weithredu argymhellion Holtham yn llawn a chael, o'r diwedd, fformiwl ariannu teg i Gymru?

**Andrew Davies:** As you know, Dai, the major finding of the Holtham commission was that Wales does not do well or receive its fair share under the present system, and that we should move to a needs-based formula. Clearly, the Barnett formula is not just about the relationship between the UK Government and ourselves; it also involves colleagues in Scotland and Northern Ireland. Gerry recognises that it is going to be a complex issue. He does not think that it is insurmountable, but he recognises that it is a big issue and that it will take time. So, there is no timetable on that because it will need agreement from all four parties at the very least. What he does say is that there should be an interim measure—what I call 'the Holtham floor'—to prevent any further convergence. We argued that with the UK Government and, as I said in my response to Gareth Jones, we welcome the fact that this is the first time that the UK Government has recognised the Barnett squeeze, and we will continue to make the case for full implementation. However, I cannot give you a timetable.

12 y cant yn achos hobsbau plant. Fodd bynnag, yn Lloegr, daw 50 y cant o arian craidd hobsbau oddi wrth y Llywodraeth ganolog drwy'r Adran Iechyd. O ystyried yr hyn a ddywedodd adolygiad Sugar ynghylch natur fratiog y ddarpariaeth, a'r cyhoeddiad a wnaeth Andrew R.T. Davies ar ein rhan, sef y byddem yn rhoi arian ychwanegol at eu harian craidd, beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i ymateb i natur fratiog y gwasanaeth dan sylw?

**Andrew Davies:** Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yma, Nick, a byddaf yn gofyn iddi fynd ar drywydd hynny'n fwy manwl.

**David Lloyd:** On the funding of public services, and following the publication of the Holtham report and your earlier response to Gareth Jones, can I push you further on the exact timetable for the full implementation of the Holtham recommendations and achieving, at last, a fair funding formula for Wales?

**Andrew Davies:** Fel y gwyddoch, Dai, prif ganfyddiad comisiwn Holtham oedd y ffaith nad yw Cymru'n gwneud yn dda nac yn cael ei chyfran deg o arian dan y system bresennol, ac y dylem symud i fformiwl sy'n seiliedig ar anghenion. Mae'n amlwg nad yw fformiwl Barnett yn ymwneud â'r berthynas rhwng Llywodraeth y DU a ninnau'n unig; mae hefyd yn cynnwys cydweithwyr yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae Gerry'n cydnabod y bydd yn fater cymhleth. Nid yw'n credu ei bod yn amhosibl i'w ddatrys, ond mae'n cydnabod ei fod yn fater pwysig ac y bydd yn cymryd amser. Felly, nid oes amserlen ar gyfer hynny oherwydd bydd angen cytundeb gan bob un o'r pedair plaid o leiaf. Yr hyn y mae'n ei ddweud, er hynny, yw y dylid cael mesur dros dro—yr hyn yr wyf yn ei alw'n 'isafswm Holtham'—er mwyn atal unrhyw gydgyfeirio pellach. Yr ydym wedi dadlau ynghylch hynny â Llywodraeth y DU ac, fel y dywedais yn fy ymateb i Gareth Jones, yr ydym yn croesawu'r ffaith mai dyma'r tro cyntaf i Lywodraeth y DU gydnabod gwasgfa Barnett, a byddwn yn parhau i ddadlau dros weithredu'r argymhellion yn llawn. Fodd bynnag, ni allaf roi amserlen ichi.

## Budget Consultation Process

**Q3 Jenny Randerson:** Will the Minister make a statement on his budget consultation process? OAQ(3)0918(FPS)

**Andrew Davies:** The process for consulting on the draft budget is set out in Standing Orders and is determined by the Assembly. I agreed an increase in the time for scrutiny as part of this year's budget process, which the Chair of the Finance Committee acknowledged yesterday. I can assure Members that the Assembly Government has adhered to the consultation mechanisms and the time frames prescribed by Standing Orders in full.

**Jenny Randerson:** Unfortunately, Minister, the Standing Orders do not prescribe that, having consulted, you listen to the comments that come back from that consultation. I am very concerned indeed that, this year, there have been no amendments to the education budget or the economic development budget. In previous years, there has been consultation and there have been changes as a result. Last year there were changes—although they were far from adequate—that improved the funding for further education, and the year before there were changes that improved the funding for local government. However, this year, there was a chorus of disapproval over the education funding, led by the Finance Committee, which is officially appointed to do that scrutiny, and yet you have not listened. Do you not think that that has a bad effect on the impression that the people of Wales have of our democracy here?

1.10 p.m.

**Andrew Davies:** No. I think that you have to draw a distinction between listening and agreeing, Jenny. I have, of course, listened to what the Finance Committee has said, and to other representations, as did the Cabinet. I will repeat what I said yesterday: I am the Minister for finance of the Assembly Government and this was the collective response of the Assembly Government. All the Ministers around the table agreed on our

## Ymgynghori Ynghylch y Gyllideb

**C3 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei broses ymgynghori ynghylch y gyllideb? OAQ(3)0918(FPS)

**Andrew Davies:** Caiff y broses ar gyfer ymgynghori ynghylch y gyllideb ddrafft ei nodi mewn Rheolau Sefydlog a'i phennu gan y Cynulliad. Cytunais ar gynnydd yn yr amser ar gyfer gwaith craffu yn rhan o broses cyllideb eleni, a chydnabuwyd hynny gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ddoe. Gallaf sicrhau'r Aelodau bod Llywodraeth y Cynulliad wedi cadw'n llwyr at y trefniadau ymgynghori a'r amserlenni a bennwyd gan Reolau Sefydlog.

**Jenny Randerson:** Yn anffodus, Weinidog, nid yw'r Rheolau Sefydlog yn mynnu eich bod, ar ôl ymgynghori, yn gwrandio ar y sylwadau sy'n deillio o'r ymgynghori hwnnw. Yr wyf yn pryderu'n ddifrifol na chafwyd diwygiadau eleni i'r gyllideb addysg na'r gyllideb datblygu economaidd. Mewn blynnyddoedd blaenorol, cafwyd ymgynghoriad a chafwyd newidiadau o ganlyniad i hynny. Cafwyd newidiadau y llynedd—er nad oeddent yn ddigonol o bell ffordd—a welodd yr arian ar gyfer addysg bellach, a'r flwyddyn flaenorol cafwyd newidiadau a welodd yr arian ar gyfer llywodraeth leol. Fodd bynnag, eleni, cafwyd llawer o anghymeradwyaeth ynghylch yr arian ar gyfer addysg, a arweiniwyd gan y Pwyllgor Cyllid a gaiff ei benodi'n swyddogol i wneud y gwaith craffu hwnnw, ond eto, nid ydych wedi gwrandio. Onid ydych yn credu bod hynny'n effeithio'n wael ar yr argraff a gaiff pobl Cymru o'n democratiad yma?

**Andrew Davies:** Nac ydwyf. Credaf fod yn rhaid ichi wahaniaethu rhwng gwrandio a chytuno, Jenny. Yr wyf, wrth gwrs, wedi gwrandio ar yr hyn a ddywedodd y Pwyllgor Cyllid, ac ar sylwadau eraill, fel y gwnaeth y Cabinet. Hoffwn ailadrodd yr hyn a ddywedais ddoe: fi yw Gweinidog dros gyllid Llywodraeth y Cynulliad, a dyma oedd ymateb cyfunol Llywodraeth y Cynulliad. Cytunodd pob Gweinidog o amgylch y bwrdd

priorities as an Assembly Government. To repeat what I said yesterday, I would deny that education has somehow been disadvantaged or singled out in this budget process—far from it. Again, the figures quoted by Paul Davies and others yesterday were wrong. There has been a 2.5 per cent uplift in the Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills budget for next year, which is over and above the average uplift for Assembly Government departments of 2.1 per cent. That also ignores the fact that we have put in additional resources, such as the £20 million to deal with youth unemployment. I therefore absolutely reject the claim that education has somehow been disadvantaged—far from it. Education is one of our major priorities as a Government.

**Chris Franks:** Minister, you have been rightly praised by some for your approach during the budget consultation process. Do you think that your discussions would have been made easier if Ministers in London had listened to the expert advice contained in the Holtham commission report, which indicated that we should move to a needs-based formula to fund Wales? Does the UK Government acknowledge that Wales has been short-changed by hundreds of millions of pounds a year?

**Andrew Davies:** The UK Government does accept the phenomenon of the convergence of funding towards the English average, or the so-called Barnett squeeze. As I said in response to Dai Lloyd just now, that is the first time that the UK Government has acknowledged that. That is not a full response to the recommendations of the Holtham commission, and we will continue to make the case. The excellent work done by Gerry Holtham, David Miles and Bernd Spahn is based on clear analysis and on the Treasury's own needs-based formula for education and health expenditure in England. So, we have a sound evidence base. As I said to Dai Lloyd, we will continue to make the case robustly for the full implementation of the first report of the Holtham commission.

ar ein blaenoriaethau fel Llywodraeth y Cynulliad. I ailadrodd yr hyn a ddywedais ddoe, byddwn yn gwadu bod addysg wedi'i rhoi rywsut dan anfantais neu wedi'i thrin yn wahanol ym mhroses y gyllideb hon—nid yw hynny'n wir o gwbl. Unwaith eto, yr oedd y ffigurau a ddyfynnwyd gan Paul Davies ac eraill ddoe'n anghywir. Cafwyd cynnydd o 2.5 y cant yng nghyllideb yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar gyfer y flwyddyn nesaf, sy'n uwch na chyfartaedd y cynnydd ar gyfer adrannau Llywodraeth y Cynulliad, sef 2.1 y cant. Mae hynny hefyd yn anwybyddu'r ffaith ein bod wedi cyfrannu adnoddau ychwanegol, megis yr £20 miliwn i ymdrin â diweithdra ymmsg pobl ifanc. Yr wyf felly'n gwrthod yn llwyr yr honiad bod addysg rywsut wedi'i rhoi dan anfantais—nid yw hynny'n wir o gwbl. Addysg yw un o'n prif flaenoriaethau fel Llywodraeth.

**Chris Franks:** Weinidog, yr ydych wedi cael eich canmol yn haeddiannol gan rai am eich dull gweithredu yn ystod y broses ymgynghori yngylch y gyllideb. A ydych yn credu y byddai eich trafodaethau wedi bod yn haws pe bai Gweinidogion yn Llundain wedi gwrando ar y cyngor arbenigol a gafwyd yn adroddiad comisiwn Holtham, a ddywedodd y dylem symud at fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion i ariannu Cymru? A yw Llywodraeth y DU yn cydnabod bod Cymru wedi colli cannoedd o filiynau o bunnoedd y flwyddyn?

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth y DU yn derbyn y ffenomenon sy'n ymwneud â chydgyfeirio arian tuag at gyfartaedd Lloegr, neu wasgfa honedig Barnett. Fel y dywedais mewn ymateb i Dai Lloyd funud yn ôl, dyna'r tro cyntaf i Lywodraeth y DU gydnabod hynny. Nid yw hynny'n ymateb llawn i argymhellion comisiwn Holtham, a byddwn yn parhau i ddadlau ein hachos. Mae'r gwaith gwych a wnaed gan Gerry Holtham, David Miles a Bernd Spahn yn seiliedig ar waith dadansoddi clir a fformiwla'r Trysorlys ei hun, sy'n seiliedig ar anghenion, ar gyfer gwariant ar addysg ac iechyd yn Lloegr. Mae gennym sylfaen dystiolaeth gadarn felly. Fel y dywedais wrth Dai Lloyd, byddwn yn parhau i ddadlau'n gryf dros weithredu adroddiad cyntaf comisiwn Holtham yn llawn.

**Nick Ramsay:** I concur with Jenny Randerson that there is a world of difference between consulting and listening. On the consultation that took place with the Finance Committee, a problem expressed in many meetings was the issue of the strategic capital investment fund, which, understandably, you have relied heavily upon this year for public services in Wales. The Finance Committee Chair highlighted a problem with the timing of the SCIF allocation announcements and the budget process. Will you, or your successor, undertake to look at marrying the two processes, so that the Finance Committee can carry out even more effective scrutiny in future?

**Andrew Davies:** We have commissioned a review of the strategic capital investment fund process. That process has already been refined and reformed, and I am sure that we will learn a lot from the review. I hope that there will be more time in future for organisations to submit bids. However, those who have gone through the process have, on the whole, found it beneficial, because it has meant that they have had to be much more rigorous in their applications and business planning process. Where we find that we need to reform and improve what we do, then that is what we will do, and I am sure that that will happen in the future.

### Public Sector Debt

**Q4 William Graham:** Will the Minister outline discussions he has had with the Treasury concerning the impact of public sector debt on public service delivery in Wales? OAQ(3)0897(FPS)

**Andrew Davies:** I have regular discussions with the Chief Secretary to the Treasury on financial matters, including public service delivery in Wales.

**William Graham:** Thank you for your answer, Minister. I congratulate you on the way in which you have spun wonderfully for New Labour in the last few years. Your achievements have been quite remarkable.

**Nick Ramsay:** Cytunaf â Jenny Randerson fod byd o wahaniaeth rhwng ymgynghori a gwrando. O ran yr ymgynghori â'r Pwyllgor Cyllid, problem a fynegwyd mewn nifer o gyfarfodydd oedd y gronfa buddsoddi cyfalaf strategol yr ydych, yn ddealladwy, wedi dibynnu'n fawr arni eleni ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid sylw at broblem amseru cyhoeddiadau am ddyraniadau'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol, a'r broses gyllideb. A wnewch chi, neu eich olynydd, addo ystyried cyfuno'r ddwy broses, er mwyn i'r Pwyllgor Cyllid allu craffu'n fwy effeithiol fyth yn y dyfodol?

**Andrew Davies:** Yr ydym wedi comisiynu adolygiad o broses y gronfa buddsoddi cyfalaf strategol. Mae'r broses honno eisoes wedi'i mireinio a'i diwygio, ac yr wyf yn siŵr y byddwn yn dysgu llawer o'r adolygiad. Gobeithio y bydd mwy o amser yn y dyfodol i sefydliadau gyflwyno ceisiadau. Fodd bynnag, mae'r sawl sydd wedi bod drwy'r broses wedi gweld, ar y cyfan, ei bod yn fuddiol, oherwydd mae wedi golygu iddynt orfod bod yn fwy trylwyr o lawer wrth lunio'u ceisiadau a chynllunio busnes. Os gwelwn fod angen inni ddiwygio a gwella'r hyn a wnawn, dyna a wnawn, ac yr wyf yn siŵr y bydd hynny'n digwydd yn y dyfodol.

### Dyled y Sector Cyhoeddus

**C4 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu trafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Trysorlys am effaith dyled y sector cyhoeddus ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(3)0897(FPS)

**Andrew Davies:** Byddaf yn cael trafodaethau rheolaidd gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys am faterion ariannol, gan gynnwys darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**William Graham:** Diolch ichi am eich ateb, Weinidog. Hoffwn eich llonyfarch am y ffordd wych yr ydych wedi rhoi goleuni ffafriol ar bethau ar ran Llafur Newydd yn ystod y blynnyddoedd diwethaf. Mae'r hyn yr ydych wedi'i gyflawni yn nodedig iawn.

In addition, how do you square the fact that for every £4 spent, only £3 are earned; hence, the need for the Labour Government to print vast sums of money, with the pronouncements that you have so often made here? That will have a terrible effect, as we already know, on swingeing cuts already announced in local government—10 per cent in what it is describing as a ‘perfect storm’.

**Andrew Davies:** I square it because local government next year has a 2.1 per cent uplift, which even the WLGA has accepted is a very good settlement, given the overall tightness of public finances. As I said to Alun Cairns, I am not going to take lessons from the Tories about swingeing cuts. If your party—heaven forbid—had been in Government at the time of the credit crunch, it would not have followed the UK Government’s line, unemployment would probably now be 0.5 million more than it is, and public finances would be even more constrained than they currently are. The Tories, alone of any major political party in the advanced industrial world, were advocating policies that would exacerbate the situation and make it far worse.

## Finance and Public Service Delivery

**Q5 Nick Ramsay:** Will the Minister outline the challenges facing the finance and public service delivery portfolio over the coming year? OAQ(3)0913(FPS)

**Andrew Davies:** Despite the financial challenges that have arisen during the current economic climate and the increasing pressures that we face, I am confident that the steps that we have taken to improve performance and the delivery of first-class public services in Wales will help to deliver our ‘One Wales’ commitment of building a strong and confident nation.

**Nick Ramsay:** Thank you, Minister, for that answer. You will not be surprised that I take issue with your assertion that your budget will support the ‘One Wales’ commitments in full. I come back to the key point of

Yn ogystal, sut y gallwch gysoni’r ffaith mai £3 yn unig sy’n cael ei ennill am bob £4 a gaiff eu gwario; a’r angen felly i’r Llywodraeth Lafur argraffu symiau enfawr o arian, a’r datganiadau yr ydych wedi’u gwneud mor aml yma? Bydd hynny’n cael effaith ofnadwy, fel y gwyddom eisoes, ar doriadau llym sydd eisoes wedi’u cyhoeddi mewn llywodraeth leol—10 y cant yn yr hyn a ddisgrifir ganddi fel ‘y storm berffaith’.

**Andrew Davies:** Yr wyf yn medru cysoni hynny oherwydd bydd llywodraeth leol yn cael cynnydd o 2.1 y cant flwyddyn nesaf, ac y mae hyd yn oed Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi derbyn ei fod yn setliad da iawn, o ystyried sefyllfa dynn cyllid cyhoeddus yn gyffredinol. Fel y dywedais wrth Alun Cairns, nid wyf am gymryd gwersi gan y Torïaid am doriadau llym. Pe bai eich plaid chi—a’n gwaredo—wedi bod mewn Llywodraeth adeg y wasgfa gredyd, ni fyddai wedi dilyn polisi Llywodraeth y DU, mae’n debyg y byddai diweithdra’n awr 0.5 miliwn yn uwch nag y mae, a byddai cyllid cyhoeddus hyd yn oed yn dynnach nag y mae’n awr. Dim ond y Torïaid, o blith holl bleidiau gwleidyddol mawr y byd diwydiannol datblygedig, a oedd o blaidd polisiau a fyddai’n dwysáu’r sefyllfa ac yn ei gwneud lawer yn waeth.

## Cyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

**C5 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu’r heriau sy’n wynebu’r portffolio cyllid a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus dros y flwyddyn nesaf? OAQ(3)0913(FPS)

**Andrew Davies:** Er gwaethaf yr heriau ariannol sydd wedi codi yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni a’r pwysau cynyddol a wynebwn, yr wyf yn hyderus fod y camau yr ydym wedi’u cymryd i wella perfformiad a darparu gwasanaethau cyhoeddus o’r radd flaenaf yng Nghymru yn helpu cyflawni ein hymrwymiad yn ‘Cymru’n Un’, sef adeiladu cenedl gref a hyderus.

**Nick Ramsay:** Diolch ichi, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Ni fyddwch yn synnu fy mod yn anghydweld â’ch honiad y bydd eich cyllideb yn cefnogi ymrwymiadau ‘Cymru’n Un’ yn llawn. Dychwelaf at bwynt allweddol ariannu

education funding in this budget, and the huge efficiency saving of 5 per cent that is required. Earlier you said that there has been an uplift in the education budget, but you must accept that there is a growing funding gap between education institutions in Wales and those in England, which is of serious concern. How can you justify that 5 per cent efficiency cut at a time when other departments are not being required to make such cuts?

**Andrew Davies:** One gets rather tired of hearing the same points made over and over again. Coming back to Jenny's point about listening, clearly Nick has not been listening himself. There is not a 5 per cent cut in FE and HE funding. The funding is flatlined. That means that it is the same, Nick. However, there is a greater volume of learning, and that is the 5 per cent efficiency saving. It is quite erroneous to say that those budgets have been cut. The overall budget for the Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills has been increased by 2.5 per cent next year. That is above the average for an Assembly Government department. Education, like every other area, will have to deliver services more efficiently. In the health service, there is around 8 per cent inflation on average per year because of new drugs and treatments and other pressures. The Minister for Health and Social Services is expecting the service to produce 5 per cent or more in efficiency savings as a result of that and of increasing demand. Therefore, it is quite erroneous to say that education is somehow being singled out. It is a major priority for this Government, as I said earlier. We are putting in a huge amount of additional resource and we are listening and responding to the needs of young people by putting £20 million into tackling youth unemployment. I have never heard of any Conservative administration doing anything like that.

**Nick Ramsay:** I am sorry, Minister, to bore you by repeating the same question, but I do so because—

**The Presiding Officer:** Order. If you intend

addysg yn y gyllideb hon, a'r arbediad effeithlonrwydd enfawr o 5 y cant sydd ei angen. Yn gynharach, dywedasoch fod y gyllideb addysg wedi cynyddu, ond rhaid ichi dderbyn bod bwlc'h ariannu cynyddol rhwng sefydliadau addysg yng Nghymru a'r rheini yn Lloegr, sy'n peri pryer difrifol. Sut y gallwch gyflawnhau'r toriad effeithlonrwydd hwnnw o 5 y cant ar adeg pan nad oes gofyn i adrannau eraill wneud toriadau o'r fath?

**Andrew Davies:** Mae rhywun yn blino braidd ar glywed yr un pwyntiau'n cael eu gwneud dro ar ôl tro. I ddychwelyd at bwynt Jenny am wrando, mae'n amlwg nad yw Nick ei hun wedi bod yn gwrando. Nid oes toriad o 5 y cant yn yr arian ar gyfer AB ac AU. Nid yw'r arian yn lleihau. Mae hynny'n golygu ei fod yn aros yr un fath, Nick. Fodd bynnag, mae mwy o ddysgu'n digwydd, a dyna yw'r arbediad effeithlonrwydd o 5 y cant. Mae'n hollol anghywir dweud bod y cyllidebau hynny wedi'u torri. Mae'r gyllideb gyffredinol ar gyfer yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi'i chynyddu 2.5 y cant y flwyddyn nesaf. Mae hynny'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer adrannau Llywodraeth y Cynulliad. Bydd yn rhaid i addysg, fel pob maes arall, ddarparu gwasanaethau'n fwy effeithlon. Yn y gwasanaeth iechyd, mae chwyddiant tuag 8 y cant ar gyfartaledd bob blwyddyn, oherwydd cyffuriau a thriniaethau newydd a phwysau eraill. Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn disgwyl i'r gwasanaeth gynhyrchu 5 y cant neu fwy o arbedion effeithlonrwydd o ganlyniad i hynny a'r galw cynyddol. Felly, mae'n hollol anghywir dweud bod addysg rywsut yn cael ei thrin yn wahanol. Mae'n flaenoriaeth fawr i'r Llywodraeth hon, fel y dywedais yn gynharach. Yr ydym yn cyfrannu llawer iawn o adnoddau ychwanegol, ac yr ydym yn gwrando ar anghenion pobl ifanc ac yn ymateb iddynt drwy roi £20 miliwn i fynd i'r afael â diweithdra ymyst pobl ifanc. Nid wyf erioed wedi clywed am yr un weinyddiaeth Geidwadol yn gwneud dim byd fel hyn.

**Nick Ramsay:** Mae'n ddrwg gennyf eich diflasu, Weinidog, drwy ailadrodd yr un cwestiwn, ond gwnaf hynny oherwydd—

**Y Llywydd:** Trefn. Os ydych yn bwriadu

to repeat the same question, you will also bore me. Indeed, it is not a proper use of Assembly procedure to repeat the same question.

**Nick Ramsay:** I apologise for repeating the same question, in that, given the response of the Minister, he clearly did not want to provide an answer, and has not done so today. Only yesterday, I spoke to the NUT, which is very concerned about that 5 per cent efficiency cut. People are coming to me, day in, day out, about this.

1.20 p.m.

If Ministers are not seen to be providing answers to the problems that people have, there will be a growing gap between what we are saying and the reality on the ground. You must accept that, Minister. I repeated the question—although I will not do so again—to try to elicit an answer that I could take back to my constituents, the NUT and the other unions, who are deeply concerned about the growing funding gap with England. What will you do about it, and how does your budget address it?

**Andrew Davies:** You heard what I said but you did not agree with me, Nick. That is the difference. We have not cut funding for education, but you keep saying that. You said ‘5 per cent efficiency cut’ but it is not a cut. A cut means a reduction in funding, and the funding for FE and HE has flatlined.

Expenditure on education in England and Wales cannot easily be compared, because of devolution and the way in which the education systems in England, Scotland and Wales have diverged. In many cases in England, much of the expenditure goes directly to schools; in our case, most of it is directed through local education authorities. Therefore, we do not accept your contention that Wales is somehow being disadvantaged. Education is a top priority for this Government. We are putting record levels of investment and resources into it, and so I

ailadrodd yr un cwestiwn, byddwch yn fy niflasu innau hefyd. Yn wir, nid yw ailadrodd yr un cwestiwn yn ddefnydd priodol o drefn y Cynulliad.

**Nick Ramsay:** Ymddiheuraf am ailadrodd yr un cwestiwn, ond o gofio ymateb y Gweinidog mae'n amlwg nad oedd yn dymuno rhoi ateb, ac nid yw wedi gwneud hynny heddiw. Ddoe ddiwethaf bûm yn siarad ag Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, sy'n pryderu'n fawr iawn am y toriad effeithlonrwydd o 5 y cant. Bydd pobl yn dod ataf, ddydd ar ôl dydd, ynghylch hyn.

Os na welir bod Gweinidogion yn rhoi atebion i'r problemau sydd gan bobl, bydd bwlc'h cynyddol rhwng yr hyn yr ydym yn ei ddweud a'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad. Rhaid ichi dderbyn hynny, Weinidog. Ailadroddais y cwestiwn—er na fyddaf yn gwneud hynny eto—er mwyn ceisio cael ateb y gallwn fynd ag ef yn ôl i'm hetholwyr, Undeb Cenedlaethol yr Athrawon a'r undebau eraill, sy'n poeni'n fawr am y bwlc'h cynyddol o ran cyllid rhngom ni a Lloegr. Beth yr ydych yn bwriadu ei wneud am hynny, a sut mae eich cyllideb yn mynd i'r afael â hynny?

**Andrew Davies:** Clywsoch yr hyn a ddywedais, ond nid oeddech yn cytuno â mi, Nick. Dyna yw'r gwahaniaeth. Nid ydym wedi lleihau'r arian ar gyfer addysg, ond yr ydych yn parhau i ddweud hynny. Soniech am ‘doriad effeithlonrwydd o 5 y cant’, ond nid yw'n doriad. Mae toriad yn golygu llai o arian, ac y mae'r arian ar gyfer AB bellach ac AU wedi aros yr un fath.

Nid yw'n hawdd cymharu gwariant ar addysg yng Nghymru a gwariant ar addysg yn Lloegr oherwydd datganoli a'r ffordd y mae'r systemau addysg yng Nghymru, Lloegr a'r Alban wedi ymwahanu. Mewn llawer achos yn Lloegr bydd llawer o'r gwariant yn mynd yn uniongyrchol i ysgolion; yn ein hachos ni, caiff y rhan fwyaf ohono ei gyfeirio drwy awdurdodau addysg lleol. Nid ydym, felly, yn derbyn eich honiad fod Cymru rywsut dan anfantais. Mae addysg yn brif flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Yr ydym yn cyfrannu lefelau uwch nag erioed o fuddsoddiad ac

absolutely deny that the education budget is being cut. It is not.

**Janet Ryder:** Minister, do you agree that, given the present financial circumstances, many services will, unfortunately, face challenging times, but that the biggest challenge to all public services in Wales is undoubtedly the threat of a future Tory Government?

**Andrew Davies:** Absolutely, and three parties in the Chamber know that that is the case. The Tories are openly boasting at a UK level that if—heaven forbid—they were to win the next general election, they would have an emergency budget to take an axe to public expenditure. That would have a major impact on public services in the UK, and would risk our going even further into recession. We saw that when the Tories were in power before, in those 18 wasted years from 1979 to 1997. Heaven forbid that they win again because we would see exactly the same scenario here in Wales as in the rest of the UK.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** Minister, what discussions have you had with your UK Government colleagues regarding any Barnett consequentials that may stem from the pre-budget report today?

**Andrew Davies:** Kirsty, it is far too soon to say what the outcomes will be. The Chancellor started his pre-budget report statement to the House of Commons at 12.30 p.m. and I believe that he was still on his feet when I started answering my questions. Officials and we will be considering the pre-budget report in full and will be issuing a statement in response to it in due course.

**Kirsty Williams:** The Chancellor of the Exchequer has this afternoon confirmed that his much-trailed plans to set a windfall tax on bankers' bonuses will raise an additional £500 million, which is to be spent on youth unemployment and support for business. Given the dire unemployment figures in

adnoddau iddi, ac felly yr wyf yn gwadu'n llwyr fod y gyllideb addysg yn cael ei thorri. Nid yw'n cael ei thorri.

**Janet Ryder:** Weinidog, a gytunwch, o ystyried yr amgylchiadau ariannol presennol, y bydd nifer o wasanaethau, yn anffodus, yn wynebu amserau anodd, ond mai'r her fwyaf heb os i bob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru fydd bygythiad cael Llywodraeth Doriad yn y dyfodol?

**Andrew Davies:** Cytunaf yn llwyr, ac y mae'r tair plaid yn y Siambra hon yn gwybod bod hynny'n wir. Mae'r Torïaid eisoes yn ymffrostio'n agored ar lefel y DU y byddent, pe baent—a'n gwaredo—yn ennill yr etholiad cyffredinol nesaf, yn cael cylledeb frys er mwyn cwtogi gwariant cyhoeddus. Byddai cam o'r fath yn effeithio'n fawr ar wasanaethau cyhoeddus yn y DU, a byddai perygl inni fynd ymhellach fyth i mewn i ddirwasgiad. Gwelsom hynny pan oedd y Torïaid mewn grym yn y gorffennol, yn y 18 mlynedd a wastraffwyd rhwng 1979 ac 1997. Duw a'n gwaredo os byddant yn ennill eto, oherwydd byddem yn gweld yr un sefyllfa yma yng Nghymru ag sydd yng ngweddill y DU.

**Arweinydd Democratioaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Weinidog, pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'ch cydweithwyr yn Llywodraeth y DU ar unrhyw ganlyniadau Barnett a allai ddeillio o'r adroddiad rhag-gyllidebol heddiw?

**Andrew Davies:** Kirsty, mae'n rhy gynnar o lawer i ddweud beth fydd y canlyniadau. Dechreuodd y Canghellor ei ddatganiad ar yr adroddiad rhag-gyllidebol i Dŷ'r Cyffredin am 12.30 p.m., ac yr oedd yn dal ar ei draed, mi gredaf, pan ddechreuais ateb fy nghwestiynau. Byddwn ni a'n swyddogion yn ystyried yr adroddiad rhag-gyllidebol yn llawn, a byddwn yn cyhoeddi datganiad i ymateb iddo maes o law.

**Kirsty Williams:** Mae Canghellor y Trysorlys wedi cadarnhau'r prynhawn yma y bydd ei gynlluniau, y soniwyd llawer amdanyst eisoes, i gyflwyno treth ffawdelw ar daliadau bonws banewyr yn codi £500 miliwn ychwanegol a fydd yn cael ei wario ar ddiweithdra ymysg pobl ifanc a chymorth i

Wales and the difficulties facing businesses as a result of the revaluation exercise on business rates, could you assure us that you will be doing what you can to ensure that Wales gets its fair share of that £500 million, given that our public finances are in the state that they are in because of the actions of the banks?

**Andrew Davies:** You may have more information than I do about what the Chancellor said this afternoon, Kirsty. If he has said that that money will be raised, it will also raise issues of social justice because the people widely considered to be responsible for the credit crunch and the financial crisis should also bear some of the financial responsibility for it.

If that additional resource is to be made available for tackling youth unemployment, we would welcome that very much, as it would augment what we are doing already—and I have mentioned that the Minister for education has been allocated an additional £20 million to deal with youth unemployment. We will need to find out whether that additional resource from the UK Government is to be provided through a devolved or a non-devolved function, because if it is through a devolved function we can expect to get an appropriate consequential.

### Health and Social Services

**Q6 Andrew R.T. Davies:** What consideration has the Minister given to future funding for the health and social services portfolio? OAQ(3)0855(FPS)

**Andrew Davies:** In preparing for the budget, I considered all departmental pressures and opportunities in the context of the funding available for 2010-11. The outcome of that process is the budget approved by the Assembly only yesterday, which included increased revenue funding for health and social services of almost £146 million

fusnesau. O ystyried y ffigurau diweithdra ofnadwy yng Nghymru a'r anawsterau sy'n wynebu busnesau o ganlyniad i'r ymarfer ailbrisio ar ardrethi busnes, a allwch roi sicrwydd inni y byddwch yn gwneud popeth o fewn eich gallu i sicrhau y bydd Cymru'n cael cyfran deg o'r £500 miliwn hwnnw, o gofio bod ein cyllid cyhoeddus yn y cyflwr y mae ynddo oherwydd gweithredoedd y banciau?

**Andrew Davies:** Efallai fod gennych fwy o wybodaeth na mi am yr hyn a ddywedodd y Canghellor y prynhawn yma, Kirsty. Os yw wedi dweud y bydd yr arian hwnnw'n cael ei godi, bydd hefyd yn codi problemau cyflawnder cymdeithasol, oherwydd dylai'r bobl a gaiff eu hystyried yn gyfrifol i raddau helaeth am y wasgfa gredyd a'r argyfwng ariannol ysgwyddo rhywfaint o'r cyfrifoldeb ariannol amdano.

Os bydd yr adnodd ychwanegol hwnnw'n cael ei ddarparu i fynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc, byddem yn croesawu hynny'n fawr iawn, oherwydd byddai'n ychwanegu at yr hyn yr ydym eisoes yn ei wneud—ac yr wyf eisoes wedi sôn bod y Gweinidog dros addysg wedi cael £20 miliwn yn ychwanegol i fynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc. Bydd angen inni ddarganfod a fydd yr adnodd ychwanegol hwnnw gan Lywodraeth y DU yn cael ei ddarparu drwy swyddogaeth ddatganoledig ynteu drwy swyddogaeth heb ei datganoli, oherwydd os caiff ei ddarparu drwy swyddogaeth ddatganoledig, gallwn ddisgwyl canlyniad priodol.

### Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**C6 Andrew R.T. Davies:** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i gyllid ar gyfer y portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol? OAQ(3)0855(FPS)

**Andrew Davies:** Wrth baratoi ar gyfer y gyllideb, ystyriais yr holl bwysau sydd ar adrannau a'r holl gylleoedd sydd ganddynt yng nghyd-destun yr arian sydd ar gael ar gyfer 2010-11. Canlyniad y broses honno yw'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cynulliad ddoe ddiwethaf, a oedd yn cynnwys cynnydd o bron i £146 miliwn

compared with 2009-10.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for that answer, Minister. In response to earlier questions, you highlighted health service inflation. I think that you said that it was running at about 8 per cent. In the leadership campaign, the semi-detached member of the current Cabinet, as you called him, pledged that the new administration would have at least a 1 per cent increase in the education funding over the block grant allocation to the Welsh Assembly Government. If you, as the Minister for finance, had to work within those constraints, how do you believe the health service would be able to accommodate such a commitment? That money would have to be found from somewhere and logic would dictate that it would come out of the largest spending department.

I intend to move on with the provisions of the 'One Wales' agreement and to fulfil all the commitments that are contained within it. I look forward to working with colleagues on this side of the Chamber and, indeed, those opposite. There will be times, of course, when I look forward to being tested by colleagues sitting opposite. That is essential in any vibrant democracy.

There is no doubt that there will be difficult times ahead for politicians, for politics and for Wales. However, I am confident that the One Wales Government will be able to negotiate those waters and ensure that, as the world economy improves, Wales will be in a strong position to take advantage of that improvement.

I also look forward to seeing the Assembly grow, both in the powers that it has at its disposal and in the standing that it has in the minds of the people of Wales. One of the great changes during the decade in which Rhodri was at the helm was the development of this institution from one that had support among the people of Wales, but not strong support, into one that is now woven into the fabric of political, social and economic life in Wales. That has been a great achievement.

Unwaith eto, yr wyf yn diolch i'r Cynulliad am yr hyder y mae wedi dangos ynof y prynhawn yma. Edrychaf ymlaen at weithio dros bobl Cymru. [Cymeradwyaeth.]

**Nick Bourne:** I congratulate the new First Minister. As you indicated, Carwyn, it will take a while to get used to the idea that Rhodri is no longer the First Minister. However, from one Aberystwyth lawyer—indeed, barrister of Gray's Inn—to another, many congratulations on your fine victory. I can well understand the pride that your family must feel. I know that the Chamber will join me in wishing your mother all the best and will understand the pressure that you

the company of her friends today at y Bwthyn hospice in Bridgend. I should like to say how grateful I am for the support that I have had over the years from each member of my family.

Bwriadaf fwrw ymlaen â darpariaethau cytundeb 'Cymru'n Un', a chyflawni pob un o'r ymrwymiadau sydd ynddo. Yr wyf yn edrych ymlaen at weithio gyda chydweithwyr yr ochr hon i'r Siambra, ac yn wir â chydweithwyr gyferbyn. Daw adegau, wrth gwrs, pan fyddaf yn edrych ymlaen at gael fy mhrofi gan gydweithwyr sy'n eistedd gyferbyn. Mae hynny'n hanfodol mewn unrhyw ddemocratiaeth fywiog.

Nid oes amheuaeth na fydd gwleidyddion, gwleidyddiaeth a Chymru yn wynebu adegau anodd yn y dyfodol. Fodd bynnag, yr wyf yn hyderus y bydd Llywodraeth Cymru'n Un yn gallu croesi'r dyfroedd hynny'n ddiogel ac yn sicrhau y bydd Cymru, wrth i economi'r byd wella, mewn sefyllfa gref i fanteisio ar y gwelliant hwnnw.

Edrychaf ymlaen hefyd at weld y Cynulliad yn tyfu, o ran y pwerau sydd ganddo i'w defnyddio ac o ran ei statws ym meddyliau pobl Cymru. Un o'r newidiadau mawr yn ystod y degawd pan fu Rhodri wrth y llyw oedd datblygu'r sefydliad hwn o fod yn sefydliad a oedd yn cael cefnogaeth ymhliath pobl Cymru, ond nid cefnogaeth gref, i fod yn sefydliad sydd erbyn hyn yn rhan annatod o wead bywyd gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru. Mae hynny wedi bod yn orchest fawr.

Once again, I thank the Assembly for the confidence that has been shown in me today, and I now look forward to serving the people of Wales. Diolch. [Applause.]

**Nick Bourne:** Yr wyf yn llonyfarch y Prif Weinidog newydd. Fel yr oeddech yn dweud, Carwyn, bydd yn cymryd ychydig amser i ymgynhyrwyddo â'r syniad nad yw Rhodri yn Brif Weinidog mwyach. Fodd bynnag, gan un cyfreithiwr o Aberystwyth—neu un o fargyfreithwyr Gray's Inn, yn wir—i un arall, llonyfarchiadau mawr ichi ar eich buddugoliaeth wych. Gallaf ddeall yn iawn y balchder y mae eich teulu'n siŵr yn ei deimlo. Gwn y bydd y Siambra am ymuno â

have been under for some time.

I welcome what you said about scrutiny; it is important and we know that we will, no doubt, clash in future. It is only right that that happens on serious political issues, and there will be political differences. What I do not doubt is your personal and political commitment to the job at hand and to serving Wales. That is not in question any more than it was when Rhodri was First Minister.

I also look forward to Rhodri being a vocal backbencher. I know the sort of damage that can be done. I am not sure whether we can find another space over here for you, Rhodri; that might be a step too far. Nevertheless, Rhodri will have a serious continuing role here as a backbencher representing the interests of Wales and the interests of his constituents. We look forward to that very much.

Once more, Carwyn, warm congratulations from this side of the Chamber. It is not in anyone's interest for you to fail in the important tasks ahead. You will have our support when we think that you are right and you will have our scrutiny when we think that you are wrong.

**Kirsty Williams:** Carwyn, I offer you my sincere congratulations on your appointment as First Minister this afternoon, following your victory in the Labour leadership contest. It was a battle well fought and well won.

During our time at the Assembly, I have shadowed you through more Business Committee meetings than I care to remember. There were also the challenging times of foot and mouth disease in Brecon and Radnorshire and those not-to-be-forgotten meetings in the barracks during that time. I look forward to going head-to-head with you in the new year, during questions to the First Minister, as we perform our role here, as Welsh Liberal Democrats, of scrutinising your Government.

mi i ddymuno'n dda i'ch mam, ac y bydd pawb yn deall y pwysau sydd wedi bod arnoch ers cryn amser.

Yr wyf yn croesawu'r hyn a ddywedasoch am graffu; mae'n bwysig, a gwyddom y byddwn heb os yn gwrtihdaro yn y dyfodol. Mae'n iawn i hynny ddigwydd ar faterion gwleidyddol difrifol, ac fe fydd gwahaniaethau gwleidyddol. Yr hyn nad wyf yn ei amau yw eich ymrwymiad personol a gwleidyddol i'r gwaith sydd o'ch blaen ac i'r dasg o wasanaethu Cymru. Nid yw'r amheuaeth am hynny fymryn yn fwya phan oedd Rhodri yn Brif Weinidog.

Yr wyf yn edrych ymlaen hefyd at weld Rhodri yn aelod llafar o'r meinciau cefn. Gwn am y math o niwed y gall ei wneud. Nid wyf yn siŵr a allwn ddod o hyd i sedd wag arall ichi draw yma, Rhodri; efallai y byddai hynny gam yn rhy bell. Fodd bynnag, bydd gan Rhodri rôl barhaus ddifrifol yma fel aelod o'r meinciau cefn sy'n cynrychioli buddiannau Cymru a buddiannau ei etholwyr. Edrychwn ymlaen yn fawr iawn at hynny.

Unwaith eto, Carwyn, llongyfarchiadau gwresog ichi o'r ochr hon i'r Siambr. Ni fydd neb ar ei ennill os methwch â chyflawni'r tasgau pwysig sy'n eich wynebu. Byddwn yn eich cefnogi pan fyddwn yn credu eich bod yn iawn, a byddwn yn craffu ar eich barn pan fyddwn yn credu eich bod yn anghywir.

**Kirsty Williams:** Carwyn, estynnaf fy llongyfarchiadau diffuant ichi ar gael eich penodi'n Brif Weinidog y prynhawn yma, yn dilyn eich buddugoliaeth yn yr ornest i fod yn arweinydd y Blaid Lafur. Cafodd y frwydr ei hymladd a'i hennill yn dda.

Yn ystod ein hamser yn y Cynulliad, yr wyf wedi eich cysgodi drwy fwya o gyfarfodydd y Pwyllgor Busnes nag y carwn eu cofio. Yn ogystal, aethom drwy gyfnod anodd clwy'r traed a'r genau ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed, a'r cyfarfodydd anghofiadwy hynny yn y barics yn ystod y cyfnod hwnnw. Edrychaf ymlaen at fynd benben â chi yn y flwyddyn newydd, yn ystod sesiynau cwestiynau i'r Prif Weinidog, wrth inni gyflawni ein rôl yma, fel Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, a chraffu ar eich Llywodraeth.

During the last week, much has been made of the fact that Rhodri Morgan became First Minister during a challenging time for devolution, which was very much the case. Fortunately, the institution is now on a much firmer footing, but you are also becoming First Minister at a challenging time for our nation—it is no less challenging than when Rhodri became First Minister. Many Welsh families are struggling through this recession and unemployment levels are in danger of echoing those of the 1980s. We face a difficult time as regards public spending and what that means for the services that we, in the National Assembly, are entrusted to deliver. The future of the Assembly, no less, will be at stake in the months to come. However, those are debates for the new year.

I take this opportunity to wish you, Lisa, and the rest of your family, a peaceful and restful Christmas and I look forward to the challenges of the new year.

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Yr wyf innau'n ategu'r llonyfarchiadau gwresog sydd wedi eu hestyn iti, Carwyn, ar gael dy ethol yn Brif Weinidog.

Yr wyf yn siŵr bod cael eich ethol yn arweinydd plaid wedi eich plesio'n fawr, ac mae cyfrifoldeb mawr ynglwm wrth y swydd honno, ond, wrth gwrs, mae bod yn Brif Weinidog hefyd yn golygu bod hyd yn oed mwy o bwysau ar eich ysgwyddau. O ganlyniad, mae'r arweiniad yr ydych wedi ei roi yn barod yn galondid inni i gyd. Yr ydych wedi cyfeirio heddiw at wireddu'r cyfan sydd yn y ddogfen 'Cymru'n Un', o hyn hyd at yr etholiadau, ac yr wyf yn edrych ymlaen at gydweithio â chi i sicrhau bod hynny'n digwydd ac i wynebu unrhyw graffu gan y gwrthbleidiau.

Yr ydych yn ymgymryd â'r swydd wedi ichi gael cefnogaeth eang yn eich plaid eich hun ac felly mae gennych fandad clir. Yr ydych wedi eich ethol yn ddiwrthwynebiad i swydd y Prif Weinidog, sydd hefyd yn dangos bod y

Yn ystod yr wythnos diwethaf, mae llawer o sylw wedi'i roi i'r ffaith fod Rhodri Morgan wedi dod yn Brif Weinidog yn ystod adeg anodd i ddatganoli, sy'n holol wir. Yn ffodus, mae'r sefydliad yn sefyll ar sail gadarnach erbyn hyn, ond yr ydych chi hefyd yn dod yn Brif Weinidog ar adeg anodd i'n cenedl—nid yw fymryn yn llai anodd na phan ddaeth Rhodri yn Brif Weinidog. Mae nifer o deuluoedd yng Nghymru'n cael anhawster ymdopi yn ystod y dirwasgiad hwn, ac y mae lefelau diweithdra mewn perygl o adleisio lefelau diweithdra'r 1980au. Yr ydym yn wynebu amser anodd o ran gwariant cyhoeddus a chanlyniadau hynny i'r gwasanaethau yr ydym ni yn y Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol am eu darparu. Bydd dyfodol hyd yn oed y Cynulliad yn y fantol yn y misoedd sydd i ddod. Fodd bynnag, dadleuon ar gyfer y flwyddyn newydd yw'r rheini.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddymuno Nadolig heddychlon a thawel i chi, Lisa a gweddill eich teulu, ac edrychaf ymlaen at heriau'r flwyddyn newydd.

**The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones):** I also endorse the warm congratulations that have been extended to you, Carwyn, on your election as First Minister.

I am certain that your election as leader of your party has pleased you very much, and there is a great responsibility attached to that office. But, of course, being First Minister also means that there is even more weight on your shoulders. As a result, the leadership that you have already demonstrated is encouraging for us all. You have referred today to realising all that is pledged in the 'One Wales' document, from now until the elections, and I look forward to working with you to ensure that that happens and to face any scrutiny by the opposition.

You are taking up this post having received widespread support from your own party, and therefore you have a clear mandate. You have been elected without opposition to the post of First Minister, which also shows the

Cynulliad yn dangos ewyllys da tuag at eich cyfrifoldebau newydd. Yr ydym yn gwybod, Carwyn, fod y dyddiau diwethaf wedi bod yn rhai o lawenydd mawr ichi, ond hefyd yn ddyddiau o ofid teuluol ac yr ydym yn meddwl amdanoch yn y cyfnod hwn.

Yr wyf yn edrych ymlaen yn arw at y cyfle i gydweithio. Mae'r bartneriaeth yr wyf wedi ei meithrin gyda'ch rhagflaenydd, Rhodri Morgan, wedi dangos fod sylfaen gadarn i'r Llywodraeth sy'n gweithredu 'Cymru'n Un' ac yr wyf yn edrych ymlaen at adnewyddu fy mherthynas â chi mewn rôl wahanol, i sicrhau ein bod yn cydweithio er lles pobl Cymru rhwng yn awr ac etholiadau 2011.

**Y Llywydd:** Mae'n dda gennyd gadarnhau bod y neges wedi'i hanfon at y palas gyda'r llythyr at Ei Mawrhydi. Byddwn yn disgwyl cadarnhad o benodiad y Prif Weinidog etholedig ar fyrder.

Mae'n syrthio imi unwaith eto, wrth gloi'r seremoni hon i enwebu Prif Weinidog, i ddiolch i Rhodri Morgan am ei wasanaeth, fel y gwneuthum ddoe, ac i groesawu Carwyn Jones i'w swydd. Yr wyf yn credu imi broffwydo unwaith, ar yr aelwyd acw, rai blynnyddoedd yn ôl bellach, y gallai peth fel hyn ddigwydd. Felly, mae'n fwy o ryfeddod imi ei fod wedi digwydd ac wedi digwydd yn y ffordd hon. Yr wyf innau hefyd yn gofodio am eich amgylchiadau teuluol ar hyn o bryd.

Y mae ein democraciaeth bellach yn gadarn. Fel y dywedodd y Prif Weinidog mor gryf ddoe, nid oes amheuaeth am ddyfodol datganoli. Gobeithiaf y gallwn barhau â'r berthynas gryf hon rhwng Cynulliad gweithredol, beirniadol, pan fo'i angen, a Llywodraeth Cymru effeithlon. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i ti, Carwyn.

Assembly's goodwill towards your new responsibilities. We know, Carwyn, that these past few days have been ones of great joy for you, but also days of great concern for your family, and we are thinking of you at this time.

I look forward very much to the opportunity to work with you. The partnership which I have forged with your predecessor, Rhodri Morgan, has shown that there is a firm foundations to the Government which implements 'One Wales', and I look forward to renewing my relationship with you in a different role, to ensure that, between now and the 2011 elections, we work together for the benefit of the people of Wales.

**The Presiding Officer:** I am pleased to confirm that the message has been sent to the palace with the letter to Her Majesty. We await the confirmation soon of the appointment of the First Minister elect.

It falls to me once again, in concluding this ceremony to nominate a First Minister, to thank Rhodri Morgan for his service, as I did yesterday, and to welcome Carwyn Jones to his office. I believe that, in the privacy of my own home, some years ago now, I once predicted that such a thing as this might occur. Therefore, it is more of a wonder to me that it has happened and in this way. I am also concerned about your family circumstances at this time.

Our democracy now stands firm. As the First Minister said so strongly yesterday, there is no doubt about the future of devolution. I hope we can maintain this strong relationship between an active, critical Assembly when it needs to be, and an effective Government of Wales. Congratulations and best wishes to you, Carwyn.

### **Atal Rheolaus Sefydlog Suspension of Standing Orders**

**Peter Black:** I move that

*the National Assembly for Wales in accordance with Standing Orders Nos. 35.6 and 35.8:*

**Peter Black:** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolaus Sefydlog Rhifau 35.6 a 35.8:*

suspends Standing Order No. 7.18(i) and that part of Standing Order No. 6.10 that requires the weekly announcement under Standing Order No. 6.3 to constitute the timetable for business in Plenary for the following week, to allow the motions under item 4 to be considered in Plenary on Wednesday, 9 December 2009. (NDM4349)

yn atal Rheol Sefydlog Rhif 7.18(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog Rhif 6.10 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.3 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y cyfarfod llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r cynigion o dan eitem 4 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher, 9 Rhagfyr 2009. (NDM4349)

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw ein bod yn gohirio'r Rheolau Sefydlog. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, datganaf fod y cynnig wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

2.30 p.m.

### **Ethol Aelodau i Bwyllgorau Election of Members to Committees**

**Peter Black:** I move that

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 10.3 elects Chris Franks (Plaid Cymru) as a member of Legislation Committee No. 1. (NNDM4350)*

and that

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 10.3 elects Janet Ryder (Plaid Cymru) as a member of the Finance Committee. (NDM4351)*

**Y Llywydd:** Y cynnig yw cytuno ynghyd y cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau. A oes Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes, felly yr wyf yn datgan bod yn cynnig, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, wedi'i gytuno.

*Derbyniwyd y cynigion.  
Motions agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 2.30 p.m.  
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 2.30 p.m.*

**Dadl a Chymeradwyo Gorchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
(Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd a Lles**

**Cymdeithasol) 2010**  
**Debate and Approval of the Draft National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Health and Health Services and Social Welfare) Order 2010**

**Jonathan Morgan:** I move that

*the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order No. 22.34:*

*approves the Draft National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Health and Health Services and Social Welfare) Order 2010. (NDM4345)*

This week has clearly been one of historic events. We have seen the first Assembly Member to cross the floor from one party to another, and we have seen the resignation of one First Minister and the election of a new First Minister. And now, this becomes the first backbench request for a legislative competence Order to reach this final stage of the process here in the National Assembly. It has taken more than two years to get to this particular point, having won the ballot in October 2007—there are a few more hurdles to climb over yet.

As a backbencher, I accept that the process is likely to be slower than that experienced by Government Orders, and unlike some Members, I do think that there is considerable value in the process, particularly in the scrutiny of the proposals. However, as one of my colleagues commented recently, I hope that although I am the sheep that has walked over the minefield, those who follow will have a swifter and clearer path as a result.

I could not have reached this stage without the valuable and dedicated support of the Assembly Commission's legal staff and the Members' research services staff. I would like to give my personal thanks to three people for their considerable work over the past two years. They are Sarah Beasley, Joane Jackson, and Steve Boyce. They helped me with a significant amount of the spade work necessary to get to this stage. They have advised me superbly, and for that, I am extremely grateful, particularly as two

**Jonathan Morgan:** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.34:*

*yn cymeradwyo Gorchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd a Lles Cymdeithasol) 2010. (NDM4345)*

Mae'r wythnos hon yn amlwg wedi bod yn un o ddigwyddiadau hanesyddol. Gwelsom yr Aelod Cynulliad cyntaf yn croesi'r llawr o un blaidd i blaidd arall, a gwelsom un Prif Weinidog yn ymddiswyddo a Phrif Weinidog newydd yn cael ei ethol. Ac yn awr, dyma'r cais cyntaf am Orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol gan Aelod o'r meinciau cefn i gyrraedd y cam terfynol hwn yn y broses, yma yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae wedi cymryd dros ddwy flynedd imi gyrraedd y man penodol hwn, ar ôl ennill y balot ym mis Hydref 2007—ac y mae rhai rhwystrau eto i'w goresgyn.

Fel aelod o'r meinciau cefn, derbyniaf fod y broses yn debygol o fod yn arafach nag ar gyfer Gorchymynion Llywodraeth, ac yn wahanol i rai Aelodau, credaf fod cryn werth i'r broses, yn enwedig o ran crafu ar y cynigion. Fodd bynnag, fel y dywedodd un o'm cydweithwyr yn ddiweddar, er mai fi yw'r ddafad sydd wedi cerdded ar draws y maes ffrwydron, gobeithio y bydd llwybr y sawl sy'n dilyn yn gyflymach ac yn gliriach o ganlyniad i hynny.

Byddai wedi bod yn amhosibl imi gyrraedd y cam hwn heb gymorth gwerthfawr ac ymroddedig staff cyfreithiol Comisiwn y Cynulliad a staff gwasanaethau ymchwil yr Aelodau. Hoffwn estyn fy niolch personol i dri unigolyn am eu gwaith sylweddol dros y ddwy flynedd diwethaf. Y tri unigolyn dan sylw yw Sarah Beasley, Joane Jackson a Steve Boyce. Cefais gymorth ganddynt i wneud cryn dipyn o'r gwaith caib a rhaw a oedd yn angenrheidiol i gyrraedd y cam hwn. Yr wyf wedi cael cyngor gwych ganddynt, ac

of them joined me when I attended the Welsh Affairs Committee to give evidence in the summer. It was a rather daunting experience, I have to tell you, even for someone who has been here for 10 years, so I was extremely grateful that senior and experienced officers were able to come with me to bale me out of trouble when required.

A special vote of thanks must go to the Minister. One of the juxtapositions of pursuing a competence Order as a backbench Member of the opposition is that, to proceed, you need the support of the Government. You need more than that, however; you need the active support of the Minister as well. Edwina Hart has been open and helpful to me as the Member in charge of this draft Order. She has made her officials available to me for advice and support, and, on occasion, when it was required, the Minister was somewhat forceful with Whitehall, and that is extremely welcome when we consider how this process has evolved over the past two years. I hope that she will not be too embarrassed by the fact that I am praising her, but this has been very much a joint effort, and it is important to recognise the amount of cross-party work and the level of co-operation that the Minister was able to show me.

I remember a piece of advice that I received from Hywel Francis, the Chair of the Welsh Affairs Committee. He said that, in order for a backbench piece of legislation to pass, there are three requirements: first is Government support; secondly is backbench support; and finally, to demonstrate to the Minister for finance that it will not cost him anything. I believe that I have had the Government's active support, primarily because the Minister for health is as passionate as I am about the positive reform of mental health services in Wales. Moreover, the comment made by the Welsh Affairs Committee in its report clearly conveys the collaborative and constructive nature in which this draft LCO has progressed. As Members are well aware, this draft LCO achieved cross-party support from the outset, and I believe that the degree of support on a subject such as this is extremely

yr wyf yn ddiolchgar tu hwnt iddynt am hynny, yn enwedig gan fod dau ohonynt wedi ymuno â mi fûm yn y Pwyllgor Materion Cymreig i roi tystiolaeth yn ystod yr haf. Yr oedd yn brofiad digon brawychus, rhaid cyfaddef, hyd yn oed i rywun sydd yma ers 10 mlynedd, ac yr oeddwn yn hynod ddiolchgar, felly, fod uwch-swyddogion profiadol wedi gallu dod gyda mi i achub fy nghroen pan oedd angen.

Rhaid diolch yn arbennig i'r Gweinidog. Un o'r eironïau sy'n codi wrth fynd ar drywydd Gorchymyn cymhwysedd fel Aelod o feinciau cefn yr wrthblaid yw fod arnoch angen cefnogaeth y Llywodraeth i symud ymlaen. Fodd bynnag, mae arnoch angen mwy na hynny; mae arnoch angen cefnogaeth weithredol y Gweinidog hefyd. Mae Edwina Hart wedi bod yn onest â mi ac wedi bod yn barod i'm cynorthwyo fel yr Aelod sydd â gofal am y Gorchymyn drafft hwn. Mae wedi sicrhau bod ei swyddogion ar gael i roi cyngor a chymorth imi, ac ar adegau, pan oedd angen, yr oedd y Gweinidog yn ddigon cadarn â Whitehall, ac y mae hynny'n dderbyniol tu hwnt o ystyried sut mae'r broses hon wedi esblygu dros y ddwy flynedd diwethaf. Gobeithio na fydd yn teimlo gormod o embaras am fy mod yn ei chanmol, ond ymdrech ar y cyd fu hon i raddau helaeth iawn, ac y mae'n bwysig cydnabod yr holl waith trawsbleidiol a'r cydweithredu a gefais gan y Gweinidog.

Cofiaf y cyngor a gefais gan Hywel Francis, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig. Dywedodd fod angen bodloni tri gofyniad i allu pasio darn o ddeddfwriaeth gan Aelod o'r meinciau cefn: y cyntaf yw bod angen cefnogaeth y Llywodraeth; yr ail yw bod angen cefnogaeth y meinciau cefn; a'r olaf yw bod angen dangos i'r Gweinidog dros gyllid na fydd yn costio dim iddo. Credaf fy mod wedi cael cefnogaeth weithredol y Llywodraeth, yn bennaf oherwydd bod y Gweinidog dros iechyd yr un mor frwdfrydig â mi ynghylch diwygio gwasanaethau iechyd meddwl mewn modd cadarnhaol yng Nghymru. At hynny, mae'r sylw a wnaed gan y Pwyllgor Materion Cymreig yn ei adroddiad yn dangos yn glir y modd cydweithredol ac adeiladol y mae'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft hwn wedi symud yn ei flaen. Fel y

welcome, and it clearly demonstrates to the people of Wales that, while we may disagree on the policy agenda for our nation, there are some issues that can truly unite us.

Finally, perhaps I still have the Minister for finance to persuade, but I am sure that the Minister for health has made the financial paths straight in preparation for any Measures that will follow if this draft Order is approved.

I convey my thanks to the Assembly's legislation committee, under the chairmanship of David Melding, and to the Welsh Affairs Committee for the diligent nature in which they went about scrutinising the draft Order. I have always been comfortable with the cross-institutional nature of the scrutiny of Orders. It proves to the people of Wales, regardless of how long the process takes, that a level of maturity and co-operation can exist between the Assembly and Parliament, which is extremely important.

I wish to take a few moments to explain to Members how the draft Order laid before us today differs from that first laid before the Assembly, which was scrutinised by the LCO committee and the changes that were examined by the Welsh Affairs Committee. The Assembly committee recommended that, as a general principle, the proposed Order should be broadly drafted to allow the Assembly greater flexibility to identify the scope and definition of the rights and duties in relation to the provision of mental health services in subsequent Measures. The finalised proposed Order that was laid before Parliament for pre-legislative scrutiny was amended significantly from the proposed Order considered by the Assembly committee, in a way which reflects the committee's wish for broad drafting.

gŵyr yr Aelodau'n iawn, cafodd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafst hwn gefnogaeth ar draws y pleidiau o'r dechrau'n deg. Credaf y dylid croesawu'n fawr yr holl gefnogaeth honno i bwnc fel hwn, ac y mae'n dangos yn glir i bobl Cymru fod rhai materion yn gallu ein huno'n wirioneddol, er y gallwn anghytuno am yr agenda bolisi ar gyfer ein cenedl.

Yn olaf, hwyrach nad wyf wedi llwyddo o hyd i berswadio'r Gweinidog dros gyllid, ond yr wyf yn siŵr fod y Gweinidog dros iechyd wedi unioni'r llwybrau ariannol wrth baratoi ar gyfer unrhyw Fesurau a fydd yn dilyn os caiff y Gorchymyn drafst hwn ei gymeradwyo.

Hoffwn gyfleo fy niolch i bwylgor deddfwriaeth y Cynulliad, dan gadeiryddiaeth David Melding, ac i'r Pwyllgor Materion Cymreig, am eu diwydrwydd wrth graffu ar y Gorchymyn drafst. Yr wyf bob amser wedi teimlo'n gysurus ynghylch natur draws-sefydliadol y gwaith craffu ar Orchmyntion. Mae'n profi i bobl Cymru y gall fod rhywfaint o aeddfedrwydd a chydweithredu rhwng y Cynulliad a Senedd y DU, ni waeth pa mor faith yw'r broses, sy'n eithriadol o bwysig.

Hoffwn neilltuo rhai eiliadau i esbonio wrth yr Aelodau sut mae'r Gorchymyn drafst a osodir ger ein bron yma heddiw yn wahanol i'r un a osodwyd gyntaf gerbron y Cynulliad ac y craffodd pwyllgor y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arno, ac esbonio'r newidiadau a archwiliwyd gan y Pwyllgor Materion Cymreig. Argymhellodd pwyllgor y Cynulliad, fel egwyddor gyffredinol, y dylai'r Gorchymyn arfaethedig gael ei ddrafftio'n fras, er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Cynulliad nodi cwmpas a diffiniad yr hawliau a'r dyletswyddau o ran darparu gwasanaethau iechyd meddwl, mewn Mesurau dilynl. Cafodd y Gorchymyn arfaethedig terfynol a osodwyd gerbron Senedd y DU, er mwyn craffu arno cyn y broses ddeddfu, ei ddiwygio'n sylwedol o'i gymharu â'r Gorchymyn arfaethedig a ystyriwyd gan bwylgor y Cynulliad, mewn modd a oedd yn adlewyrchu dymuniad y pwyllgor i'r Gorchymyn arfaethedig gael ei ddrafftio'n fras.

The original proposed Order would have conferred legislative competence in relation to three aspects of mental health, namely assessment, treatment and advocacy. The amended proposed Order replaced references to individuals and effectively combined them into a single substantive item—assessment of mental health and treatment of mental disorder. In line with the Assembly committee's recommendations, local authorities have also been brought within the scope of the draft Order in matter 9.2, which at that time dealt exclusively with the health service. Again, this reflects the importance of the delivery of mental health services broadly across health and social care agencies in relation to the assessment and treatment of care.

The Assembly committee was also concerned about the relationship between the proposed Order and the Mental Health Act 1983, in particular the exclusion of those individuals detained under the Act from the scope of the proposed Order. The revised proposed Order took account of this by excluding the substantive matters of the 1983 Act, rather than the individuals subject to the 1983 Act, which is critical.

The last key recommendation was with regard to independent advocacy in matter 15.10. The original proposed Order excepted advocacy for persons detained under the 1983 Act, but included advocacy other than that specifically provided under the Act. So, the recommendation was that the exception in relation to compulsory treatment and detention should not apply to advocacy services, and would therefore allow the Assembly Government and the Assembly to facilitate the development of a seamless advocacy service for persons with mental disorders, without encroaching on the criminal justice system. It would not be right for the Assembly to offer advocacy services to those who are ill without being able to extend those services to those who have already been detained under the Mental Health Act 1983. Therefore, the current version of matter 15.10 makes no specific reference to advocacy under the 1983 Act, so any proposal to deal with advocacy in Measures would have to come within

Byddai'r Gorchymyn arfaethedig gwreiddiol wedi rhoi cymhwysedd deddfwriaethol yng nghyswllt tair agwedd ar iechyd meddwl, sef asesu, triniaeth ac eiriolaeth. Yr oedd y Gorchymyn arfaethedig a ddiwygiwyd yn disodli cyfeiriadau at unigolion ac yn eu cyfuno fwy neu lai yn un eitem ddiffiniol—asesu iechyd meddwl a thrin anhwylder meddwl. Yn unol ag argymhellion pwylgor y Cynulliad, mae awdurdodau lleol wedi'u cynnwys hefyd yng nghwmpas y Gorchymyn drafat ym mater 9.2, a oedd ar y pryd yn ymdrin â'r gwasanaeth iechyd yn unig. Unwaith eto, mae hynny'n adlewyrchu pwysigrwydd darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn eang ar draws asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng nghyswllt asesu a thrin gofal.

Yn ogystal, yr oedd pwylgor y Cynulliad yn poeni am y berthynas rhwng y Gorchymyn arfaethedig a Deddf Iechyd Meddwl 1983, yn enwedig eithrio'r unigolion hynny a gedwir dan y Ddeddf o gwmpas y Gorchymyn arfaethedig. Cafodd hynny ei ystyried gan y Gorchymyn arfaethedig a ddiwygiwyd, drwy eithrio materion diffiniol Deddf 1983 yn hytrach na'r unigolion sy'n dod dan Ddeddf 1983, sy'n hollbwysig.

Yr oedd yr argymhelliaid allweddol olaf yn ymwneud ag eiriolaeth annibynnol ym mater 15.10. Yr oedd y Gorchymyn arfaethedig gwreiddiol yn eithrio eiriolaeth ar gyfer pobl a gedwir dan Ddeddf 1983, ond yn cynnwys eiriolaeth ar wahân i'r hyn a ddarperir yn benodol dan y Ddeddf. Felly, yr argymhelliaid oedd na ddylai'r eithriad yng nghyswllt amodau cadw a thriniaeth orfodol fod yn berthnasol i wasanaethau eiriolaeth, ac y byddai felly'n galluogi Llywodraeth y Cynulliad a'r Cynulliad i hwyluso gwaith datblygu gwasanaeth eiriolaeth di-dor ar gyfer pobl ag anhwylderau meddwl, heb dresmasu ar y system cyflawnder troseddol. Ni fyddai'n briodol i'r Cynulliad gynnig gwasanaethau eiriolaeth i'r sawl sy'n sâl heb fedru estyn y gwasanaethau hynny i'r sawl sydd eisoes wedi'u cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Felly, nid yw fersiwn cyfredol mater 15.10 yn cyfeirio'n benodol at eiriolaeth dan Ddeddf 1983, a byddai'n rhaid i unrhyw gynnig i ymdrin ag eiriolaeth mewn Mesurau dddod dan asesu, triniaeth neu

assessment, treatment or social care services. However, the current draft Order specifically excludes advocacy under the Mental Capacity Act 2005 from the competence sought.

Those are the major changes in the current draft Order compared with the proposed Order as initially laid before the Assembly, and I hope that Members will be content with the changes in the draft Order.

**David Melding:** I commend the work of Jonathan Morgan in taking through this draft LCO, and also the way in which the Minister has co-operated. Not all backbench Members' proposals have succeeded, but I commend the Welsh Assembly Government for taking on board this draft Order in such a productive way. It demonstrates that there are some cases where backbench proposals can bring benefit across public services and to the Government's programme. It has been quite a long road, and we have been back and forth along the M4 on a number of occasions, but Wales stands to be better served now that this competence is likely to be given to the National Assembly.

The evidence received by my committee was overwhelmingly in favour of this competence. The Government has competence to deliver mental health services through the various health bodies to draw up policy on mental health, but witness after witness also felt that we should have the legal competence.

2.40 p.m.

I also want to commend the vision of Jonathan Morgan in saying that there is a need for great reform in this area. This came through very much in the work of my committee. There was a belief that by identifying this as a key area for the Assembly to work in, it would send out a positive message about what we think of mental health and wellbeing in general. I hope that, through any subsequent Measure that this draft LCO will allow, we will see

wasanaethau gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r Gorchymyn drafft cyfredol yn eithrio eiriolaeth dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn benodol o'r cymhwysedd a geisir.

Dyna'r newidiadau o bwys yn y Gorchymyn drafft cyfredol o'i gymharu â'r Gorchymyn arfaethedig a osodwyd gerbron y Cynulliad i ddechrau, a gobeithio y bydd Aelodau'n fodlon â'r newidiadau yn y Gorchymyn drafft.

**David Melding:** Yr wyf yn canmol gwaith Jonathan Morgan yn symud y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft hwn yn ei flaen, ac yn canmol y modd y mae'r Gweinidog wedi cydweithredu. Nid yw pob cynnig gan Aelodau o'r meinciau cefn wedi llwyddo, ond yr wyf yn canmol Llywodraeth y Cynulliad am ystyried y Gorchymyn drafft hwn mewn modd mor gynhyrchiol. Mae'n dangos bod rhai achosion lle gall cynigion o'r meinciau cefn fod o fudd ar draws gwasanaethau cyhoeddus ac i raglen y Llywodraeth. Mae wedi bod yn siwrnai ddigon, ac yr ydym wedi bod yn ôl ac ymlaen ar hyd yr M4 droeon, ond siawns mae Cymru mewn sefyllfa i gael ei gwasanaethu'n well yn awr gan fod y cymhwysedd hwn yn debygol o gael ei roi i'r Cynulliad Cenedlaethol.

O'r dystiolaeth a gafodd fy mhwyllgor, yr oedd y rhan fwyaf o ddigon o blaid y cymhwysedd hwn. Mae gan y Llywodraeth gymhwysedd i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl drwy'r amryw gyrrff iechyd ac i lunio polisi ar iechyd meddwl, ond teimlai tyst ar ôl tyst hefyd y dylem gael y cymhwysedd deddfwriaethol.

Yr wyf hefyd am ganmol gweledigaeth Jonathan Morgan wrth ddweud bod angen llawer iawn o ddiwygio yn y maes hwn. Daeth hynny'n amlwg iawn yng ngwaith fy mhwyllgor. Wrth glustnodi hwn yn faes allweddol i'r Cynulliad weithio ynddo, y gred oedd y byddai hynny'n anfon neges gadarnhaol am ein barn am iechyd meddwl a lles yn gyffredinol. Gobeithio, drwy unrhyw Fesur dilynol y bydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft hwn yn ei

that principle being embedded in our legislation.

As Jonathan has said, at the heart of this proposal is a desire for us to legislate and ensure that there is early treatment before a serious illness gets worse and that the role of the primary care sector in providing a holistic approach to mental health care is not overlooked. I am pleased to see that the Minister is already addressing this through executive action, emphasising the importance of GPs and primary care professionals in general and ensuring that they address mental health issues adequately and are also aware of the need for wellbeing in this sector, which is a much more positive way of approaching these issues than treatment alone.

As Jonathan has said, the key services for a Measure are likely to be the right to an assessment, treatment and advocacy based not on compulsion, following the 1983 Act, but provided in a much more progressive way. That is not to undermine the intent behind the 1983 Act, which is aimed principally at the serious end of mental health conditions.

The draft LCO will provide the means for us to put the patient at the heart of care planning. That came across strongly in the evidence that my committee received. It only remains for me to conclude by assuring the Assembly regarding the two main recommendations that my committee made, namely that the draft LCO needed to be drafted more broadly, which has been met, as Jonathan referred to in his speech, and also that social care services should be included, and they have. Therefore, I warmly commend this draft LCO to the Assembly. I am sure that it will now progress. It is my earnest hope that a comprehensive mental health Measure will follow soon.

**The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart):** I am pleased to see the draft LCO on mental health before us

ganiatáu, y gwelwn yr egwyddor honno'n cael ei hymgorffori yn ein deddfwriaeth.

Fel y dywedodd Jonathan, wrth wraidd y cynnig hwn y mae awydd inni ddeddfu a sicrhau bod yna driniaeth gynnar cyn i salwch difrifol waethyg, a sicrhau nad yw rôl y sector gofal sylfaenol o ran darparu agwedd gyfannol at ofal iechyd meddwl yn cael ei hanwybyddu. Yr wyf yn falch gweld bod y Gweinidog eisoes yn rhoi sylw i hyn drwy gamau gweithredol, gan bwysleisio pwysigrwydd meddygon teulu a gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol yn gyffredinol, a sicrhau eu bod yn mynd i'r afael yn ddigonol â materion iechyd meddwl, a'u bod hefyd yn ymwybodol fod angen lles yn y sector hwn, sy'n ffordd fwy cadarnhaol o lawer o ymdrin â'r materion hyn na thriniaeth yn unig.

Fel y dywedodd Jonathan, mae'r gwasanaethau allweddol ar gyfer Mesur yn debygol o olygu'r hawl i gael asesiad, triniaeth ac eiriolaeth yn seiliedig nid ar orfodaeth, yn dilyn Deddf 1983, ond a ddarperir mewn modd llawer mwy blaengar. Nid diben hynny yw tanseilio'r bwriad y tu ôl i Ddeddf 1983, sydd wedi'i hanelu'n bennaf at yr anhwylderau iechyd meddwl mwyaf difrifol.

Bydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft yn darparu ffordd inni roi'r claf wrth wraidd cynllunio gofal. Yr oedd hynny'n amlwg iawn yn y dystiolaeth a gafodd fy mhwyllgor. Y cyfan sy'n weddill imi ei wneud yn awr wrth derfynu yw rhoi sicrwydd i'r Cynulliad am y ddau brif argymhelliaid a wnaeth fy mhwyllgor, sef bod angen i'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft gael ei ddrafftio'n fwy bras, sydd wedi'i wneud, fel y soniodd Jonathan yn ei arraith, a hefyd y dylid cynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol, sydd hefyd wedi'i wneud. Felly, yr wyf yn cymeradwyo'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft hwn yn gynnes i'r Cynulliad. Yr wyf yn siŵr y bydd yn symud yn ei flaen yn awr. Fy ngobaith o ddifrif yw y bydd Mesur iechyd meddwl cynhwysfawr yn dilyn yn fuan.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Yr wyf yn falch gweld y Gorchymyn cymhwysedd

today. It may have taken us a while to reach this point, as Jonathan suggested, but progress over recent months has been swift. Today's debate is a key milestone in the passage of the draft Order. Although no-one should ever take anything for granted in these matters, it is fair to say that the finishing line is very much in sight on this first stage. Gaining legislative competence in relation to mental health is a key 'One Wales' commitment, and the draft LCO before you today will enable the Welsh Assembly Government to achieve its objective as well as the Member who laid the Order.

I need not remind you that all the parties that are represented in the Assembly previously indicated their support for the same. I well remember our initial meetings, with me as Minister for health, Helen Mary Jones shadowing me from Plaid Cymru, and Jonathan Morgan and Jenny Randerson who were then shadowing me on health. We held early discussions with the mental health charities about what they wanted to see happening in these key areas. I am sure that they will also welcome this today. The key stakeholders, that is, the service group users and the campaigning organisations, are fully behind the draft legislative competence Order, and they have given us enormous support throughout the whole process.

Therefore, it is pleasing for me to see the draft Order reach this important step in its journey and to add my personal support and that of the Assembly Government to it. I have worked closely with Jonathan in developing the draft LCO to ensure that it achieves his aims and all our aims in this area. The draft Order that is before us today does that; it is the culmination of everyone's efforts. I thank him for his warm words regarding our collaboration.

For my part, I wish to add that our

deddfwriaethol drafft ynghylch iechyd meddwl ger ein bron heddiw. Efallai iddi gymryd cryn amser inni gyrraedd y man hwn, fel yr awgrymodd Jonathan, ond gwnaed cynydd buan yn ystod y misoedd diwethaf. Mae'r ddadl heddiw'n garreg filltir allweddol yn nhai y Gorchymyn drafft. Er na ddylai neb fyth gymryd dim yn ganiataol yn y materion hyn, mae'n deg dweud bod y llinell derfyn o fewn golwg yn bendant yn y cam cyntaf hwn. Mae ennill cymhwysedd deddfwriaethol yng nghyswllt iechyd meddwl yn un o ymrwymiadau allweddol 'Cymru'n Un', a bydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft sydd ger eich bron heddiw yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i gyflawni ei hamcan, yn ogystal â'r Aelod a osododd y Gorchymyn.

Nid oes angen imi eich atgoffa bod yr holl bleidiau a gynrychiolir yn y Cynulliad wedi dangos eu cefnogaeth i'r Gorchymyn o'r blaen. Cofiaf yn dda am ein cyfarfodydd dechreuo, a minnau'n Weinidog dros iechyd, Helen Mary Jones yn fy nghysgodi o Blaid Cymru, a Jonathan Morgan a Jenny Randerson yn fy nghysgodi ar y pryd o ran iechyd. Cawsom rafodaethau cynnar gyda'r elusennau iechyd meddwl am yr hyn yr oeddent am ei weld yn digwydd yn y meysydd allweddol hyn. Yr wyf yn siŵr y byddant hwy hefyd yn croesawu hyn heddiw. Mae'r rhanddeiliaid allweddol, hynny yw, y defnyddwyr grwpiau gwasanaethau a'r cyrff ymgyrchu, yn cefnogi'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft yn llwyr, ac y maent wedi rhoi cymorth aruthrol inni drwy gydol yr holl broses.

Mae'n bleser gennyf, felly, weld y Gorchymyn drafft yn cyrraedd y cam pwysig hwn ar ei daith, ac ychwanegaf fy nghefnogaeth bersonol a chefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad iddo. Yr wyf wedi cydweithio'n agos â Jonathan wrth ddatblygu'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft i sicrhau ei fod yn cyflawni ei nodau ef a nodau pob un ohonom yn y maes hwn. Mae'r Gorchymyn drafft sydd ger ein bron heddiw'n gwneud hynny; mae'n binacl ar ymdrechion pawb. Diolch iddo am ei eiriau caredig am y cydweithredu a fu ryngom.

O'm rhan i, hoffwn ychwanegu bod ein

discussions have always been constructive and have, at all times, been held in the spirit of co-operation and shared purpose, which is very important. In its recent report on the draft LCO, the Welsh Affairs Committee remarked upon and applauded the high level of co-operation that has enabled this draft LCO to progress to this stage. I also thank the Wales Office, and Wayne David, the Parliamentary Under-Secretary of State for Wales, who spoke in support of this draft Order at the Welsh Affairs Committee earlier this year, and whose co-operation and support has been crucial in reaching this stage of the legislative process. We will once again be relying on the support of the Wales Office to negotiate the final stages of the legislative process. If the draft Order receives the support of the Assembly today it will return to Westminster, where MPs and their lordships will have an opportunity to debate and agree our proposals before Royal Assent is granted.

I add my thanks to those expressed by others for the work of the Assembly scrutiny committee under David Melding and the Welsh Affairs Committee, both of which helped to shape the content and scope of this final version of the draft Order and its explanatory memorandum. The detailed consideration and valuable observations of those committees helped enormously in refining the proposals and ensuring that the draft LCO is fit for purpose.

However, devolving legislative competence is only half the story. The draft Order before us today is simply a means to an end; a mechanism that, if successful, will allow us as a Government and a legislature to develop our own policies in the future in relation to mental health assessment, treatment and advocacy. The previous First Minister announced in July that this Government would introduce a Measure on mental health during the current Assembly, and today I want to add my own commitment to doing that. Indeed, I have already held talks with Jonathan about areas in which we might seek to legislate, should competence be devolved.

trafodaethau bob amser wedi bod yn adeiladol, ac yn ddieithriad wedi'u cynnal mewn ysbryd o gydweithredu a diben cyffredin, sy'n bwysig iawn. Yn ei adroddiad yn ddiweddar ar y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft, tynnodd y Pwyllgor Materion Cymreig sylw at y cydweithredu sylweddol sydd wedi galluogi'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft hwn i gyrraedd y cam hwn, ac fe'i canmolodd. Hoffwn ddiolch hefyd i Swyddfa Cymru, a Wayne David, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, a siaradodd o blaid y Gorchymyn drafft hwn yn y Pwyllgor Materion Cymreig yn gynharach eleni. Mae ei gydweithrediad a'i gefnogaeth wedi bod yn hanfodol i gyrraedd y cam hwn yn y broses ddeddfu. Unwaith eto, byddwn yn dibynnu ar gymorth Swyddfa Cymru i drafod camau olaf y broses ddeddfu. Os caiff y Gorchymyn drafft gefnogaeth y Cynulliad heddiw, bydd yn dychwelyd i San Steffan lle bydd Aelodau Seneddol a'r arglywyddi'n cael cyfle o gael dadl ar ein cynigion a'u cytuno cyn i'r Cydsyniad Brenhinol gael ei roi.

Hoffwn ychwanegu fy niolch i at y diolch a fynegwyd gan eraill am y gwaith a wnaed gan bwyllgor craffu'r Cynulliad, dan arweiniad David Melding, a'r Pwyllgor Materion Cymreig, oherwydd bu'r ddau bwyllgor yn gymorth i ffurfio cynnwys a chwmpas y fersiwn terfynol hwn o'r Gorchymyn drafft a'i femorandwm esboniadol. Bu ystyriaeth fanwl a sylwadau gwerthfawr y pwylgorau hynny o gymorth aruthrol i fireinio'r cynigion a sicrhau bod y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft yn addas at y diben.

Fodd bynnag, hanner y stori'n unig yw datganoli cymhwysedd deddfwriaethol. Modd i gyrraedd nod yw'r Gorchymyn drafft sydd ger ein bron heddiw; system a fydd, os llwydda, yn ein galluogi fel Llywodraeth a deddfwrfa i ddatblygu ein polisiau ein hunain yn y dyfodol yng nghyswilt asesu, triniaeth ac eiriolaeth ym maes iechyd meddwl. Cyhoeddodd y Prif Weinidog blaenorol ym mis Gorffennaf y byddai'r Llywodraeth hon yn cyflwyno Mesur yngylch iechyd meddwl yn ystod y Cynulliad cyfredol, a heddiw yr wyf am ychwanegu fy ymrwymiad fy hun i wneud hynny. Yn wir, yr wyf eisoes wedi cael trafodaethau gyda Jonathan am feysydd

My officials have also been holding preliminary conversations with a range of stakeholders across Wales on what the first Assembly Measure on this subject might include.

However, today is not the time to talk in detail about the content of that first Measure. Members can see from the explanatory memorandum to the draft Order that the powers that we seek will enable us to place statutory duties on NHS bodies and social services providers in Wales in relation to the provision of assessment, treatment and advocacy. I do not wish to pre-empt the will of the Assembly, or of Parliament, by talking about these matters further during this debate, but I will have more to say if and when legislative competence is devolved, and we are in a position to introduce a relevant Assembly Measure. However, I would like to assure Members that this Government will develop any future policies on this subject in the spirit of openness and inclusiveness that has characterised our progress in this area to date. If the draft LCO is successful, we will look to introduce an Assembly Measure as soon as is practicable.

As you know, the Assembly Government is committed to improving mental health services, and, in recent years, we have increased investment, developed new, community-based services, and published a refined national service framework and action plans for service providers. However, we all want to do more to keep improving services in Wales. I stated in my response to the Health, Wellbeing and Local Government Committee report on community mental health services last week that there has been an improvement in mental health services over the last few years. However, I recognise that there is some way to go before services achieve consistently and acceptably high standards across Wales. This draft LCO will allow us to develop our own legislation, which will create Welsh solutions to the particular problems and issues that affect those with mental health problems in Wales.

lle gallem geisio deddfu, pe bai cymhwysedd yn cael ei ddatganoli. Yn ogystal, mae fy swyddogion wedi bod yn cynnal sgyrsiau rhagarweiniol ag ystod o randdeiliaid ar draws Cymru am yr hyn y gallai Mesur cyntaf y Cynulliad ar y pwnc hwn ei gynnwys.

Fodd bynnag, nid heddiw yw'r amser i siarad yn fanwl am gynnwys y Mesur cyntaf hwnnw. Gall Aelodau weld o femorandwm esboniadol y Gorchymyn drafft y bydd y pwerau'r ydym yn eu ceisio yn ein galluogi i osod dyletswyddau statudol ar gyrrf y GIG a darparwyr gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yng nghyswllt darparu asesiad, triniaeth ac eiriolaeth. Nid wyf am ragdybio ewyllys y Cynulliad, na Senedd y DU, drwy siarad ymhellach am y materion hyn yn ystod y ddadl hon, ond bydd gennyf fwy i'w ddweud os a phan gaiff cymhwysedd deddfwriaethol ei ddatganoli, a phan fyddwn mewn sefyllfa i gyflwyno Mesur Cynulliad perthnasol. Fodd bynnag, hoffwn roi sicrwydd i Aelodau y bydd y Llywodraeth hon yn datblygu unrhyw bolisiau yn y dyfodol ar y pwnc hwn yn yr ysbryd agored a chynhwysol sydd wedi nodweddu ein cynnydd yn y maes hwn hyd yma. Os bydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft yn llwyddo, byddwn yn ceisio cyflwyno Mesur Cynulliad cyn gynted ag y bydd hynny'n ymarferol.

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i wella gwasanaethau iechyd meddwl, ac yn ystod y blynnyddoedd diwethaf yr ydym wedi cynyddu buddsoddiad, wedi datblygu gwasanaethau newydd, cymunedol, ac wedi cyhoeddi fframwaith gwasanaeth cenedlaethol wedi'i fireinio, a chynlluniau gweithredu ar gyfer darparwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, hoffem i gyd wneud mwy i barhau i wella gwasanaethau yng Nghymru. Yn fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar wasanaethau iechyd meddwl cymunedol yr wythnos diwethaf, dywedais fod gwasanaethau iechyd meddwl wedi gwella dros y blynnyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, yr wyf yn cydnabod bod tipyn o ffordd i fynd cyn i wasanaethau gyrraedd safonau sy'n gyson ac yn dderbynol uchel ledled Cymru. Bydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol

Legislative competence will take us a huge step closer to that possibility, and I therefore commend this motion to the Assembly and ask that it is fully supported.

drafft hwn yn caniatau inni ddatblygu ein deddfwriaeth ein hunain, a fydd yn creu atebion Cymreig i'r materion a'r problemau penodol sy'n effeithio ar bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yng Nghymru. Bydd cymhwysedd deddfwriaethol yn mynd â ni lawer yn nes at y posiblwydd hwnnw. Felly, yr wyf yn cymeradwyo'r cynnig hwn i'r Cynulliad ac yn gofyn iddo ei gefnogi'n llawn.

**Andrew R.T. Davies:** I join others in congratulating Jonathan. I know full well the work that he has put in, along with Assembly officials, in championing this request and particularly in working in harmony with the Minister to devolve competence in this field, which was a manifesto commitment of the Conservatives at the last Assembly elections. Looking at the papers on the history of mental health services, it is clear that this area has been a concern to Members across the Chamber, and the degree of improvement required was identified last week in the debate that we had on the Health, Wellbeing and Local Government Committee report into community mental health. It is important, as the Minister said, to remember that this draft Order does no more than transfer power to this Assembly; it will be the Measures that flow from that transfer of power that we will ultimately be judged on, and it is the Measures that will bring about the service improvement we want and grant people rights under law.

**Andrew R.T. Davies:** Hoffwn ymuno ag eraill i longyfarch Jonathan. Gwn yn iawn am yr holl waith y mae wedi'i wneud, ynghyd â swyddogion y Cynulliad, i hyrwyddo'r cais hwn, ac yn benodol i weithio ar y cyd â'r Gweinidog i ddatganoli cymhwysedd yn y maes hwn, a oedd yn un o ymrwymiadau manifesto'r Ceidwadwyr adeg etholiadau diwethaf y Cynulliad. O edrych ar y papurau ar hanes gwasanaethau iechyd meddwl, mae'n amlwg fod Aelodau ar draws y Siambwr wedi bod yn pryderu am y maes hwn, a nodwyd maint y gwelliant sy'n ofynnol yr wythnos diwethaf yn y ddadl a gawsom ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ynghylch iechyd meddwl cymunedol. Mae'n bwysig cofio, fel y dywedodd y Gweinidog, nad yw'r Gorchymyn drafft hwn yn gwneud dim mwy na throsglwyddo pŵer i'r Cynulliad hwn; cawn ein barnu yn y pen draw ar sail y Mesurau a ddeillia o drosglwyddo'r pŵer hwnnw, a'r Mesurau a fydd yn esgor ar y gwelliant a ddymunwn mewn gwasanaethau ac yn rhoi hawliau i bobl dan y gyfraith.

2.50 p.m.

As someone who believes passionately in small government, I always ask, when we are looking at new legislation, whether it is needed. I am one of the newer Members here, but it is my belief that there is a categorical need for legislation to improve the mental health services that users require, and to protect those users to ensure that they can seek the assessments, the treatment and, above all, the advocacy so that they can feel confident that the care is centred on them, rather than on the institution that is delivering their care. Jonathan summed that up, in opening the debate this afternoon, when he spoke about the three fields that have had particular attention given to them.

Fel un sy'n credu'n gryf mewn llywodraeth fach, gofynnaf bob amser, pan fyddwn yn edrych ar ddeddfwriaeth newydd, a oes ei hangen. Yr wyf yn un o'r aelodau mwy newydd sydd yma, ond credaf fod angen pendant am ddeddfwriaeth i wella'r gwasanaethau iechyd meddwl y mae eu hangen ar ddefnyddwyr, ac i ddiogelu'r defnyddwyr hynny er mwyn sicrhau y gallant ofyn am yr asesiad, y driniaeth, ac yn anad dim yr eiriolaeth, fel y gallant deimlo'n hyderus fod y gofal yn canolbwytio arnynt hwy, yn hytrach nag ar y sefydliad sy'n darparu eu gofal. Llwyddodd Jonathan i grynhoi hynny, wrth agor y ddadl y prynhawn yma, pan siaradodd am y tri maes

y rhoddwyd sylw penodol iddynt.

I also note the Minister's announcement that she has allocated £1 million for a Measure for mental health. I am fully aware that the Minister does not want to prejudge the outcome of this debate or any deliberations elsewhere, but it is to be hoped that we are now in the final stretch, to get over that gain line and to bring the competence to this institution. Having heard the rhetoric of the First Minister when he addressed the Government's legislation programme and identified, as a key requisite, the ability to bring a Measure to fruition, it is pleasing to know that there is now finance within the Minister's budget to ensure the implementation of that Measure when it comes forward.

Last week's debate on mental health highlighted that there are themes that desperately need to be addressed. We received evidence on the national service framework, which is the document, or the blueprint, according to which services are delivered. There were clear flaws in that national service framework, and the Measure that flows from this legislative competence will hopefully ensure that such anomalies do not happen again, and will give users recourse to law and the ability to ensure that their rights are protected. That must be a move in the right direction that we can all subscribe to.

I commend Jonathan for his actions in bringing this legislation to Plenary. I look forward to engaging with the Government in bringing forward the Measure that will be debated and scrutinised in committee, so that we can see genuine improvement in the field of mental health in Wales.

**Val Lloyd:** People with mental ill health are by definition extremely vulnerable, and so it is important that treatment and services provided to them are appropriate. Recent debates in this Chamber have shown that we are still some way from achieving a tailor-made approach that meets the complex and different needs of each patient. I am hopeful that the Measure subsequent to this draft

Sylwaf hefyd ar gyhoeddiad y Gweinidog, sef ei bod wedi dyrannu £1 filiwn ar gyfer Mesur yng hylch iechyd meddwl. Yr wyf yn hollol ymwybodol nad yw'r Gweinidog am ragfarnu canlyniad y ddadl hon neu unrhyw drafodaethau mewn man arall, ond gobeithio ein bod yn dod at y llinell derfyn erbyn hyn, er mwyn mynd dros y llinell fantais honno a dod â'r cymhwysedd dan sylw i'r sefydliad hwn. Ar ôl clywed rhethreg y Prif Weinidog pan roddodd sylw i raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth, a nodi bod y gallu i ddod â Mesur i'w derfyn yn ofyniad allweddol, mae'n braf gwybod bod arian yng nghyllideb y Gweinidog erbyn hyn i sicrhau gweithredu'r Mesur hwnnw pan gaiff ei gyflwyno.

Yr oedd dadl yr wythnos diwethaf ar iechyd meddwl yn tynnu sylw at y ffaith fod angen dybryd am fynd i'r afael â rhai themâu. Cawsom dystiolaeth am y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol, sef y ddogfen neu'r cynllun a fydd yn sail ar gyfer darparu gwasanaethau. Yr oedd gwendidau amlwg yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol hwnnw, a gobeithio y bydd y Mesur a ddaw o'r cymhwysedd deddfwriaethol hwn yn sicrhau na fydd anghysonderau o'r fath yn digwydd eto, ac y bydd yn galluogi defnyddwyr i droi at y gyfraith ac yn sicrhau diogelu eu hawliau. Rhaid bod hynny'n gam i'r cyfeiriad cywir y gallwn i gyd ei gefnogi.

Yr wyf yn canmol Jonathan am y camau y mae wedi'u cymryd i gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon i'r Cyfarfod Llawn. Edrychaf ymlaen at ymwneud â'r Llywodraeth wrth gyflwyno'r Mesur y bydd y pwylgor yn cael dadl arno ac yn craffu arno, fel y gallwn weld gwelliant gwirioneddol ym maes iechyd meddwl yng Nghymru.

**Val Lloyd:** Mae pobl sydd ag afiechyd meddwl, drwy ddiffiniad, yn eithriadol o agored i niwed, ac y mae'n bwysig, felly, i'r driniaeth a'r gwasanaethau a ddarperir iddynt fod yn briodol. Mae dadleuon yn ddiweddar yn y Siambra hon wedi dangos ein bod yn dal ymhell o gael dull gweithredu wedi'i deilwra sy'n diwallu anghenion cymhleth a gwahanol pob claf. Yr wyf yn obeithiol y bydd y Mesur

legislative competence Order will address that.

I have followed the debate on the need for independent advocacy for patients, and the imperative need to move away from compulsory treatment, wherever and whenever possible, for quite some time. I thoroughly welcome Jonathan's proposals to address these issues in his original proposed Order. As a member of the legislative committee that scrutinised his first proposals, I am pleased that the revised version that we have before us today has taken into account the recommendations made by that committee. The draft LCO has been amended significantly in a way that reflects the committee's wish for broad drafting, which Jonathan referred to in his opening remarks. This will allow for greater flexibility in relation to subsequent Measures.

The committee recommended that local authorities should be brought into the scope of the legislation, and the insertion of a new matter relating to social care services connected to mental health achieves that. For people experiencing mental ill health, services provided by local authorities may be just as important, if not more important, to their recovery than those provided by health services. They are certainly complementary to those provided by healthcare systems, and, together, the joint services will be of added benefit to users.

Another important change in the draft LCO allows any duty of assessment to apply to those without a diagnosed mental illness, as well as those who have such a diagnosis. This is an important step to ensuring that people are able to receive the help that they need when they first become unwell. We too often hear of people having to wait until they are ill enough to receive support, and of the disastrous consequences resulting from that. I am also pleased that the legislation, as redrafted, clarifies the position in relation to independent mental health advocacy, including for those subject to compulsion

a fydd yn dilyn y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft hwn yn mynd i'r afael â hynny.

Yr wyf wedi dilyn y ddadl ar yr angen am eiriolaeth annibynnol i gleifion, a'r angen hanfodol i symud oddi wrth driniaeth orfodol ble bynnag a phryd bynnag y bydd hynny'n bosibl, ers cryn amser. Yr wyf yn croesawu'n fawr gynigion Jonathan i fynd i'r afael â'r materion hyn yn ei Orchymyn arfaethedig gwreiddiol. Fel aelod o'r pwylgor deddfwriaethol a graffodd ar ei gynigion cyntaf, yr wyf yn falch fod y fersiwn diwygiedig sydd ger ein bron heddiw wedi ystyried yr argymhellion a wnaed gan y pwylgor hwnnw. Mae'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft wedi'i ddiwygio'n sylweddol mewn modd sy'n adlewyrchu dymuniad y pwylgor am ddrafftio bras, fel y cyfeiriodd Jonathan ato yn ei sylwadau agoriadol. Bydd hynny'n caniatáu mwy o hyblygrwydd yng nghyswllt Mesurau a fydd yn dilyn.

Argymhellodd y pwylgor y dylid cynnwys awdurdodau lleol yng nghwmpas y ddeddfwriaeth, ac y mae cynnwys mater newydd yn ymwneud â gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl yn cyflawni hynny. I bobl sydd ag afiechyd meddwl, gallai'r gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol fod lawn mor bwysig, os nad yn bwysicach i'w hadferiad iechyd na'r rheini a ddarperir gan wasanaethau iechyd. Maent yn bendant yn ategu'r gwasanaethau a ddarperir gan systemau gofal iechyd, a chyda'i gilydd bydd y gwasanaethau a ddarperir ar y cyd o fudd ychwanegol i ddefnyddwyr.

Mae newid pwysig arall yn y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft yn caniatáu i unrhyw ddyletswydd asesu fod yn berthnasol i'r rheini sydd heb gael diagnosis fod ganddynt salwch meddwl, yn ogystal â'r rheini sydd wedi cael diagnosis o'r fath. Mae hwn yn gam pwysig i sicrhau y gall pobl gael yr help y mae arnynt ei angen pan fyddant yn mynd yn sâl yn y lle cyntaf. Yn rhy aml, clywn am bobl yn gorfol aros nes y byddant yn ddigon sâl i gael cymorth, ac am y canlyniadau trychinebus sy'n deillio o hynny. Yr wyf hefyd yn falch fod y ddeddfwriaeth, fel y mae wedi'i hailddrafftio, yn egluro'r

under the 1983 Act, and it allows for flexibility to update and improve the scheme over time.

Throughout the recent discussions surrounding this draft Order, the principle of granting legislative competence in relation to the assessment of mental health and treatment of mental disorder has been agreed, and I hope that we can move forward to implement solutions for people affected by such ill health. Together with the move towards a recovery model, legislation will allow to deliver individual, innovative services for patients across Wales.

**Peter Black:** I also welcome the return of this draft legislative competence Order to Plenary and I congratulate Jonathan Morgan on successfully navigating it to this stage. I think that Jonathan used the metaphor of a sheep wandering through a minefield, and I suspect that quite a bit of wool was singed on the way. I also get the impression that for a Member to take a LCO to this stage, it requires having the Minister in front of them with a metal detector to make sure that it actually gets there. In a sense, that is unfortunate because it underlines one of the weaknesses of the LCO procedure. Members need to have the active support of Ministers if they are to make any progress, irrespective of the merits of the LCO. I know that this is also the case with Measures, but it does seem that we have spent two years, effectively, getting to this point. We have had what seem to be quite protracted negotiations on the contents and breadth of the draft LCO, and in relation to what we can and cannot legislate on. Although that has produced an outcome that is broadly acceptable, I will only be fully satisfied that it is acceptable when we see what we can produce by way of Measures and advocacy.

We are also put in the situation of effectively negotiating future Measures with the Welsh

sefyllfa yng nghyswllt eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol, gan gynnwys ar gyfer pobl y gellir eu gorfodi dan Ddeddf 1983, ac y mae'n caniatáu hyblygrwydd i ddiweddarau'r cynllun a'i wella dros amser.

Drwy gydol y trafodaethau'n ddiweddar ynghylch y Gorchymyn drafft hwn, cytunwyd ar yr egwyddor o roi cymhwysedd deddfwriaethol yng nghyswllt asesu iechyd meddwl a thrin anhylder meddwl, a gobeithio y gallwn symud ymlaen i weithredu atebion ar gyfer pobl y mae afiechyd o'r fath yn effeithio arnynt. Ynghyd â'r symudiad tuag at fodel gwella, bydd deddfwriaeth yn ein galluogi i ddarparu gwasanaethau unigol, arloesol i gleifion ledled Cymru.

**Peter Black:** Yr wyf fi hefyd yn croesawu gweld y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft hwn yn ôl yn y Cyfarfod Llawn, a hoffwn longyfarch Jonathan Morgan ar ei lywio'n llwyddiannus i'r cam hwn. Credaf fod Jonathan wedi defnyddio trosiad dafad yn crwydro dros faes ffrwydron, ac yr wyf yn amau bod tipyn o wlân wedi'i losgi ar hyd y ffordd. Yn ogystal, er mwyn i Aelod lywio Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol i'r cam hwn, caf yr argraff fod angen iddo gael Gweinidog o'i flaen sydd â synhwyrydd metel i wneud yn siŵr ei fod yn cyrraedd pen y daith. Ar un ystyr, mae hynny'n anffodus oherwydd mae'n tanlinellu un o wendidau'r weithdrefn Gorchymion cymhwysedd deddfwriaethol. Mae angen i'r Aelodau gael cefnogaeth weithredol Gweinidogion i wneud unrhyw gynnydd, ni waeth beth fo rhinweddau'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol dan sylw. Gwn fod hynny'n wir hefyd yn achos Mesurau, ond ymddengys ein bod wedi cymryd dwy flynedd i gyrraedd y pwynt hwn i bob pwrrpas. Cawsom drafodaethau sy'n ymddangos yn eithaf maith am gynnwys ac ehanger y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft, ac am yr hyn y gallwn ac na allwn ddeddfu yn ei gylch. Er bod y broses wedi esgor ar ganlyniad sy'n dderbyniol yn gyffredinol, ni fyddaf yn hollol fodlon ei fod yn dderbyniol nes y gwelwn beth y gallwn ei lunio o ran Mesurau ac eiriolaeth.

Cawn ein rhoi mewn sefyllfa hefyd lle'r ydym i bob pwrrpas yn trafod Mesurau'r

Affairs Committee and with Whitehall in order to get to this point. I do not necessarily share Jonathan's optimism about the LCO process or even his acceptance that it does have merits. It seems that it has merely delayed what should be a natural area of competence for this Assembly to legislate on. I say that not to undermine the achievements of Jonathan or the Minister in any way in getting us this far, but as a general comment on the LCO process as it currently stands.

The Health, Wellbeing and Local Government Committee has just completed a review of mental health services and produced a thorough report, not all of which will need legislation, but there are areas, as identified by a number of outside organisations, where legislation is required and where I hope that Measures will be forthcoming as soon as possible. Like other Members, I look forward to seeing those Measures coming forward as quickly as possible. I know that Jonathan will first be afforded the opportunity to bring a Measure forward as part of the process of Member proposed legislation, and he will no doubt be working with the Minister on that. However, I feel that we need to get on with this, now that we have the competence, and I just hope that the draft LCO itself proves broad enough to deliver everything that we need as regards mental health services to deliver the agenda that the Assembly Government and members of all parties in the Chamber want to see brought into effect.

In conclusion, I congratulate Jonathan, and I am pleased that we have reached this stage, but it just seems that we have spent two years negotiating to get to this stage when we could have been getting on with it.

**Helen Mary Jones:** Like others, I begin by congratulating Jonathan Morgan, both on having chosen this important topic for a competence Order in the first place, and on having driven it through at last. I was also successful in the ballot to bring forward a Member proposed legislative competence

dyfodol gyda'r Pwyllgor Materion Cymreig a Whitehall er mwyn cyrraedd y pwynt hwn. Nid wyf o reidrwydd mor obeithiol â Jonathan am y broses Gorchymynion cymhwysedd deddfwriaethol, na hyd yn oed ei fod yn derbyn bod i'r broses rai rhinweddau. Ymddengys nad yw ond wedi peri oedi'r hyn a ddylai fod yn faes cymhwysedd naturiol i'r Cynulliad hwn ddeddfu yn ei gylch. Nid wyf yn dweud hynny er mwyn tanseilio cyflawniadau Jonathan neu'r Gweinidog o gwbl wrth ddod â ni i'r pwynt hwn, ond fel sylw cyffredinol am y broses Gorchymynion cymhwysedd deddfwriaethol fel y mae ar hyn o bryd.

Mae'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol newydd lunio adroddiad trylwyr ar ôl cwblhau adolygiad o wasanaethau iechyd meddwl. Ni fydd angen deddfwriaeth ar y cyfan, ond mae yna feisydd, a nodwyd gan nifer o sefydliadau allanol, lle bydd angen deddfwriaeth a lle gobeithiaf y bydd Mesurau'n dod i'r amlwg cyn gynted ag sy'n bosibl. Fel Aelodau eraill, edrychaf ymlaen at weld cyflwyno'r Mesurau hynny mor fuan ag y bo modd. Gwn y bydd Jonathan yn cael cyfle ar y cychwyn i gyflwyno Mesur fel rhan o broses deddfwriaeth arfaethedig Aelod, ac nid oes amheuaeth na fydd yn gweithio gyda'r Gweinidog ar hynny. Fodd bynnag, teimlaf fod angen inni fwrw ymlaen â hyn gan fod gennym y cymhwysedd yn awr, a gobeithio y bydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft ei hun yn ddigon eang i ddarparu popeth y mae arnom ei angen o ran gwasanaethau iechyd meddwl er mwyn gwreddu'r agenda y mae Llywodraeth y Cynulliad ac aelodau pob plaid yn y Siambr am ei gweld yn dod i rym.

I gloi, hoffwn longyfarch Jonathan. Yr wyf yn falch ein bod wedi cyrraedd y cam hwn, ond ymddengys ein bod wedi treulio dwy flynedd yn trafod er mwyn cyrraedd y cam hwn, pan allem fod wedi bwrw ymlaen â chamau gweithredu.

**Helen Mary Jones:** Fel siaradwyr eraill, dechreuaf drwy longyfarch Jonathan Morgan am ddewis y pwnc pwysig hwn ar gyfer Gorchymyn cymhwysedd yn y lle cyntaf, ac am fod wedi ei yrru drwedd o'r diwedd. Bûm i hefyd yn llwyddiannus yn y balot i gyflwyno Gorchymyn cymhwysedd

Order—Members will recall my LCO on carers' rights. I thought that it was like birthday and Christmas coming together at once when the Deputy Minister, Gwenda Thomas, agreed to take over the competence Order, to broaden it and run with it. I could see that it was going to be quite a challenging process even with full Government support, which my competence Order, like Jonathan's, did have.

I am glad that this competence Order has had such broad support from everyone in this Chamber, and, very importantly, from those outside—from mental health patients and those who work with and for them. This reflects a distinctive approach in Wales where we talk about the rights of patients to be treated, and not perhaps the more punitive and compulsory treatment approach that we have seen elsewhere.

3.00 p.m.

I do not want to speak at length today because, as the Minister has rightly said, the real debate for us now is what will go into the Measures, and how swiftly they can be driven forward. The Minister is right in saying that this is not the time to talk about the detail of those Measures, but I trust that they will focus on the need to protect the rights of those who are most ill and most vulnerable to coercion in the first instance. We may later want to broaden those rights, but I—and us all in the Chamber, I am sure—want to see that group of potential patients being protected first before we move on, as Val Lloyd has said.

You would be surprised, Deputy Presiding Officer, if I were to end my brief contribution to this debate without saying something about the process. I feel that I must point out that these rights would almost certainly be in place in Wales today had we had the power for Jonathan to bring forward a Member proposed Measure rather than a Member

deddfwriaethol arfaethedig Aelod—bydd Aelodau'n cofio fy Ngorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch hawliau gofalwyr. Pan gytunodd y Dirprwy Weinidog, Gwenda Thomas, i gymryd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drosodd, i'w ehangu a'i fabwysiadu, teimlwn ei bod yn ben-blwydd ac yn Nadolig arnaf yr un pryd. Gallwn weld y byddai'r broses yn eithaf heriol, hyd yn oed gyda'r gefnogaeth lawn a gafodd fy Ngorchymyn cymhwysedd innau, fel y cafodd un Jonathan, gan y Llywodraeth.

Yr wyf yn falch fod y Gorchymyn cymhwysedd hwn wedi cael cefnogaeth mor eang gan bawb yn y Siambwr hon, a chan bobl y tu allan—cleifion iechyd meddwl a'r sawl sy'n gweithio gyda hwy ac iddynt—sy'n bwysig iawn. Mae hynny'n adlewyrchu dull gweithredu neilltuol yng Nghymru, lle'r ydym yn siarad am hawliau cleifion i gael triniaeth, yn hytrach na'r dull gweithredu yr ydym wedi'i weld mewn mannau eraill, yn seiliedig i raddau mwy helaeth ar gosb a gorfodaeth efallai.

Nid wyf am siarad yn hir heddiw oherwydd, fel y dywedodd y Gweinidog yn holol iawn, y ddadl wirioneddol inni'n awr fydd yr hyn a gaiff ei gynnwys yn y Mesurau, a pha mor gyflym y gellir gyrru'r Mesurau yn eu blaen. Mae'r Gweinidog yn iawn i ddweud nad heddiw yw'r amser i siarad am fanylion y Mesurau hynny, ond hyderaf y byddant yn canolbwytio ar yr angen i ddiogelu hawliau'r bobl fwyaf sâl ac sydd fwyaf agored i orfodaeth yn y lle cyntaf. Efallai y byddwn am ehangu'r hawliau hynny'n nes ymlaen, ond yr wyf fi—a phob un ohonom yn y Siambwr, yr wyf yn siŵr—am weld y grŵp hwnnw o gleifion posibl yn cael ei ddiogelu'n gyntaf cyn inni symud ymlaen, fel y dywedodd Val Lloyd.

Byddech yn synnu, Ddirprwy Lywydd, pe bawn yn dod â'm cyfraniad byr i'r ddadl hon i ben heb ddweud rhywbeth am y broses. Teimlaf ei bod yn rhaid imi nodi y byddai'r hawliau hyn bron yn bendant ar waith yng Nghymru heddiw pe buasai gennym y pŵer i Jonathan gyflwyno Mesur arfaethedig Aelod yn hytrach na Gorchymyn cymhwysedd

proposed legislative competence Order. Jonathan Morgan, with the Minister's support, has demonstrated that this system can be made to work—after a fashion. However, I submit that it raises the question of why he had to go through this process for us to get to legislate in fully devolved areas. That said, this is a good day for mental health patients in Wales. I trust that members of the Westminster Parliament will now put their shoulder to the wheel to get the competence process over and done with as soon as possible, so that we can begin to legislate to support some of the most vulnerable citizens in our nation. I therefore commend this draft legislative competence Order to the Chamber.

**Jenny Randerson:** I strongly welcome this draft LCO, and I congratulate Jonathan on choosing this topic for it. However, I am moved to speak by my frustration, which is shared, I notice, by a number of Members across the Chamber. When thinking about what to say, I delved back in my memory, and then thought that I could give one or two people some of the historical background—and the emphasis is on the word historical.

Do you remember back in the early days, when Edwina Hart first became Minister for health? At that time, new legislation had been proposed, which was to affect mental health services in England and Wales. Unfortunately, we missed the opportunity to have framework powers from that. At the time, the issue was brought to the attention of the Minister but, essentially, it was too late. There was cross-party agreement developing that we needed to do something different in Wales, and that the England-and-Wales legislation did not suit us. The first possible opportunity to do something about it was taken by Jonathan Morgan, early in the autumn of 2007, when he won the ballot. More than two years on, we are not much further forward. As Jonathan says, this version may now be better than the proposal that he first put forward but our time here—and there are only 60 of us to do this vital job—would have been much better spent on improving the Measures that flowed from our

deddfwriaethol arfaethedig Aelod. Mae Jonathan Morgan, gyda chymorth y Gweinidog, wedi dangos y gellir gwneud i'r system hon weithio—i ryw raddau. Fodd bynnag, awgrymaf y dylid holi pam y bu'n rhaid iddo fynd drwy'r broses hon er mwyn inni gael deddfu mewn meysydd sydd wedi'u datganoli'n llawn. Wedi dweud hynny, mae hwn yn ddiwrnod da i gleifion iechyd meddwl yng Nghymru. Hyderaf y bydd Aelodau Seneddol yn San Steffan yn torchi eu llewys yn awr i gwblhau'r broses cymhwysedd cyn gynted ag y bo modd, fel y gallwn ddechrau deddfu i gynorthwyo rhai o'r dinasyddion mwyaf agored i niwed yn ein cenedl. Yr wyf, felly, yn cymeradwyo'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft hwn i'r Siambr.

**Jenny Randerson:** Yr wyf yn croesawu'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft hwn yn gynnes iawn, ac yn llonyfarch Jonathan ar ddewis y pwnc hwn ar ei gyfer. Fodd bynnag, caf fy nghymhell i siarad oherwydd fy rhwystredigaeth, fel sy'n wir, sylwaf, am nifer o Aelodau ar draws y Siambr. Wrth feddwl beth i'w ddweud, euthum i dwrio yn fy nghof a meddwl y gallwn roi rhywfaint o'r cefndir hanesyddol i un neu ddau o bobl—â'r pwyslais ar y gair hanesyddol.

A ydych yn cofio'r dyddiau cynnar, pan ddaeth Edwina Hart yn Weinidog dros iechyd am y tro cyntaf? Ar y pryd, yr oedd deddfwriaeth newydd wedi'i chynnig, a oedd i fod i effeithio ar wasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru a Lloegr. Yn anffodus, collasom gyfle i gael pwerau fframwaith yn sgil hynny. Ar y pryd, tynnwyd sylw'r Gweinidog at y mater, ond yn rhy hwyr i bob pwrras. Yr oedd cytundeb trawsbleidiol yn datblygu fod angen inni wneud rhywbeth gwahanol yng Nghymru, ac nad oedd y ddeddfwriaeth ar gyfer Cymru a Lloegr yn addas i ni. Cymerwyd y cyfle cyntaf posibl i wneud rhywbeth ynghylch hynny gan Jonathan Morgan, ddechrau hydref 2007, pan enillodd y balot. Dros ddwy flynedd yn ddiweddarach, nid ydym lawer ymhellach ymlaen. Fel y dywed Jonathan, efallai fod y fersiwn hwn yn well yn awr na'r cynnig a gyflwynwyd ganddo gyntaf, ond byddai wedi bod yn well inni dreulio ein hamser yma—60 yn unig ohonom sydd yma i wneud y gwaith

natural powers than on applying for permission from Parliament. This draft LCO has cross-party support and has the support of the Minister. However, as Helen Mary Jones has just said, the delay means that service users in Wales will not get the service that we envisaged for them three years ago for at least another two years, because you have to allow time to pass Measures and to get the new services in place. The system is a disgrace, not because we find it frustrating but because it lets the people of Wales down time and again.

hanfodol hwn—yn gwella'r Mesurau a ddeilliodd o'n pwerau naturiol, yn hytrach na gwneud cais am ganiatâd gan Senedd y DU. Mae'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft hwn wedi cael cefnogaeth ar draws y pleidiau a chan y Gweinidog. Fodd bynnag, fel y mae Helen Mary Jones newydd ei ddweud, golyga'r oedi na fydd defnyddwyr gwasanaethau yng Nghymru yn cael y gwasanaeth a ragwelwyd gennym ar eu cyfer, dair blynedd yn ôl, am o leiaf ddwy flynedd arall, oherwydd rhaid caniatáu amser i basio Mesurau a chyflwyno gwasanaethau newydd. Mae'r system yn warthus, nid am ei bod yn peri rhwystredigaeth inni, ond am ei bod yn methu dro ar ôl tro â diwallu anghenion pobl Cymru.

**The Deputy Presiding Officer:** I call on the Member in charge of the legislation to reply to the debate.

**Jonathan Morgan:** I start by thanking all Members who have spoken in this debate this afternoon for their supportive comments on what the draft Order seeks to achieve. All Members have demonstrated their deeply held belief that the powers in this field ought to rest with the Assembly. I have always found it rather strange that, under the settlement, quite considerable powers were devolved to us in the field of physical health but, for whatever reasons, the legislative competence for the field of mental health was retained by Westminster. That might have something to do with the interaction between the Mental Health Act 1983 and the criminal justice system, but we are finding a way around that with the draft Order before us today.

Some Members have talked about the level of co-operation between me, as a backbench opposition Member, and the Minister for Health and Social Services. Backbench opposition proposals will never go anywhere unless they have the support of the Government and of Government Ministers. The same is true of Parliament if you are a backbench Member of the House of Commons. Private Members' Bills in the House of Commons go nowhere unless the Government supports them, so that is not

**Y Dirprwy Lywydd:** Galwaf ar yr Aelod sydd â gofal am y ddeddfwriaeth i ymateb i'r ddadl.

**Jonathan Morgan:** Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i bob Aelod sydd wedi siarad yn y ddadl hon y prynhawn yma am eu sylwadau cefnogol ar yr hyn y mae'r Gorchymyn drafft yn ceisio'i gyflawni. Mae'r holl Aelodau wedi dangos eu bod yn credu'n wirioneddol y dylai pwerau yn y maes hwn fod yn nwylo'r Cynulliad. Yr wyf bob amser wedi teimlo'i bod braidd yn rhyfedd fod pwerau digon sylweddol wedi eu datganoli inni ym maes iechyd corfforol, dan y setliad, ond bod y cymhwysedd deddfwriaethol ym maes iechyd meddwl yn cael ei gadw gan San Steffan am ba reswm bynnag. Efallai fod a wnelo hynny â'r rhwngweithio rhwng Deddf Iechyd Meddwl 1983 a'r system cyfiawnder troseddol, ond yr ydym yn dod o hyd i ffordd o amgylch hynny gyda'r Gorchymyn drafft sydd ger ein bron heddiw.

Mae rhai Aelodau wedi sôn am lefel y cydweithredu rhwngof fi, fel Aelod o feinciau cefn yr wrtblaid, a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Ni fydd cynigion o feinciau cefn yr wrtblaid byth yn llwyddo oni bai eu bod yn cael cefnogaeth y Llywodraeth a Gweinidogion y Llywodraeth. Mae'r un peth yn wir am Senedd y DU os ydych yn Aelod o'r meinciau cefn yn Nhŷ'r Cyffredin. Ni fydd Mesurau Aelodau Preifat yn Nhŷ'r Cyffredin yn llwyddo oni bai bod y Llywodraeth yn eu cefnogi, ac felly nid yw

unusual in itself.

I want to say something about the process before I conclude this debate. It has been a long process, but it was at the beginning of this year that the proposed LCO was finally agreed between me and the Minister and was then sent down the M4 to Whitehall to start the process of formal Whitehall clearance. Therefore, if we discount the fact that I won the ballot in October 2007, we see that it was in this year that the cogs really started turning at a greater speed than previously.

It is a different process when a Member wins the ballot, as they do not have a proposed Order ready to go before them. No Whitehall clearance has been sought, no official notes have been taken, and no advice has been given to Ministers. However, when the Government introduces legislation, Whitehall clearance has already been given, the conversations between departments at London have been had, the Cabinet committee on legislation has already given its approval, and the Attorney-General has already said 'yes'. It is very different for a backbench Member who starts from the point of just the principle of introducing a proposal. That is why it takes longer. It is not ideal and that is the system that we are lumbered with at the moment. However, I am just pleased that we have now reached this point at least within the first couple of years of this third Assembly. I believe that this debate has shown a sense of unity and purpose, and all those who have spoken this afternoon have demonstrated why it is important that these powers be devolved to Wales.

Personally, this has become something of a crusade. Having worked for many years with stakeholder organisations involved in caring and supporting people who have mental illnesses, I have come to see why reforming mental health services in Wales is so important. The evidence given to the committees, to which David Melding referred, looked at a range of issues from the clinical perspectives of mental health treatment, through organisations like the

hynny ynddo'i hun yn anarferol.

Yr wyf am ddweud rhywbeth am y broses cyn cloi'r ddadl hon. Bu'n broses hir, ond ddechrau'r flwyddyn y cytunwyd yn derfynol ar y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig rhngof fi a'r Gweinidog, ac y cafodd ei anfon i lawr yr M4 i Whitehall i ddechrau'r broses o'i gymeradwyo'n ffurfiol yno. Felly, os anwybyddwn y ffaith fy mod wedi ennill y balot ym mis Hydref 2007, gwelwn mai eleni y dechreuodd yr olwynion droi'n gyflymach nag o'r blaen mewn gwirionedd.

Mae'n broses wahanol pan fydd Aelod yn ennill y balot, gan nad oes ganddo Orchymyn arfaethedig o'i flaen sy'n barod i fynd. Ni fydd San Steffan wedi cael cais i gymeradwyo dim, ni fydd nodiadau swyddogol wedi'u cymryd, ac ni fydd cyngor wedi'i roi i Weinidogion. Fodd bynnag, pan fydd y Llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth, mae'r gwaith cymeradwyo yn Whitehall eisoes wedi digwydd, mae'r sgyrsiau rhwng adrannau yn Llundain wedi cael eu cynnal, mae pwylgor y Cabinet ar ddeddfwriaeth eisoes wedi rhoi ei gymeradwyaeth, a'r Twrnai Cyffredinol eisoes wedi dweud 'iawn'. Mae'n wahanol iawn i Aelod o'r meinciau cefn sy'n dechrau o bwynt yr egwyddor o gyflwyno cynnig. Dyna pam mae'n cymryd yn hwy. Nid yw'n ddelfrydol, ond dyna'r system drws gl sydd gennym ar hyn o bryd. Yn sym, fodd bynnag, yr wyf yn falch ein bod wedi cyrraedd y pwyt hwn o leiaf yn ystod ychydig flynyddoedd cyntaf y trydydd Cynulliad. Credaf fod y ddadl hon wedi dangos ymdeimlad o undod a phwrpas, ac y mae pawb sydd wedi siarad y prynhawn yma wedi dangos pam mae'n bwysig i'r pwerau hyn gael eu datganoli i Gymru.

Ar lefel bersonol, mae hwn wedi bod yn dipyn o grwsâd. Ar ôl gweithio am flynyddoedd lawer gyda sefydliadau rhanddeiliaid sy'n ymwneud â gofalu am bobl ag anhwylderau meddwl a'u cynorthwyo, yr wyf wedi dod i sylweddoli pam mae diwygio gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru mor bwysig. Yr oedd y dystiolaeth a roddwyd i'r pwylgorau, fel y cyfeiriodd David Melding, yn ystyried ystod o faterion, o agweddau clinigol ar driniaeth

Royal College of Physicians and the Royal College of Nursing, to the social and criminal perspectives of dealing with people who have mental health disorders through organisations such as the Police Federation of England and Wales and the Law Society. They were all clear that there were glaring gaps in the system and that we needed to resolve the position in Wales where those gaps existed and where they were detrimental to those who have mental disorders. For me, the most compelling piece of evidence for why reform is so long overdue came from a service user from Hafal, Lee McCabe. He has given evidence to committee on a number of occasions. This is what he said in evidence to the Welsh Affairs Select Committee in July.

‘From my time of being admitted into hospital, me and my family did not have any support when I was released a few weeks later and discharged. Neither me nor my family got any information on what I was diagnosed with, the medications I was taking, nothing at all. This resulted in a few weeks after being discharged I had a relapse and ended up going into the psychiatric ward where I ended up six months on the ward. I ended up being sectioned where I was getting frustrated with my condition. Most importantly, it resulted in the long-term where I tried to commit suicide four times, four attempts. I was very fortunate then to have a CPN (Community Psychiatric Nurse) who finally helped me and my family with information and support on the services that were available and helped me to learn to cope.’

3.10 p.m.

What changed for Lee was that he had a CPN who carried out an assessment, who wrote a quality treatment and care plan, and who ensured that it could be delivered. Someone should not need to be lucky to get the right professional to help them; they should have that right through a duty to provide assessment and advocacy. In that way, people will not end up in higher levels of care and losing their employment simply because there is no duty on our mental health services

iechyd meddwl, drwy sefydliadau megis Coleg Brenhinol y Ffisiau a'r Coleg Nysio Brenhinol, i agweddau cymdeithasol a throeddol ymdrin â phobl ag anhwylderau meddwl, drwy sefydliadau megis Ffederasiwn Heddluoedd Cymru a Lloegr a Chymdeithas y Cyfreithwyr. Yr oedd pob un ohonynt yn holol glir fod yna fylchau amlwg yn y system, a bod angen inni ddatrys y sefyllfa yng Nghymru lle'r oedd y bylchau hynny'n bodoli a lle'r oeddent yn andwyol i bobl sydd ag anhwylderau meddwl. I mi, cafwyd y darn mwyaf grymus o dystiolaeth, sy'n dangos pam mae'n hen bryd diwygio'r system, gan un o ddefnyddwyr gwasanaethau Hafal, Lee McCabe. Mae wedi rhoi dystiolaeth i'r pwylgor droeon. Dyma a ddywedodd mewn dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ym mis Gorffennaf.

O'r adeg pan gefais fy nerbyn i'r ysbyty, ni chefais i na'm teulu ddim cymorth pan gefais fy rhyddhau rai wythnosau'n ddiweddarach. Ni chefais i na'm teulu ddim gwybodaeth am fy niagnosis na'r feddyginaeth yr oeddwn yn ei chymryd, dim gwybodaeth o gwbl. Oherwydd hynny, rai wythnosau ar ôl cael fy rhyddhau, euthum yn sâl unwaith eto a chefais fy rhoi mewn ward seiciatrig a threulio chwe mis yno. Yn y pen draw, cefais fy nghadw dan y Ddeddf ac yr oeddwn yn teimlo'n rhwystredig ynghylch fy sefyllfa. Yn bwysicach na dim, arweiniodd hynny yn y tymor hir at sefyllfa lle ceisiais fy lladd fy hun bedair gwaith, bedair gwaith. Yr oeddwn yn ffodus iawn ar y pryd, oherwydd yr oedd gennyl nyrs seiciatrig gymunedol a'm helpodd i a'm teulu yn y pen draw drwy roi cymorth a gwybodaeth am y gwasanaethau a oedd ar gael, a'm helpu i ddysgu ymdopi.

Yr hyn a newidiodd bethau i Lee oedd y ffaith fod ganddo nyrs seiciatrig gymunedol a wnaeth asesiad, a ysgrifennodd gynllun triniaeth a gofal o safon, ac a sicrhaoedd y gallai'r cynllun hwnnw gael ei weithredu. Ni ddylai fod angen i rywun fod yn lwcus i gael y gweithiwr proffesiynol iawn i'w helpu; dylai fod ganddo ef neu hi hawl i hynny drwy ddyletswydd i ddarparu asesiad ac eiriolaeth. O sicrhau hynny, ni fydd pobl yn gorfol cael lefelau uwch o ofal a cholli eu gwaith am nad

to do what policy has already stated they should be doing. The draft LCO could be a watershed—not for devolution, but for those in Wales, such as Lee, who deserve better services that are responsive to their needs, and that offer an early assessment of those needs, individualised care and access to advocacy.

I know that we can all endorse the public service reform of mental health, and it is an area in which I know we can see the failures of the past consigned to the past. Anyone can develop a mental illness, and it is important that we tell people that. It does not matter how intelligent, fit, or wealthy you are; mental health and mental illness respect no boundaries and do not rely on a person's physical characteristics. A mental illness can happen at any time, from early childhood right through to old age.

I urge all Members to support the draft Order. In supporting it, our nation can lead the rest of the UK in pursuing this last great social reform.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

### **Dadl am Gynnig Darren Millar ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol—Cynllun Parcio Ffafriol**

#### **Debate on Darren Millar's Proposal for a Legislative Competence Order— Preferential Parking Scheme**

**Darren Millar:** I move that

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 22.50, agrees that Darren Millar may lay a proposed Order to give effect to the outline proposed Order provided on 5 June 2008 under Standing Order No. 22.48, and an explanatory memorandum. (NDM4310)*

oes dyletswydd ar ein gwasanaethau iechyd meddwl i wneud yr hyn y mae polisi eisoes wedi dweud y dylent fod yn ei gyflawni. Gallai'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft fod yn drobwynt—nid i ddatganoli, ond i bobl yng Nghymru, fel Lee, sy'n haeddu gwell gwasanaethau, sy'n ymateb i'w hanghenion ac yn cynnig asesiad cynnar o'r anghenion hynny ynghyd â gofal unigol a gallu cael eiriolaeth.

Gwn y gallwn i gyd gymeradwyo diwygio gwasanaethau cyhoeddus ym maes iechyd meddwl, ac y mae'n faes lle gwn y gallwn weld diffygion y gorffennol yn aros yn y gorffennol. Gall unrhyw un gael salwch meddwl, ac y mae'n bwysig inni ddweud hynny wrth bobl. Nid oes gwahaniaeth pa mor ddeallus, heini na chyfoethog fyddwch chi; nid yw iechyd meddwl a salwch meddwl yn parchu ffiniau nad yn dibynnu ar nodweddion corfforol unigolyn. Gall salwch meddwl daro unrhyw bryd, o blentyndod ifanc nes byddwch mewn gwth o oedran.

Anogaf bob Aelod i gefnogi'r Gorchymyn drafft. Bydd ei gefnogi'n golygu y gall ein cenedl arwain gweddill y DU wrth fynd ar drywydd y diwygiad cymdeithasol mawr olaf hwn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw ein bod yn cytuno'r cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu'r cynnig? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

**Darren Millar:** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.50, yn cytuno y caiff Darren Millar gyflwyno Gorchymyn arfaethedig i weithredu'r Gorchymyn arfaethedig amlinellol a ddarparwyd ar 5 Mehefin 2008 dan Reol Sefydlog Rhif 22.48, a memorandwm esboniadol. (NDM4310)*

I am grateful for the opportunity to debate my proposal for a preferential parking scheme. The proposal has been met with a fair amount of surprise from a number of quarters. People have asked me why, of all the subject areas that I could have chosen on which to make proposals for legislation, I decided to put this proposal forward. Surely there are more pressing problems in Wales, such as rising unemployment and the economic downturn, to name but two. Surely they should be addressed first. Why did I choose parking for pregnant mums?

The answer is simple. Those other things are more important, and the National Assembly devotes a great deal of time to debating and discussing them. It is the job of the Government and the opposition to address those issues and to bring forward proposals. However, backbench legislation gives us the opportunity to discuss and to address issues that are important but that would otherwise never see the light of day in the busy programme of the Government and opposition. This issue, while not being everyone's immediate priority, is important. That is why I am grateful for the opportunity to debate it today. I look forward to hearing the views of Members on all sides of the Assembly.

Yr oedd hefyd yn cytuno bod canolfannau cyswllt plant yn bwysig tu hwnt o ran darparu lle diogel i blant allu treulio amser gyda rhiant nad yw'n byw gyda hwy, neu dreulio amser gyda'u brodyr a'u chwiorydd. Yr oedd yr ymchwiliad yn tynnu sylw at y ffaith fod dosbarthiad canolfannau cyswllt plant ledled Cymru yn anghyson ar y gorau, a bod diffyg datblygu canolfannau cyswllt plant wedi bod ar draws y wlad. Dywedwyd wrthym bod canolfannau cyswllt plant yn ddibynnol iawn ar gyllid y trydydd sector i'w cynorthwyo a'u cynnal. Yr oedd y pryderon a oedd yn ymwneud â hynny'n cynnwys pryderon am gynaliadwyedd canolfannau cyswllt plant yn yr hirdymor, eu contractau cyllido tymor byr, a'r anghydraddoldeb parhaus ymhlieth y canolfannau y mae CAFCASS Cymru yn dewis eu hariannu. O ystyried y ddarpariaeth anghyson a'r sefyllfa gyllido ansicr, yr ydym yn argymell y dylai CAFCASS gynnig trefniadau cyllido tair blynedd ar unwaith i'r canolfannau cyswllt plant yng Nghymru y mae eisoes yn eu cyllido, ar lefel eu trefniadau cyllido presennol. Yr ydym hefyd

in Wales, including those currently not funded, on the basis of the principles outlined in our report.

I am very pleased that the Deputy Minister has unequivocally accepted all of these recommendations, particularly the first, and that as a result of the committee's recommendations, these centres, at the very least, are now able to plan ahead on the basis of relative financial stability for the next three years.

A key issue is the limited statutory powers of the Children's Commissioner for Wales to make representations about issues affecting Welsh children in non-devolved matters. He does not currently have the power to inquire into or report on any matter that is or has been subject to court proceedings, or to exercise any function that is exercisable by CAFCASS. We accept the principle that the children's commissioner should not be able to challenge decisions made by courts, and that it is for the courts to decide what weight should be given to CAFCASS Cymru reports and evidence. Nevertheless, we cannot see any fundamental reason why the commissioner should not be able to inquire into how CAFCASS carries out its work in a more general sense. Notwithstanding the existing legal constraints, we also see no reason why CAFCASS should not be open to working in partnership with the children's commissioner's office on individual cases where children have raised concerns with the commissioner. We have therefore recommended that the Welsh Government seeks to change the law to allow the children's commissioner to inquire into how CAFCASS carries out its functions.

On this point, however, the Deputy Minister's response is extremely disappointing. The committee is not looking for the commissioner to be able to inquire into the actions or decisions of the courts, as the Deputy Minister's response suggests. What we are looking for is for the children's

yn argymhell y dylai CAFCASS a Gweinidogion Cymru lunio strategaeth gyllido ar gyfer yr holl ganolfannau cyswllt plant sydd yng Nghymru, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn cael eu cyllido ar hyn o bryd, ar sail yr egwyddorion a amlinellir yn ein hadroddiad.

Yr wyf yn falch iawn fod y Dirprwy Weinidog yn ddiamod wedi derbyn yr holl argymhellion hyn, yn enwedig y cyntaf, a bod y canolfannau hyn, o ganlyniad i argymhellion y pwylgor, o leiaf yn gallu blaengynllunio ar sail sefydlogrwydd ariannol cymharol am y tair blynedd nesaf.

Mae pwerau statudol cyfyngedig Comisiynydd Plant Cymru i wneud sylwadau am broblemau sy'n effeithio ar blant Cymru mewn materion sydd heb eu datganoli yn broblem allweddol. Ar hyn o bryd, nid oes ganddo'r pŵer i ymchwilio i unrhyw fater nac adrodd ar unrhyw fater sy'n destun achos llys neu wedi bod yn destun achos llys, na'r pŵer i gyflawni unrhyw swyddogaeth y gall CAFCASS ei chyflawni. Yr ydym yn derbyn yr egwyddor na ddylai'r comisiynydd plant allu herio penderfyniadau'r llysoedd, ac mai mater i'r llysoedd yw penderfynu faint o bwys y dylid ei roi ar adroddiadau a thystiolaeth CAFCASS Cymru. Serch hynny, ni allwn weld rheswm sylfaenol pam na ddylai'r comisiynydd allu ymchwilio i'r modd y mae CAFCASS yn cyflawni ei waith yn fwy cyffredinol. Er gwaethaf y cyfyngiadau cyfreithiol presennol, ni welwn reswm ychwaith pam na ddylai CAFCASS groesawu gweithio mewn partneriaeth â swyddfa'r comisiynydd plant ar achosion unigol os yw plant wedi mynegi pryderon wrth y comisiynydd. Felly, yr ydym wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru geisio newid y gyfraith er mwyn galluogi'r comisiynydd plant i ymchwilio i'r modd y mae CAFCASS yn cyflawni ei swyddogaethau.

O ran y pwynt hwn, fodd bynnag, mae ymateb y Dirprwy Weinidog yn eithriadol o siomedig. Nid yw'r pwylgor am i'r comisiynydd allu ymchwilio i weithredoedd neu benderfyniadau'r llysoedd, fel y mae ymateb y Dirprwy Weinidog yn awgrymu. Yr hyn yr ydym am ei weld yw bod y

commissioner to be able to investigate CAFCASS itself, in cases where its actions might be questionable. I hope that the Deputy Minister will address this specific point when she speaks to us later.

We have also asked that CAFCASS agrees partnership arrangements with the children's commissioner that would allow them to work together in cases where children have raised concerns about CAFCASS directly with the commissioner. The Deputy Minister has responded more positively to that point.

On the Deputy Minister's response, and despite the rejected recommendation that I have just mentioned, she has accepted all bar one of the committee's recommendations, either wholly or in part. I welcome this generally positive response, and I look forward to her contribution today.

In closing, I would like to thank those who gave evidence to the committee, to the committee members, and to the staff who helped to produce our report.

**The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas):** I will make some opening remarks and then come back as the penultimate speaker, if that pleases you, Deputy Presiding Officer.

Hoffwn ddiolch i Darren, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol, am arwain y ddadl hon heddiw. Hoffwn ddiolch hefyd i aelodau'r pwyllgor am eu gwaith wrth lunio'r adroddiad hwn. Yn olaf, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at sesiynau casglu tystiolaeth y pwyllgor.

Mae CAFCASS Cymru wedi cyfrannu at gyfnod o newid a gwella parhaus mewn achosion cyhoeddus a phreifat yn y llysoedd teulu, dan arweinyddiaeth y Weinyddiaeth Gyflawnder a'r farnwriaeth. Mae'r gwaith craffu gan y pwyllgor wedi bod yn werthfawr tu hwnt yn ein helpu i ddal ati i ganolbwyntio ar y flauenoriaeth allweddol o ddarparu cymorth i blant a theuluoedd yn ystod cyfnod

comisiynydd plant yn gallu ymchwilio i CAFCASS ei hun, mewn achosion lle gallai fod amheuaeth am ei weithredoedd. Yr wyf yn gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog yn rhoi sylw i'r pwyt penodol hwn wrth siarad â ni yn ddiweddarach.

Yr ydym hefyd wedi gofyn i CAFCASS gytuno trefniadau partneriaeth gyda'r comisiynydd plant, a fyddai'n galluogi'r naill a'r llall i weithio gyda'i gilydd mewn achosion lle mae plant wedi sôn yn uniongyrchol wrth y comisiynydd am bryderon am CAFCASS. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi ymateb yn fwy cadarnhaol i'r pwyt hnwnw.

O ran ymateb y Dirprwy Weinidog, ac er gwaethaf yr argymhelliaid a wrthodwyd ac yr wyf newydd ei grybwyl, mae wedi derbyn holl argymhellion y pwyllgor ond un, naill ai'n llawn ynteu'n rhannol. Yr wyf yn croesawu'r ymateb hwn, sy'n gadarnhaol at ei gilydd, ac edrychaf ymlaen at ei chyfraniad heddiw.

Wrth gloi, hoffwn ddiolch i'r rheini a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor, i aelodau'r pwyllgor, ac i'r staff a fu'n helpu cynhyrchu ein hadroddiad.

**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Yr wyf am wneud rhai sylwadau agoriadol ac yna ddod yn ôl fel y siaradwr olaf ond un, os gwelwch yn dda, Ddirprwy Lywydd.

I should like to thank Darren, as Chair of the Health, Wellbeing and Local Government Committee, for leading this debate today. I should also like to thank the committee members for their work in producing this report. Finally, I should like to thank everyone who has contributed to the committee's evidence sessions.

CAFCASS Cymru has contributed to a period of change and continuous improvement in public and private cases in the family courts, under the leadership of the Ministry of Justice and the judiciary. The committee's scrutiny work has been invaluable in helping us to maintain our focus on the key priority of providing assistance to children and families during a particularly

arbennig o anodd yn eu bywydau. Mae'r adroddiad wedi rhoi adolygiad amserol o ba mor effeithiol yw CAFCASS Cymru. Mae wedi bod yn gyfaill beirniadol, ac wedi helpu i fireinio'r broses o wella'n barhaus. Mae hefyd wedi helpu i ddatblygu gwasanaeth cyhoeddus effeithiol ac effeithlon sydd wedi'i seilio ar farn y plentyn.

As the committee has heard, CAFCASS Cymru operates in a complex arena, which requires practitioners to ascertain the wishes and feelings of children, to report those faithfully to the court, and to report its professional view on the best interests of the child. Throughout this process it is crucial that children understand that, in exercising its roles and responsibilities, CAFCASS Cymru will ensure that sufficient emphasis is placed on their wishes and best interests, and it is important that the decision-making process and the outcomes of any proceedings are clearly and fully explained to them.

Demand for CAFCASS Cymru's services is increasing significantly year on year. Increasing numbers of parents are turning to legal advisers and the courts because they are unable or unwilling to reach agreement about how they can both continue to play a full and active part in their child's life. There will be occasions when it is not safe or appropriate to maintain a relationship with both parents. Private law applications rose by 36 per cent between April 2005 and March 2009. These were predominantly actions involving residence or contact. That is not supported by an equivalent rise in family breakdown. Therefore, litigation appears to have become an increasing solution of choice. However, litigation leads to antagonism, conflict and dispute, and to the consequential impact on the child. The changing patterns of family structures and the perceived pressures of social expectations upon families, and particularly young parents, need to be recognised and supported through alternative mechanisms, as part of wider packages of family support. That support should empower families to develop and exercise skills that recognise the immediate and long-term damaging effects that family breakdown can have on all those involved.

difficult time in their lives. The report has provided a timely review of the effectiveness of CAFCASS Cymru. It has been a critical friend, and it is has helped to fine-tune the process of continuous improvement. It has also helped to develop an effective and efficient public service that is based on the opinions of the child.

Fel y mae'r pwylgor wedi clywed, mae CAFCASS Cymru'n gweithredu mewn maes cymhleth, lle mae gofyn i ymarferwyr gadarnhau beth yw dymuniadau a theimladau plant, cyflwyno'r rheini'n gywir i'r llys, a rhoi eu barn broffesiynol am yr hyn sydd orau i'r plentyn. Drwy gydol y broses hon, mae'n hanfodol i blant ddeall y bydd CAFCASS Cymru, wrth gyflawni ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau, yn sicrhau rhoi pwyslais digonol ar eu dymuniadau a'r hyn sydd orau iddynt, ac y mae'n bwysig egluro'r broses benderfynu a chanlyniadau unrhyw achosion yn glir ac yn llawn iddynt.

Mae'r galw am wasanaethau CAFCASS Cymru yn cynyddu'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn. Mae nifer gynyddol o rieni'n troi at gynghorwyr cyfreithiol a'r llysoedd am eu bod yn anabl anfodlon dod i gytundeb am y ffordd y gall y naill a'r llall barhau i chwarae rhan lawn a gweithredol ym mywyd eu plentyn. Bydd adegau pan nad yw'n ddiogel neu'n briodol i blentyn gadw perthynas â'i fam a'i dad. Rhwng mis Ebrill 2005 a mis Mawrth 2009, cododd nifer y ceisiadau mewn cyfraith breifat 36 y cant. Yr oedd y rhain, gan mwyaf, yn achosion a oedd yn ymwneud â ble y byddai plentyn yn byw, neu'r hawl i gael cyswllt â phlentyn. Ni chaiff y cynydd hwnnw ei ategu gan gynydd cyfatebol yn nifer y teuluoedd sy'n chwalu. Ymddengys, felly, fod mynd i gyfraith wedi dod yn ateb a ddewisir yh gynyddol gan bobl. Fodd bynnag, mae mynd i gyfraith yn arwain at elyniaeth, gwrthdar a dadlau, a'r effaith a gaiff hynny ar y plentyn. Mae angen dulliau gwahanol i gydnabod patrymau newidiol strwythurau teuluol, a phwysau canfyddedig disgwyliadau cymdeithasol ar deuluoedd, ac ar rieni ifanc yn enwedig, ac y mae angen dulliau gwahanol i gynorthwyo gyda hynny, fel rhan o becyn ehangach o gymorth i deuluoedd. Dylai'r cymorth hwnnw rymuso teuluoedd i ddatblygu ac arfer sgiliau sy'n cydnabod yr

effeithiau niweidiol y gall chwalu teulu eu cael ar bawb dan sylw, ar y pryd ac yn y tymor hir.

We have already put in place programmes that address parental behaviours through contact activities that educate parents about the consequences of how they act and speak during separation. We are working with UK Ministers to improve access to mediation, conciliation and conflict resolution services, thereby negating the need to litigate and enabling parents to reach safe, workable solutions that facilitate long-term participation in their children's lives.

Yr ydym eisoes wedi rhoi rhaglenni ar waith sy'n mynd i'r afael ag ymddygiad rhieni drwy weithgareddau cyswllt sy'n dysgu rhieni am ganlyniadau'r modd y maent yn ymddwyn ac yn siarad pan fyddant yn gwahanu. Yr ydym yn gweithio gyda Gweinidogion y DU i wella mynediad i wasanaethau cyfryngu, cymodi a datrys anghydfod, gan ddileu'r angen i fynd i gyfraith a galluogi rhieni i ddod o hyd i atebion diogel ac ymarferol sy'n eu cynorthwyo i fod yn rhan o fywyd eu plant yn y tymor hir.

The Government's response outlines our actions to work in partnership to embed this approach across devolved and reserved matters. Most importantly, by changing our approach and placing greater emphasis on early-intervention family support, we can provide improved outcomes for children and their parents. I will reply later in the debate to other specific points that have been raised.

Mae ymateb y Llywodraeth yn amlinellu'r camau yr ydym yn eu cymryd i weithio mewn partneriaeth i sefydlu'r dull gweithredu hwn ar draws materion sydd wedi'u datganoli a materion sydd heb eu datganoli. Yn fwyaf pwysig, trwy newid ein dull gweithredu a rhoi mwy o bwyslais ar gynorthwyo teuluoedd trwy ymyrryd yn gynnar, gallwn sicrhau gwell canlyniadau i rieni a'u plant. Byddaf yn ymateb yn ddiweddarach yn y ddadl i'r pwyntiau penodol eraill sydd wedi'u codi.

**Andrew R.T. Davies:** I concur with the position put forward by the Chair in relation to the Health, Wellbeing and Local Government Committee's investigation into CAFCASS's services in Wales, and with the 26 recommendations that were put forward in its report for the Government's consideration. It is pleasing to see that the Government has, by and large, taken on board the recommendations, with one exception. There is considerable ground for agreement on the fact that the report offers a way forward for the development of child and court services, for the betterment of the service and for the sake of the child.

**Andrew R.T. Davies:** Yr wyf yn cytuno â'r safbwyt a gyflwynwyd gan y Cadeirydd yng nghyswllt ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i wasanaethau CAFCASS yng Nghymru, a chytunaf â'r 26 argymhelliaid a gyflwynwyd yn ei adroddiad i'w hystyried gan y Llywodraeth. Mae'n dda gweld bod y Llywodraeth, at ei gilydd, wedi derbyn yr argymhellion, gydag un eithriad. Mae sail sylweddol dros gytuno am yffaith fod yr adroddiad yn cynnig ffordd ymlaen ar gyfer datblygu gwasanaethau llysoedd a gwasanaethau plant, er mwyn gwella'r gwasanaeth ac er lles y plentyn.

As a new member of the committee, I visited the contact centre in Aberdare. We spent a considerable amount of time with the dedicated, motivated and professional individuals who ran it. One thing that came over loud and clear, particularly from the director of the centre, was the considerable time that she had to spend on applications for

Fel aelod newydd o'r pwyllgor, bûm yn ymweld â'r ganolfan gyswllt yn Aberdâr. Treuliwyd cryn amser gyda'r unigolion ymroddgar, brwd frydig a phroffesiynol a oedd yn rhedeg y ganolfan. Un peth a fynegwyd yn glir ac yn groyw, yn enwedig gan gyfarwyddwr y ganolfan, oedd ei bod yn gorfod treulio cryn amser yn paratoi

revenue, and in particular on making sure that future funding was secure.

4.10 p.m.

One recommendation that the Government has indicated that it is accepting is the security of three-year funding so that individuals involved in the contact centres can do the job that they desperately want to do, which is to be involved in delivering the service and working to motivate its staff. That is a positive move, because the arguments put forward to us at that meeting were powerful, and the scarcity of centres able to offer universal coverage was graphically emphasised in particular. For example, due to geographical issues, if one centre was full, people would have a challenge to find another centre in which to accommodate a supervised visit and a supervised coming together of parties.

One thing that was unique about the report was that a judge presented evidence to the committee. I believe that that was a first for this institution. The judge who came before us highlighted, as the Deputy Minister has identified, the alarming increase in the level of litigation cases and, in particular, the tensions between the private and public cases that come before the courts. He was particularly concerned about the significance of that for resources and the ability of the courts to be able to deal with this level of increase year on year. Again, the Deputy Minister identified that in her opening remarks, stating that the level of increase was, I think, 34 per cent. This is a considerable challenge for the service.

However, the report also identifies, as did the judge, the important role that social workers play by working in unison with the service. The Deputy Minister's turn of phrase was included in the report when she stated that we,

'might have turned a corner in Wales in the recruitment of social workers.'

Could you expand on that point when you

ceisiadau am gyllid, a sicrhau'n benodol bod cyllid ar gael ar gyfer y dyfodol.

Un argymhelliaid y mae'r Llywodraeth wedi dweud y bydd yn ei dderbyn yw hwnnw yngylch sicrhau cyllid am gyfnod o dair blynedd, fel y gall unigolion sy'n ymwneud â'r canolfannau cyswllt wneud y gwaith y maent mor awyddus i'w wneud, sef bod yn rhan o gyflwyno'r gwasanaeth a gweithio i ysgogi ei staff. Mae hynny'n gam cadarnhaol, oherwydd yr oedd y dadleuon a gyflwynwyd inni yn y cyfarfod hwnnw'n rymus, a phwysleisiwyd yn benodol ac yn glir fod prinder canolfannau sy'n gallu cynnig gwasanaeth i bawb. Er enghraifft, pe bai un ganolfan yn llawn, byddai problemau daearyddol yn golygu y byddai'n anodd iawn i bobl allu cael canolfan arall a allai ddarparu ar gyfer ymwelliadau dan oruchwyliaeth a chyfleoedd i deuluoedd ddod ynhyd dan oruchwyliaeth.

Un peth a oedd yn unigryw am yr adroddiad oedd bod barnwr wedi cyflwyno tystiolaeth i'r pwylgor. Credaf mai dyna'r tro cyntaf i hynny ddigwydd yn y sefydliad hwn. Tynnodd y barnwr a ddaeth ger ein bron sylw, fel y mae'r Dirprwy Weinidog wedi nodi, at y cynnydd brawychus yn nifer yr achosion lle mae pobl yn mynd i gyfraith, ac yn enwedig y tensiynau rhwng yr achosion preifat a chyhoeddus sy'n dod gerbron y llysoedd. Yr oedd yn pryderu'n benodol yngylch arwyddocâd hynny o safbwyt adnoddau, a gallu'r llysoedd i ymdopi â chynnydd o'r fath flwyddyn ar ôl blwyddyn. Eto, nododd y Dirprwy Weinidog hynny yn ei sylwadau agoriadol, gan ddweud bod lefel y cynnydd yn 34 y cant, mi gredaf. Mae hynny'n her sylweddol i'r gwasanaeth.

Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn nodi, fel y gwnaeth y barnwr, rôl bwysig gweithwyr cymdeithasol trwy weithio ar y cyd â'r gwasanaeth. Cafodd geiriau'r Dirprwy Weinidog eu cynnwys yn yr adroddiad, pan ddywedodd,

bod Cymru efallai wedi troi'r gornel o ran recriwtio gweithwyr cymdeithasol.

A allech ymhelaethu ar y pwynt hwnnw wrth

address us at the end of this debate because this evidence was taken some time ago? Are you confident that the statement that you made to committee is being borne out on the ground and that there is an increase in social workers working in the profession in Wales, which, above all, will offer that continuity of service?

Recommendation 12 of the report touched on the importance of representing the views of ethnic minorities and, in particular, the special circumstances that might arise in relation to family balance when presenting cases to court. As someone who represents the region of South Wales Central, which has a large ethnic minority community, I would be grateful if you could address this issue. During last week's community mental health debate, the Minister for Health and Social Services mentioned that you had been leading a group on the development of services for ethnic minority communities. It would be good to hear how you are working to ensure that all communities benefit from the service improvements that this committee report identifies rather than just the mainstream communities, for example, where a lot of people might think, 'We are happy to deal with the 70 per cent'. These issues affect all the communities that we seek to represent in this institution.

Recommendation 9 on the joined-up approach is also important. It outlines how professionals should work together rather than in isolation and in silos. I am sure that the Deputy Minister would concur that when we have discussed the breakdown in service provision in the past, that was frequently because there was, sadly, no team approach to developing a joined-up approach to address the needs of the individual.

Finally, I echo the concerns of the committee Chair about the role of the children's commissioner and the obstacles that he legitimately identifies as preventing his office from reaching its full potential in addressing the concerns outlined in this report. Sadly,

ein hannerch ar ddiwedd y ddadl hon, oherwydd casglwyd y dystiolaeth hon grym amser yn ôl? A ydych yn hyderus fod y datganiad a wnaethoch i'r pwylgor yn cael ei gadarnhau ar lawr gwlad, a bod cynnydd yn nifer y gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio yn y proffesiwn yng Nghymru ac a fydd, yn anad dim, yn cynnig y parhad hwnnw yn y gwasanaeth?

Yr oedd argymhelliaid 12 yn yr adroddiad yn cyffwrdd â phwysigrwydd cynrychioli safbwytiau lleiafrifoedd ethnig, ac yn benodol yr amgylchiadau arbennig a allai godi o ran cydbwyssedd teuluol wrth gyflwyno achosion i'r llys. Fel un sy'n cynrychioli rhanbarth Canol De Cymru, sydd â chymuned fawr o bobl o leiafrifoedd ethnig, byddwn yn ddiolchgar pe gallich roi sylw i'r mater hwn. Yn ystod y ddadl ar iechyd meddwl cymunedol yr wythnos diwethaf, dywedodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ichi fod yn arwain grŵp ar ddatblygu gwasanaethau i gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Byddai'n dda clywed sut yr ydych yn gweithio i sicrhau bod pob cymuned yn elwa o'r gwelliannau mewn gwasanaethau, a nodir yn yr adroddiad hwn gan y pwylgor, yn hytrach na'r cymunedau prif ffrwd yn unig, er enghraift, lle gallai llawer o bobl feddwl, 'Yr ydym yn hapus i ymdrin â'r 70 y cant'. Mae'r materion hyn yn effeithio ar yr holl gymunedau yr ydym yn ceisio'u cynrychioli yn y sefydliad hwn.

Mae argymhelliaid 9 ar y dull cydgysylltiedig o weithio hefyd yn bwysig. Mae'n amlinellu sut y dylai gweithwyr proffesiynol weithio gyda'i gilydd yn hytrach nag ar eu pen eu hunain ac ar wahân. Yr wyf yn siŵr y byddai'r Dirprwy Weinidog yn cytuno, wrth inni drafod methiannau wrth ddarparu gwasanaethau yn y gorffennol, fod hynny'n aml wedi digwydd am nad oedd pobl, yn anffodus, yn gweithio fel tîm i ddatblygu dull cydgysylltiedig o fynd i'r afael ag anghenion yr unigolyn.

Yn olaf, hoffwn adleisio pryderon Cadeirydd y pwylgor am rôl y comisiynydd plant, a'r rhwystrau a nodir ganddo yn ddigon teg, sy'n atal ei swyddfa rhag gwireddu ei photensial llawn wrth fynd i'r afael â'r pryderon a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Yn anffodus,

my time is up, but I welcome this comprehensive report and I look forward to your working to implement its recommendations.

**Nerys Evans:** I welcome the report, the work of the Health, Wellbeing and Local Government committee and its thoughtful examination of the role of CAFCASS Cymru in delivering front-line services for children and families within the family justice system in Wales. I am not a member of the committee, but I am interested in the work of CAFCASS Cymru, particularly after being involved in constituents' family court cases and after witnessing the current deficiencies in the system. As we know, CAFCASS Cymru is an essential front-line service that works to ensure the best provision, advice, information and support for Welsh families and children within the family justice system.

In my response this afternoon, I wish to concentrate on the advisory role of CAFCASS Cymru. The powers and duties of CAFCASS include giving advice to any court about applications made to it, making provision for children to be represented in proceedings, in proceedings and providing information, advice and other support to children and their families. As you can see, it is an independent advisory service, providing expert advice to courts in Wales on the interests of children involved in family proceedings. In welcoming the report, I fear that the current constitutional arrangement, by which we all operate under English law and matters of the court are not devolved, is affecting the quality of the service offered by CAFCASS and its family court advisers, especially the process of nominating expert witnesses.

In your response to recommendation 9, Deputy Minister, you welcomed greater rigour and accountability in proceedings and the development of a robust quality care plan, measured on a number of fronts through WAG performance indicators and CSSIW inspections. Yet, you note that the nomination of expert witnesses by CAFCASS Cymru family court advisers will fall outside these new quality guidelines, as such matters are not devolved. The services

mae fy amser ar ben, ond yr wyf yn croesawu'r adroddiad cynhwysfawr hwn, ac edrychaf ymlaen at eich gweld yn gweithio i weithredu ei argymhellion.

**Nerys Evans:** Yr wyf yn croesawu'r adroddiad, gwaith y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol, a'r modd gofalus y mae wedi archwilio rôl CAFCASS Cymru wrth ddarparu gwasanaethau rheng flaen i blant a theuluoedd yn y system cyflawnder teuluol yng Nghymru. Nid wyf yn aelod o'r pwylgor, ond y mae gennyf ddiddordeb yng ngwaith CAFCASS Cymru, yn enwedig ar ôl bod yn ymwneud ag achosion llysoedd teulu etholwyr a gweld y diffygion yn y system ar hyn o bryd. Fel y gwyddom, mae CAFCASS Cymru yn wasanaeth rheng flaen hanfodol sy'n gweithio i sicrhau'r ddarpariaeth, y cyngor, y wybodaeth a'r cymorth gorau i deuluoedd a phlant Cymru yn y system cyflawnder teuluol.

Yn fy ymateb heddiw, hoffwn ganolbwytio ar rôl gyngori CAFCASS Cymru. Mae pwerau a dyletswyddau CAFCASS yn cynnwys rhoi cyngor i unrhyw lys am geisiadau a wneir iddo, gofalu bod modd i blant gael eu cynrychioli mewn achosion, a darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth arall i blant a'u teuluoedd. Fel y gwelwch, mae'n wasanaeth cyngori annibynnol sy'n darparu cyngor arbenigol i lysoedd yng Nghymru ar fuddiannau plant sy'n ymwneud ag achosion teuluol. Wrth groesawu'r adroddiad, ofnaf fod y trefniant cyfansoddiadol sydd ohoni, lle'r ydym i gyd yn gweithredu dan gyfraith Lloegr a lle nad yw materion llysoedd wedi'u datganoli, yn effeithio ar ansawdd y gwasanaeth a gynigir gan CAFCASS a'i gynghorwyr llys teulu, yn enwedig y broses o enwebu tystion arbenigol.

Yn eich ymateb i argymhelliad 9, Ddirprwy Weinidog, yr oeddech yn croesawu mwy o fanyldeb ac atebolrwydd mewn achosion, ac yn croesawu datblygu cynllun gofal trylwyr o safon, yn cael ei fesur o lawer safbwyt trwy ddangosyddion perfformiad Llywodraeth y Cynulliad ac arolygiadau AGGCC. Eto, yr ydych yn nodi na fydd y canllawiau safon newydd hyn yn cynnwys gwaith enwebu tystion arbenigol gan gynghorwyr llys teulu CAFCASS, gan nad yw materion o'r fath

provided by CAFCASS Cymru are measured through key performance indicators set by the Ministry of Justice. From my experience in Carmarthenshire, I know of Welsh families and children who are suffering injustices due to the fact that these matters are reserved under English law.

During the last four years, CAFCASS Cymru family court advisers have repeatedly recommended the employment of a certain educational psychologist to offer advice in two cases in Carmarthenshire where children have been attending Welsh-medium schools. However, the so-called 'expert' adviser, who has spent all of his professional life outside Wales, has stated openly in court that he is not an expert on Welsh-medium education. This so-called educational expert has said that if a child from a non-Welsh-speaking family attended a Welsh-medium school, he would expect to see retardation, even though the child in question is a fluent Welsh speaker. This dangerous and totally unfounded claim was not challenged in court by the CAFCASS officer and was used to explain the dramatic change in the child's behaviour. That was accepted by the court and that change in the child was not subsequently investigated by the court. What is even worse is that, since that case, CAFCASS has recommended the appointment of the same educational expert in another court case. I have mentioned this to the previous First Minister and the new First Minister in his former role as Counsel General, and both have said on the record that anyone who holds those views is no expert in their eyes.

This issue raises a number of important questions. Why do CAFCASS Cymru family court advisers repeatedly recommend the appointment of so-called 'expert' witnesses to advise the court on matters that fall outside their area of expertise? It is a requirement of the British Psychological Society that its members should not accept requests to provide professional opinions outside the area of their personal expertise. Why, therefore, does CAFCASS not follow that policy? Does CAFCASS Cymru not have a

wedi'u datganoli. Caiff y gwasanaethau a ddarperir gan CAFCASS Cymru eu mesur trwy ddangosyddion perfformiad allweddol a bennir gan y Weinyddiaeth Gyflawnder. O'm profiad i yn Sir Gaerfyrddin, gwn am blant a theuluoedd yng Nghymru sy'n dioddef anghyflawnder oherwydd bod y materion hyn yn dal dan gyfraith Lloegr.

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae cynghorwyr llys teulu CAFCASS Cymru wedi argymhell droeon y dylid cyflogi seicolegydd addysg penodol i gynnig cyngor mewn dau achos yn Sir Gaerfyrddin lle mae plant wedi bod yn mynd i ysgolion Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r cynghorydd 'arbenigol' honedig, sydd wedi treulio'i holl fywyd proffesiynol yn gweithio y tu allan i Gymru, wedi dewud yn agored yn y llys nad yw'n arbenigwr ar addysg Gymraeg. Mae'r arbenigwr addysgol honedig hwn wedi dweud, pe bai plentyn o deulu di-Gymraeg yn mynd i ysgol Gymraeg, y byddai'n disgwyl gweld arafwch yn natblygiad y plentyn, er bod y plentyn dan sylw yn siarad Gymraeg yn rhugl. Ni chafodd yr honiad hwn, sy'n beryglus ac yn hollol ddi-sail, ei herio yn y llys gan swyddog CAFCASS, ac fe'i defnyddiwyd i esbonio'r newid dramatig yn ymddygiad y plentyn. Cafodd hynny ei dderbyn gan y llys, ac yn dilyn hynny nid ymchwiliodd y llys i'r newid hwnnw yn y plentyn. Yr hyn sy'n waeth fyth yw bod CAFCASS, ers yr achos hwnnw, wedi argymhell y dylid penodi'r un arbenigwr addysgol i weithio ar achos llys arall. Yr wyf wedi sôn am hyn wrth y Prif Weinidog blaenorol a'r Prif Weinidog newydd yn ei rôl flaenorol fel Cwnsler Cyffredinol, ac y mae'r ddau wedi dweud yn gyhoeddus nad yw rhywun sy'n coleddu'r safbwytiau hynny yn eu barn hwy yn arbenigwr.

Mae'r broblem hon yn codi nifer o gwestiynau pwysig. Pam mae cynghorwyr llys teulu CAFCASS Cymru yn argymhell dro ar ôl tro y dylid penodi tystion 'arbenigol' honedig i gynggori'r llys ar faterion sydd y tu allan i'w maes arbenigol? Mae Cymdeithas Seicolegol Prydain yn mynnu na ddylai ei haelodau dderbyn ceisiadau i gynnig barn broffesiynol ar faterion sydd y tu allan i'w maes arbenigol. Pam, felly, nad yw CAFCASS yn dilyn y polisi hwnnw? Onid oes gan CAFCASS Cymru gyfrifoldeb tuag

responsibility towards the Legal Services Commission and the taxpayers of Wales who are faced with the cost of funding the work of these so-called experts in court?

Recommendation 12 of the report states that CAFCASS should take urgent action to ensure that it is providing a high-quality service to Welsh-speaking children and families. Surely that should also include the nomination of experienced educational psychologists when the court needs advice on Welsh-medium schools. Welsh-speaking children and families are suffering a grave injustice as this practice continues. Deputy Minister, you highlight the importance of a rights-based framework, yet the rights of Welsh-speaking children to receive advice from quality and qualified advisers have been ignored.

It is your duty, Deputy Minister, to answer these questions, yet they are not included in your response to the report. There is no reason in the world why advisory services and expertise provided to the family courts in Wales should not be greatly reformed as part of the rights-based framework. You might respond by saying that these matters are not for the Assembly as they are not devolved, yet it is also your role as Deputy Minister to be proactive on this matter and to improve the family justice system according to the needs of families and children in Wales. It is your duty to lead on these matters. I look forward to hearing your response on these issues, to ensure that no other child or family is let down by the current system in Wales, which is what we should all be working towards.

4.20 p.m.

**Peter Black:** I welcome the Deputy Minister's response to the report, which, as was said previously, was largely positive. With the exception of the one key recommendation in relation to the Children's Commissioner for Wales, she has accepted all the committee's recommendations. Nevertheless, despite that overwhelming endorsement of the committee's findings, a number of concerns continue to need to be

at y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a threthdalwyr Cymru sy'n wynebu gorfod talu am waith yr arbenigwyr honedig hyn yn y llys?

Mae argymhelliaid 12 yn yr adroddiad yn dweud y dylai CAFCASS gymryd camau brys i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaeth o safon uchel i blant a theuluoedd Cymraeg. Oni ddylai hynny hefyd gynnwys enwebu seicolegwyr addysg profiadol pan fydd angen cyngor ar y llys am ysgolion Cymraeg. Wrth i'r arfer hwn barhau, mae plant a theuluoedd Cymraeg yn cael cam ofnadwy. Ddirprwy Weinidog, yr ydych yn tynnu sylw at bwysigrwydd fframwaith yn seiliedig ar hawliau, ac eto, mae hawliau plant Cymraeg i gael cyngor gan gynghorwyr cymwys o safon wedi cael eu hanwybyddu.

Mae dyletswydd arnoch, Ddirprwy Weinidog, i ateb y cwestiynau hyn, ond eto, nid ydynt wedi'u cynnwys yn eich ymateb i'r adroddiad. Nid oes rheswm yn y byd pam na ddylid diwygio'n sylwedol y gwasanaethau cynghori a'r arbenigedd a ddarperir i lysoedd teulu yng Nghymru, fel rhan o'r fframwaith sy'n seiliedig ar hawliau. Gallech ymateb trwy ddweud nad yw'r rhain yn faterion i'r Cynulliad am nad ydynt wedi'u datganoli, ond eto, eich rôl chi hefyd fel Dirprwy Weinidog yw bod yn rhagweithiol yn y mater hwn a gwella'r system cyflawnder teuluol yn unol ag anghenion teuluoedd a phlant yng Nghymru. Eich dyletswydd chi yw arwain ar y materion hyn. Edrychaf ymlaen at glywed eich ymateb i'r problemau hyn, er mwyn sierhau nad yw'r un plentyn na'r un teulu arall yn cael eu siomi gan y system bresennol yng Nghymru, sy'n rhywbeth y dylai pob un ohonom fod yn gweithio tuag ato.

**Peter Black:** Yr wyf yn croesawu ymateb y Dirprwy Weinidog i'r adroddiad sydd, fel y dywedwyd eisoes, yn gadarnhaol at ei gilydd. Ac eithrio un argymhelliaid allweddol ar Gomisiynydd Plant Cymru, mae wedi derbyn holl argymhellion y pwylgor. Er hynny, ac er y gymeradwyaeth frwd i ddarganfyddiadau'r pwylgor, mae angen gwthio nifer o bryderon o hyd a'u harchwilio'n fanylach, yn enwedig canfyddiad y pwylgor fod angen i

pressed and explored in more depth, particularly the finding of the committee that CAFCASS Cymru needs to take a far more child-centred approach.

The problem is that the courts do not take that approach, and nor does CAFCASS in England. Therefore, while we are seeking to move CAFCASS Cymru in one direction, the courts wish to move it in the opposite direction. That is a problem that needs to be resolved in some way. It cannot be resolved while justice remains a non-devolved issue, but it needs to be raised at a UK level with UK Ministers. We should say to the relevant Ministers and the heads of the courts at a UK level that we want CAFCASS Cymru to operate in a particular way and that we will look to the courts to be sympathetic to that and to act in a similar way when they deal with cases from Wales.

Recommendation 13 is important. The Deputy Minister has responded to the committee's recommendation that CAFCASS should be represented on all local safeguarding children boards by saying, in effect, that that is already the case. However, if my memory serves me right, the evidence given to the committee was that, although there may well be some form of representation on the local safeguarding children boards, given that there are so many of them and only one organisation, CAFCASS, they were not being represented at a sufficiently senior level to have the impact needed on those boards. That is the concern of the committee, which does not necessarily come across in the recommendation and which also needs to be addressed.

I am particularly pleased that the Deputy Minister has taken forward recommendations 15 and 16 in relation to the child contact centres. When the committee went to visit various contact centres around Wales, I visited the centre in Sandfields in Port Talbot, which is a voluntary centre that is run on a grant of, effectively, around £100 per year. The staff there were doing invaluable work in helping estranged parents to have access time

CAFCASS Cymru fabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwytio mwy ar y plentyn.

Y broblem yw nad yw'r llysoedd yn mabwysiadu'r dull gweithredu hwnnw, ac nad yw CAFCASS yn Lloegr ychwaith yn mabwysiadu'r dull gweithredu hwnnw. Felly, er ein bod yn ceisio symud CAFCASS Cymru i un cyfeiriad, mae'r llysoedd am ei symud i'r cyfeiriad arall. Mae honno'n broblem y mae angen ei datrys rywsut. Ni ellir ei datrys tra bydd cyflawnder yn dal yn fater sydd heb ei ddatganoli, ond y mae angen codi'r broblem ar lefel y DU gyda Gweinidogion y DU. Dylem ddweud wrth y Gweinidogion perthnasol a phenaethiaid y llysoedd ar lefel y DU ein bod am i CAFCASS Cymru weithredu mewn modd penodol, a'n bod yn gobeithio y bydd y llysoedd yn ymateb yn garedig i hynny ac yn gweithredu mewn modd tebyg wrth ymdrin ag achosion o Gymru.

Mae argymhelliaid 13 yn bwysig. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi ymateb i argymhelliaid y pwylgor y dylai CAFCASS gael ei gynrychioli ar yr holl fyrrdau lleol diogelu plant, trwy ddweud i bob pwrrpas fod hynny eisoes yn digwydd. Fodd bynnag, os cofiaf yn iawn, yr oedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r pwylgor yn dangos, er ei bod yn ddigon posibl fod rhyw fath o gynrychiolaeth ar y byrddau lleol diogelu plant, o gofio bod cynifer o fyrrdau ac mai un CAFCASS sydd, nad oedd CAFCASS yn cael ei gynrychioli ar lefel ddigon uchel i gael yr effaith angenheidol ar y byrddau hynny. Dyna yw pryder y pwylgor, nad yw o reidrwydd yn cael ei fynegi'n eglur yn yr argymhelliaid, ac y mae angen rhoi sylw iddo hefyd.

Yr wyf yn falch dros ben fod y Dirprwy Weinidog wedi derbyn argymhellion 15 ac 16 o ran canolfannau cyswllt plant. Pan aeth aelodau'r pwylgor i ymweld â gwahanol ganolfannau cyswllt ledled Cymru, euthum i ymweld â'r ganolfan yn Sandfields, Port Talbot, canolfan wirfoddol sy'n cael ei rhedeg ar grant sydd i bob pwrrpas yn rhyw £100 y flwyddyn. Yr oedd y staff yno'n gwneud gwaith amhrisiadwy ac yn helpu

with their children in a partially supervised way. They were not secure centres and so were not properly supervised like those directly funded by CAFCASS, but they are still an important part of the network. I am pleased that the Deputy Minister has recognised that by saying that she should be finding funding for them.

However, there are concerns about the attitude of the National Association of Child Contact Centres to those bodies. It has taken the attitude in the past that, because CAFCASS is devolved to Wales, it does not have to bother with giving grants and support to the Welsh contact centres. I have found that to be the case in other areas, and the Ministry of Justice has also taken that view on other aspects. A week ago, I visited the youth offending team to discuss restorative justice. Staff explained to me that when the Ministry of Justice took over functions from the Home Office, one of its first acts was to stop grants to Welsh youth offending teams simply because it thought that, because they were in Wales, they were nothing to do with it, even though such matters are not devolved. That needs to be taken up with the Secretary of State for Justice to ensure that Welsh organisations in non-devolved functions do not lose out because civil servants based in London do not understand how the devolution settlement works.

The final point that I want to make relates to the children's commissioner. I think that Darren has already made this point quite strongly, but the committee is concerned that the children's commissioner does not have the power to inquire into how CAFCASS carries out its functions. I note that the Deputy Minister has accepted recommendation 26, which suggests that there should be partnership agreements between CAFCASS and the children's commissioner. However, that does not really compensate for the need for the children's commissioner to enter into an investigation

rhieni sydd wedi gwahanu i dreulio amser gyda'u plant dan oruchwyliaeth rannol. Nid oeddent yn ganolfannau diogel, ac felly nid oeddent yn cael eu goruchwylion iawn fel y rheini sy'n cael eu hariannu'n uniongyrchol gan CAFCASS, ond y maent yn dal yn rhan bwysig o'r rhwydwaith. Yr wyf yn falch fod y Dirprwy Weinidog wedi cydnabod hynny trwy ddweud y dylai fod yn dod o hyd i gyllid ar eu cyfer.

Fodd bynnag, mae yna bryderon am agwedd y Gymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyswllt Plant at y cyrff hynny. Yn y gorffennol mae'r Gymdeithas wedi cymryd yr agwedd, oherwydd bod CAFCASS wedi'i ddatganoli i Gymru, nad oes rhaid iddi drafferth rhoi grantiau a chymorth i ganolfannau cyswllt Cymru. Yr wyf wedi gweld bod hynny'n wir mewn meysydd eraill, ac y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd wedi mabwysiadu'r safbwyst hwnnw ar agweddau eraill. Wythnos yn ôl, bûm yn ymweld â'r tîm troseddu ieuenciad i drafod cyfiawnder adferol. Eglurodd y staff wrthyf mai un o'r pethau cyntaf a wnaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder, pan drosglwyddwyd swyddogaethau o'r Swyddfa Gartref i'r Weinyddiaeth, oedd atal grantiau i dimau troseddu ieuenciad yng Nghymru oherwydd ei bod yn credu, am fod y timau yng Nghymru, nad oedd a wnelont hwy ddim â hi, er nad yw materion o'r fath wedi'u datganoli. Mae angen codi hynny gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder er mwyn sicrhau nad yw sefydliadau yng Nghymru sy'n gyfrifol am swyddogaethau sydd heb eu datganoli ar eu colled am nad yw gweision sifil yn Llundain yn deall sut mae'r setliad datganoli yn gweithio.

Mae'r pwyt olaf yr wyf am ei wneud yn ymwneud â'r comisiynydd plant. Credaf fod Darren eisoes wedi gwneud y pwyt hwn yn eithaf cryf, ond mae'r pwylgor yn pryderu nad oes gan y comisiynydd plant y pŵer i ymchwilio i'r modd y mae CAFCASS yn cyflawni ei swyddogaethau. Sylwaf fod y Dirprwy Weinidog wedi derbyn argymhelliaid 26, sy'n awgrymu y dylid cael cytundebau partneriaeth rhwng CAFCASS a'r comisiynydd plant. Fodd bynnag, nid yw hynny mewn gwirionedd yn gwneud iawn am yr angen i'r comisiynydd plant allu ymchwilio pan nad yw'r cytundeb

where that partnership agreement is not in place. I ask the Deputy Minister to look at that again.

**The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas):** I will try to be as quick as I can, but I do not think that I can cover all the points that have been made.

We will shortly be publishing service standards, which will set out what service users can expect from family court services as regards the rights and welfare of children involved in the family proceedings, and they also state that the rights of children are paramount. I look forward to publishing those service standards, and you might want to come back to say something about them in due course.

The inspection framework is on course to be implemented from next year, which will be another improvement. The advocacy model that the Minister for children has developed will offer useful advocacy universally, and I agree absolutely with the points made on the need for continuity. Where an advocate has been in place before the court proceedings began, that person must continue during and post the proceedings. I could not agree more on that point.

We have resourced 12 new family court adviser posts, which have mostly been filled. The national service standards that I mentioned will provide for the appropriate referral of children to other professionals. That point was made quite strongly during the debate.

Nerys talked about expert witnesses, a subject that I know she feels passionately about, having had meetings with her. CAFCASS Cymru is now able to offer the delivery of the service through the medium of Welsh throughout Wales. On the question of expert witnesses, I will say that it is not a devolved issue, but I have raised these matters quite strongly through the national family justice board, which I co-chair. The whole court process is a non-devolved issue, but that is not to say that we will not continue to make those points strongly. I will not comment on individual cases.

partneriaeth hwnnw mewn grym. Gofynnaf i'r Dirprwy Weinidog edrych ar hynny eto.

**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Ceisiaf fod mor gyflym ag y gallaf, ond ni chredaf y gallaf ymdrin â'r holl bwyntiau a godwyd.

Cyn hir, byddwn yn cyhoeddi safonau gwasanaeth, a fydd yn egluro'r hyn y gall defnyddwyr gwasanaethau ei ddisgwyl gan wasanaethau llysoedd teulu o ran hawliau a lles plant sy'n ymwneud ag achosion teuluol. Byddant hefyd yn datgan bod hawliau plant o'r pwys mwyaf. Edrychaf ymlaen at gyhoeddi'r safonau gwasanaeth hynny, ac efallai yr hoffech ddod yn ôl i ddweud rhywbeth amdanynt maes o law.

Mae disgwyl i'r fframwaith arolygu gael ei weithredu o'r flwyddyn nesaf ymlaen, a bydd hynny'n welliant arall. Bydd y model eiriolaeth y mae'r Gweinidog dros blant wedi'i ddatblygu yn cynnig eiriolaeth ddefnyddiol i bawb, a chytunaf yn llwyr â'r pwyntiau a wnaed fod angen parhad. Os oes eiriolwr wedi bod ar gael cyn i'r achos llys ddechrau, rhaid i'r unigolyn hwnnw barhau i fod ar gael yn ystod yr achosac wedyn. Ni allwn gytuno mwy ar y pwynt hwnnw.

Yr ydym wedi darparu adnoddau ar gyfer 12 swydd newydd i gynghorwyr llys teulu, ac y mae unigolion wedi'u penodi i'r rhan fwyaf ohonynt. Bydd y safonau gwasanaeth cenedlaethol y soniais amdanynt yn darparu ar gyfer cyfeirio plant yn briodol at weithwyr proffesiynol eraill. Cafodd y pwynt hwnnw ei wneud yn ddigon cryf yn ystod y ddadl.

Soniodd Nerys am dystion arbenigol, a gwn, ar ôl cael cyfarfodydd â hi, fod hwn yn fater y mae'n teimlo'n angerddol yn ei gylch. Erbyn hyn, mae CAFCASS Cymru yn gallu cynnig ei wasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ledled Cymru. O ran tystion arbenigol, hoffwn ddweud nad yw'n fater sydd wedi'i ddatganoli, ond yr wyf wedi codi'r materion hyn yn eithaf pendant trwy'r bwrdd cyflawnder teuluol cenedlaethol yr wyf yn gyd-gadeirydd arno. Mae'r holl broses llysoedd yn fater sydd heb ei ddatganoli, ond nid yw hynny'n golygu na fyddwn yn parhau i wneud y pwyntiau hynny

yn gryf. Nid wyf am wneud sylw am achosion unigol.

CAFCASS Cymru is working with the Ministry of Justice on developing a programme to tackle domestic abuse, and it also has its own assessment and resource pack for use when domestic abuse is evident. CAFCASS Cymru has a clear statutory duty to work in partnership with all agencies. As that is based in statute, it does not have a choice not to do so. I understand that the development of partnership working is going well.

Peter, I was also of the understanding that CAFCASS Cymru representatives were members of local safeguarding children boards. Whether that representation is effective is a matter that we can look at during the review of local safeguarding children boards, which I have announced. I will ensure that that happens.

On the question about the workforce, Andrew, we have developed a workforce task group with the support of the British Association of Social Workers. That will be another aspect for the task group to look at.

**Andrew R.T. Davies:** Deputy Minister, you made a specific observation in the report that we have turned a corner in the recruitment of social workers in Wales. Is that still your assessment?

**Gwenda Thomas:** Yes, it is, but that is not to say that we can be complacent. I look forward to seeing the work of the task group, but the advice from the Care Council for Wales is that we have indeed turned a corner, and that the position in Wales as regards recruitment and retention has improved.

I take the question of contact centres seriously, and the National Association of Child Contact Centres has been commissioned to provide intensive training and support to seven supervised centres and 11 supported centres. There has been investment of £196,000 in 2008-09 and £198,000 in 2009-10. However, there is an

Mae CAFCASS Cymru yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyflawnder i ddatblygu rhaglen i fynd i'r afael â thrais domestig, ac y mae ganddo ei becyn asesu ac adnoddau ei hun i'w ddefnyddio pan fydd trais domestig yn amlwg. Mae gan CAFCASS Cymru ddyletswydd statudol glir i weithio mewn partneriaeth â phob asiantaeth. Gan fod hynny seilio mewn statud, ni all ddewis peidio â gweithio fel hynny. Deallaf fod datblygu'r arfer o weithio mewn partneriaeth yn mynd yn dda.

Peter, yr oeddwn i hefyd ar ddeall bod cynrychiolwyr CAFCASS Cymru yn aelodau o fyrrdau lleol diogelu plant. Mae asesu a yw'r gynrychiolaeth honno'n effeithiol yn fater y gallwn edrych arno yn ystod yr adolygiad o'r byrddau lleol diogelu plant yr wyf wedi'i gyhoeddi. Byddaf yn sierhau bod hynny'n digwydd.

O ran y cwestiwn am y gweithlu, Andrew, yr ydym wedi datblygu grŵp gorchwyl i edrych ar y gweithlu, gyda chymorth Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain. Bydd honno'n agwedd arall i'r grŵp gorchwyl ei hystyried.

**Andrew R. T. Davies:** Ddirprwy Weinidog, gwnaethoch sylw penodol yn yr adroddiad fod Cymru wedi troi'r gornel o ran recriwtio gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru. Ai dyna'ch asesiad o hyd?

**Gwenda Thomas:** Ie, ond nid yw hynny'n golygu y gallwn fod yn hunanfodlon. Edrychaf ymlaen at weld gwaith y grŵp gorchwyl, ond y cyngor gan Gyngor Gofal Cymru yw ein bod wedi troi'r gornel yn wirioneddol, a bod y sefyllfa yng Nghymru o ran recriwtio a chadw gweithwyr wedi gwella.

Yr wyf yn cymryd mater canolfannau cyswllt o ddifrif, ac y mae'r Gymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyswllt Plant wedi'i chomisiynu i ddarparu hyfforddiant a chymorth dwys i saith o ganolfannau lle mae goruchwyliaeth ac 11 o ganolfannau lle mae cymorth. Cafwyd buddsoddiad o £196,000 yn 2008-09 a £198,000 yn 2009-10. Fodd

important synergy with early intervention, the establishment of the integrated family support teams, which we look forward to, the wider support for children and families, Flying Start and Cymorth, the parenting action plan, the indicated children's centres and community-focused schools. We need to look at developing working arrangements with all those aspects that are available to us.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Can you wind up, please?

**Gwenda Thomas:** I will have to leave it there, but I will write to you about the children's participation programme, which I am excited about it. The work that has been undertaken with Dynamix will be published early in the new year. I am sure that you will agree that the publication of the children's complaints policy and 'Are we getting it right?' booklets has been very welcome, on which we had the advice of the children's commissioner.

4.30 p.m.

I will follow up the other points, Deputy Presiding Officer, but please allow me to mention the children's commissioner. He is already empowered to consider how Welsh Ministers' functions are exercised by CAFCASS Cymru. I know that other Members think that that is not enough, but there are also established arrangements in the justice system to challenge the decisions of the court. Perhaps we need to take another look at that. The memorandum of understanding between CAFCASS Cymru and the children's commissioner is close to completion. That will clarify the roles and relationships between CAFCASS Cymru and the commissioner.

**Darren Millar:** First of all, I thank everyone who has contributed to an interesting and informed debate. I was pleased to hear the Deputy Minister, in her closing remarks, talking about the fact that she will look again at the issue of the relationship with the children's commissioner, because we need to ensure that there is some accountability. That is the point that we made in our report and I was pleased to hear you make that

bynag, mae synergiaid pwysig ag ymyrryd yn gynnar, gwaith sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd, yr edrychwn ymlaen at eu gweld, y cymorth ehangach a ddarperir i blant a theuluoedd, Dechrau'n Deg a Chymorth, y cynllun gweithredu rhianta, y canolfannau plant a nodwyd ac ysgolion bro. Mae angen inni ystyried datblygu trefniadau gweithio gyda'r holl agweddau hynny sydd ar gael inni.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. A allwch dynnu at y terfyn, os gwelwch yn dda?

**Gwenda Thomas:** Bydd yn rhaid imi orffen yn awr, ond ysgrifennaf atoch ynglŷn â'r rhaglen cyfranogiad plant yr wyf yn teimlo'n gyffrous yn ei chylch. Caiff y gwaith sydd wedi'i wneud gyda Dynamix ei gyhoeddi yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Yr wyf yn siŵr y cytunwch fod cyhoeddi'r polisi cwynion plant a'r llyfrynnau 'Gwneud pethau'n iawn' wedi bod yn gamau i'w croesawu'n fawr, a chawsom gyngor y comisiynydd plant ar y pethau hynny.

Byddaf yn ymateb i'r pwyntiau eraill eto, Ddirprwy Lywydd, ond caniatewch imi grybwyl y comisiynydd plant. Mae ganddo bŵer eisoes i ystyried sut mae CAFCASS Cymru yn cyflawni swyddogaethau Gweinidogion Cymru. Gwn fod Aelodau eraill yn teimlo nad yw hynny'n ddigon, ond mae yna drefniadau sefydlog yn y system cyflawnder hefyd i herio penderfyniadau'r llys. Efallai fod angen inni edrych ar hynny eto. Mae'r memorandum cyd-ddealltwriaeth rhwng CAFCASS Cymru a'r comisiynydd plant bron â bod yn barod. Bydd hwnnw'n egluro rolau CAFCASS Cymru a'r comisiynydd a'r berthynas rhyngddynt.

**Darren Millar:** Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ddadl ddiddorol a deallus. Yr oeddwn yn falch clywed y Dirprwy Weinidog, wrth gloi, yn sôn y bydd yn edrych eto ar y berthynas â'r comisiynydd plant, oherwydd mae angen inni sierhau bod rhywfaint o atebolrwydd. Dyna'r pwynt a wnaethom yn ein hadroddiad, ac yr oeddwn yn falch eich clywed yn cydnabod hynny, Ddirprwy Weinidog. Yr oeddwn hefyd yn

concession, Deputy Minister. I was also pleased to hear you accept that there is a growing demand for CAFCASS services and that there is a need to invest. You are investing, which we accept; we are delighted by that.

To touch on some of the contributions from other Members, Andrew R.T. Davies referred to our visit to a contact centre in Aberdare. I accompanied him on that visit, and it is extremely important that we ensure that there are sufficient contact centres around Wales and that they are properly resourced, so that they do not have to go around begging and scratching for cash. We need to ensure that they are sustainable in order that they continue to provide a decent service. I was pleased that you referred to the training that will be given to the people who work in child contact centres in your contribution, Deputy Minister.

I should also put on record the thanks of the committee to Mr Justice Roderic Wood for his contribution. Andrew mentioned the fact that, unusually, an Assembly committee received evidence from a judge and it was a pleasure to receive such high-quality evidence from the judge on that particular occasion.

Nerys Evans also referred to individual cases in her region. I will not refer directly to that, but she made an important point about the need to ensure that the rights of Welsh speakers are recognised in the service. I am pleased that the Deputy Minister also referred to that in her response. We also need to ensure that recommendation 9 in our report is acted upon, namely that we have sufficient numbers of child psychologists; we do not currently have enough. The evidence that came through was that there simply are not sufficient numbers. We need to ensure that there is a proper workforce, not just in social care, but in the other professions, too, to ensure that we have multidisciplinary teams that can support the work of CAFCASS into the future.

Both Nerys and Peter referred to the tensions that the current devolution settlement can bring to the table and the complications that it can add. I do not want to get into the

falch eich clywed yn derbyn bod galw cynyddol am wasanaethau CAFCASS a bod angen buddsoddi. Yr ydym yn derbyn eich bod yn ymchwilio, ac yr ydym yn falch iawn o hynny.

Hoffwn gyfeirio at rai o'r cyfraniadau a wnaed gan Aelodau eraill. Cyfeiriodd Andrew R. T. Davies at ein hymweliad â chanolfan cyswllt yn Aberdâr. Euthum gydag ef i ymweld â'r ganolfan honno, ac y mae'n bwysig dros ben inni sicrhau bod digon o ganolfannau cyswllt i'w cael ledled Cymru a bod ganddynt adnoddau priodol, fel nad oes rhaid iddynt grafu a chardota am arian. Mae angen inni sicrhau eu bod yn gynaliadwy er mwyn iddynt barhau i ddarparu gwasanaeth teilwng. Yr oeddwn yn falch ichi gyfeirio yn eich cyfraniad, Ddirprwy Weinidog, at yr hyfforddiant a roir i'r bobl sy'n gweithio yn y canolfannau cyswllt plant.

Dylwn hefyd gofnodi diolch y pwylgor i Mr Ustus Roderic Wood am ei gyfraniad. Cyfeiriodd Andrew at y ffaith fod un o bwylgorau'r Cynulliad wedi cael tystiolaeth gan farnwr, sy'n anarferol, ac yr oedd yn bleser cael tystiolaeth o'r fath safon gan y barnwr ar yr achlysur penodol hwnnw.

Cyfeiriodd Nerys Evans at achosion unigol yn ei rhanbarth. Nid wyf am gyfeirio at hynny'n uniongyrchol, ond gwnaeth bwynt pwysig ynghylch yr angen i sicrhau bod y gwasanaeth yn cydnabod hawliau siaradwyr Cymraeg. Yr wyf yn falch fod y Dirprwy Weinidog hefyd wedi cyfeirio at hynny yn ei hymateb. Mae angen inni sicrhau hefyd fod argymhelliaid 9 yn ein hadroddiad yn cael ei weithredu, sef bod gennym nifer ddigonol o seicolegwyr plant; nid oes gennym ddigon ar hyn o bryd. Y dystiolaeth oedd nad oes gennym ddigon o gwbl. Mae angen inni sicrhau bod gweithlu priodol ar gael, nid ym maes gofal cymdeithasol yn unig, ond mewn proffesiynau eraill hefyd, i sicrhau bod gennym dimau aml-ddisgyblaethol a all gefnogi gwaith CAFCASS yn y dyfodol.

Cyfeiriodd Nerys a Peter at y tensiynau a all godi o ganlyniad i'r setliad datganoli presennol, a'r cymhlethdodau y gall eu hychwanegu. Nid wyf am ddechrau dadl ble

argument of where the devolution boundaries ought to lie; in fact, the committee was keen not to do that in the report. However, it is clear that tensions exist, particularly around finance for joint working and the tension between the rights agenda that operates in the Assembly and the welfare agenda that operate in the courts service. These tensions will continue to manifest in the future unless there is an improved working relationship.

In closing, because I realise that my time has come to an end, I look forward to receiving information on the further points that you did not reach in Plenary today, Deputy Minister. We are grateful for the responses that you have given and we look forward to an improved CAFCASS Cymru service in the future as a result of this debate.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is that the motion to note the Health, Wellbeing and Local Government Committee report is agreed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

### Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

#### Llifogydd Flooding

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Carwyn Jones.

**Angela Burns:** I move that

*the National Assembly for Wales:*

*1. expresses concern that the Flood and Water Management Bill will not provide clarity of responsibility over flood protection and prevention;*

y dylai ffiniau datganoli fod; yn wir, yr oedd y pwllgor yn awyddus i beidio â gwneud hynny yn yr adroddiad. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod yn densiynau, yn enwedig o ran cyllid ar gyfer cydweithio, a'r tensiwn rhwng yr agenda hawliau sy'n gweithredu yn y Cynulliad a'r agenda lles sy'n gweithredu yn y gwasanaeth llysoedd. Oni fydd y berthynas weithio'n gwella, bydd y tensiynau hynny'n dal i ddod i'r amlwg yn y dyfodol.

Wrth gloi, oherwydd sylweddolaf fod fy amser wedi dod i ben, edrychaf ymlaen at gael gwybodaeth am y pwyntiau na lwyddwyd i'w cyrraedd yn y Cyfarfod Llawn heddiw, Ddirprwy Weinidog. Yr ydym yn ddiolchgar am yr ymatebion yr ydych wedi'u rhoi, ac edrychwn ymlaen at weld gwasanaeth CAFCASS Cymru yn gwella yn y dyfodol o ganlyniad i'r ddadl hon.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw cytuno'r cynnig i nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, mae'r cynnig wedi'i dderbyn.

**Angela Burns:** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. yn mynegi pryder na fydd y Mesur Llifogydd a Rheoli Dŵr yn darparu eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am amddiffyn ac atal llifogydd;*

2. recognises the importance of adopting a single lead agency approach to flood protection, prevention and response;
  3. expresses concern over the consequence some planning decisions can have on increasing flood risk and calls upon the Welsh Assembly Government to urgently review technical advice note 15;
  4. calls on the Welsh Assembly Government to implement the recommendations of the Wales Audit Office's report on coastal erosion and tidal flooding risks in Wales. (NDM4345)
2. yn cydnabod pwysigrwydd mabwysiadu dull o gael un asiantaeth arweiniol ym maes amddiffyn, atal ac ymateb i lifogydd;
3. yn mynegi pryder yngylch canlyniadau rhai penderfyniadau cynllunio ar gynyddu perygl llifogydd ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu nodyn cyngor technegol 15 ar fyrdre;
4. yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu argymhellion adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar risgau o erydu arfordirol a llifogydd llanw yng Nghymru. (NDM4345)

I am most grateful to be able to bring forward this motion in the name of Alun Cairns. Before I go into detail on the four points that we raise, I will briefly deal with the amendments tabled in the name of Carwyn Jones. Frankly, they would be laughable were the subject matter not so serious. Being flooded is no laughing matter for the person or business affected, for the agencies trying to manage the risk, or clean up, for the insurance companies, nor even for the Government—something that I know for a fact. Therefore I am even more disappointed that the Government cursorily seeks to delete the entire motion without appearing to give due thought to the point being raised. The Minister for Environment, Sustainability and Housing has spoken on some of these topics in a far more conciliatory and thoughtful manner.

The Government amendments are incredibly self-laudatory and, as I intend to show, the comment about the success of TAN 15 is neither here nor there. As for congratulating all the agencies in these tough times of flooding, I too offer my congratulations, but, to be frank, what has that to do with our motion? The amendments are a smokescreen, and do not chime with the comments of the First Minister elect earlier this afternoon that it is right and proper for the opposition to spark debate. Debate on this issue appears to be something that the Government does not want, but many people in Wales who are inconvenienced, or whose lives are dramatically affected, by flooding want these issues debated, as do some of the key

Yr wyf yn ddiolchgar iawn am gael cyflwyno'r cynnig hwn yn enw Alun Cairns. Cyn imi fanylu ar y pedwar pwynt yr ydym yn eu codi, ymdriniaf yn fyr â'r gwelliannau a gyflwynwyd yn enw Carwyn Jones. A siarad yn blaen, byddent yn chwerthinllyd pe na bai'r mater mor ddifrifol. Nid yw dioddef llifogydd yn beth i chwerthin amdano i'r unigolyn neu'r busnes y maent yn effeithio arno, i'r asiantaethau sy'n ceisio rheoli'r risg neu lanhau ar ôl y llifogydd, i'r cwmnïau yswiriant, nac i'r Llywodraeth hyd yn oed—rhywbeth yr wyf yn ei wybod yn sicr. Felly, yr wyf wedi fy siomi fwy fyth fod y Llywodraeth yn ceisio dileu'r cynnig cyfan yn frysiog, a hynny, fe ymddengys, heb ystyried yn iawn y pwynt sy'n cael ei godi. Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai wedi siarad am rai o'r pynciau hyn mewn modd mwy cymodlon ac ystyriol o lawer.

Mae gwelliannau'r Llywodraeth yn hynod hunanglodforus, ac fel y bwriadaf ei ddangos, nid oes a wnelo'r sylw am lwyddiant nodyn cyngor technegol 15 ddim â'r peth. O ran llongyfarch yr holl asiantaethau yn y cyfnodau anodd hyn o lifogydd, yr wyf fi hefyd yn cynnig fy llongyfarchiadau, ond i fod yn blaen, beth sydd a wnelo hynny â'n cynnig ni? Ymgais i daflu llwch i'n llygaid yw'r gwelliannau, ac nid ydynt yn cydgordio â sylwadau'r Prif Weinidog etholedig yn gynharach y prynhawn yma ei bod yn iawn ac yn briodol i'r wrthblaid sbarduno dadl. Mae'n ymddangos nad yw'r Llywodraeth yn awyddus i gael dadl ar y mater hwn, ond y mae llawer o bobl yng Nghymru y mae llifogydd yn achosi anghyfleustra iddynt

stakeholders involved.

The points that our motion wishes to bring forward are clear, and I will briefly deal with each in turn. We expressed concern that the Flood and Water Management Bill will not provide clarity of responsibility over flood protection and prevention. Concerns were raised by several of those who gave evidence to the Sustainability Committee about the role proposed for the Environment Agency and local authorities in the Bill, and whether the proposals would make any difference to people affected by flooding. I will use a quotation by Chris Mills, the director of Environment Agency Wales:

'If there is no other message, it is that surface water and related sewerage flooding is the area of risk that is rapidly increasing, and where we do not have the organisational arrangements to properly deal with it. This must be put right in the draft flood and water management Bill. This is the key opportunity to get those roles and responsibilities right.'

However, I would question whether that will be achieved. I am not reassured that the Welsh Assembly Government intends to retain the lead on flood protection and prevention, yet not only the Pitt review, but also the Sustainability Committee, placed heavy emphasis on there being a clear understanding of the roles, and above all, for there to be a clear public understanding.

I believe that a lack of clarity will continue, and we have the Minister stating on the record that the Environment Agency has enhanced functions to deal with flooding that is not local, and local authorities have functions to deal with flooding that is local. Minister, while you may believe that the split of responsibilities will be clear, I do not think that it will change much from the current situation. When the man from the Environment Agency wanders up the river at the back of the garden to see what is going on, the householder does not see why they cannot involve them in the flooding of the field opposite—a field that, let us say, floods from surface water and drains. There could

neu'n effeithio'n ddramatig ar eu bywydau am i'r materion hyn gael eu trafod, fel y mae rhai o'r rhanddeiliaid allweddol dan sylw.

Mae'r pwyntiau y mae ein cynnig am eu cyflwyno yn glir, ac ymdriniaf yn gryno â phob un yn ei dro. Mynegwyd pryder gennym na fydd y Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr yn darparu eglurder am y cyfrifoldeb am amddiffyn rhag llifogydd a'u hatal. Codwyd pryderon gan nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd am rôl arfaethedig Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol yn y Mesur, a ph'un a fyddai'r cynigion yn gwneud unrhyw wahaniaeth i bobl y mae llifogydd yn effeithio arnynt. Defnyddiaf ddyfyniad gan Chris Mills, cyfarwyddwr Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru:

Y neges, yn anad yr un arall, yw mai dŵr wyneb a llifogydd carthffosiaeth cysylltiedig yw'r maes risg sy'n cynyddu'n gyflym, a lle nad yw'r trefniadau trefniadaethol gennym i ymdrin ag ef yn iawn. Rhaid i hyn gael ei unioni yn nrafft y Mesur rheoli llifogydd a dŵr. Dyma'r cyfle allweddol i gael y rolau a'r cyfrifoldebau hynny'n iawn.

Fodd bynnag, yr wyf yn amau a fydd hynny'n cael ei gyflawni. Nid wyf yn hyderus fod Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu parhau i arwain ar amddiffyn rhag llifogydd a'u hatal, er i adolygiad Pitt a'r Pwyllgor Cynaliadwyedd hefyd roi cryn bwyslais ar gael dealltwriaeth glir o'r rolau, ac yn anad dim fod angen dealltwriaeth glir ymhliith y cyhoedd.

Credaf y bydd diffyg eglurder yn parhau, ac y mae'r Gweinidog wedi dweud ar goedd fod gan Asiantaeth yr Amgylchedd swyddogaethau uwch i ymdrin â llifogydd nad ydynt yn lleol, a bod gan awdurdodau lleol swyddogaethau i ymdrin â llifogydd sy'n lleol. Weinidog, er eich bod yn credu efallai y bydd y modd y rhennir cyfrifoldebau yn glir, ni chredaf y bydd yn newid y sefyllfa bresennol ryw lawer. Pan fydd dyn o Asiantaeth yr Amgylchedd yn crwydro i fyny'r afon yng nghefn yr ardd i weld beth sy'n digwydd, nid yw deiliad y tŷ yn gweld pam na all ofyn iddo ddelio â'r llifogydd yn y cae gyferbyn—cae sydd, dyweder, yn gorlifo oherwydd dŵr wyneb a draeniau. Gallai tair

be three agencies involved in such a case: the Environment Agency, the local authority, and the Sustainable Drainage Board. Add sewer flooding to this and that would make four agencies. I am deeply concerned that the Flood and Water Management Bill fudges on this, and the confusion will continue for the public. We talk of overarching strategies, but the public talks of overarching confusion. I read again much of the evidence submitted to the Sustainability Committee on flooding, and that is one of the key points that struck me.

I also believe that the Flood Management and Water Bill is too centralising and too political—which may seem an odd thing to say, given that this is about the business of government—but I believe that the Bill fails to acknowledge the importance of local expertise, and to guard against top-down solutions to flood risk management.

4.40 p.m.

We would like the Government to recognise the importance of adopting a single, lead-agency approach to flood protection, prevention and response. The Welsh Assembly Government has said that it intends to keep that overarching role for itself but, as the Sustainability Committee and the Welsh Conservatives have said, there is genuine concern that capacity issues related to powers under new primary legislation that are being transferred to Welsh Ministers, rather than to arm's-length organisations, could compromise the implementation and delivery of key parts of the legislation. I believe that that says it all. We also need the lead agency to be the primary collator of the information that we need to manage in order to assess flood risk. The Bill, so far, gives that responsibility to the Environment Agency, the councils and the sustainable urban drainage boards, and, no doubt, the Government will also be undertaking part of that collation. Therefore, we now have four agencies doing pretty much the same job, and that is one of the reasons why we believe that it is important for the Government to adopt a single lead-agency approach, which is at arm's length to the Government, in order to

asiantaeth ymwneud ag achos o'r fath: Asiantaeth yr Amgylchedd, yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Draenio Cynaliadwy. Ychwanegwch lifogydd carthffosydd at hyn a byddai hynny'n golygu pedair asiantaeth. Yr wyf yn pryderu'n fawr fod y Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr yn osgoi'r mater hwn, ac y bydd y dryswch yn parhau i'r cyhoedd. Yr ydym yn sôn am strategaethau trofwaol, ond mae'r cyhoedd yn sôn am ddryswch trofwaol. Darllenais eto lawer o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd am lifogydd, a dyna un o'r pwyntiau allweddol a'm trawodd.

Credaf hefyd fod y Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr yn canoli grym yn ormodol a'i fod yn rhy wleidyddol—a all ymddangos yn beth rhyfedd i'w ddweud, o gofio bod hyn yn ymwneud â busnes llywodraeth—ond credaf fod y Mesur yn methu â chyd nabod pwysigrwydd arbenigedd lleol a gochel rhag datrysiau o'r brig i lawr wrth reoli perygl llifogydd.

Hoffem i'r Llywodraeth gydnabod pwysigrwydd mabwysiadu dull o gael un asiantaeth arweiniol ym maes amddiffyn rhag llifogydd, eu hatal ac ymateb iddynt. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dweud ei bod yn bwriadu cadw'r rôl drosfwaol honno iddi'i hun, ond fel y mae'r Pwyllgor Cynaliadwyedd a'r Ceidwadwyr Cymreig wedi ei ddweud, mae yna bryder gwirioneddol y gallai materion capasiti yn ymwneud â phwerau dan ddeddfwriaeth sylfaenol newydd sy'n cael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru, yn hytrach nag i sefydliadau hyd braich, beryglu gweithredu a chyflwyno rhannau allweddol o'r ddeddfwriaeth. Credaf fod hynny'n dweud y cyfan. Yn ogystal, mae angen inni sicrhau mai'r asiantaeth arweiniol yw prif gasglwr y wybodaeth y mae angen inni ei rheoli er mwyn asesu perygl llifogydd. Hyd yma, mae'r Mesur yn rhoi'r cyfrifoldeb hwnnw i Asiantaeth yr Amgylchedd, y cynghorau a'r byrddau draenio trefol cynaliadwy, ac y mae'n siŵr y bydd y Llywodraeth yn gwneud rhan o'r gwaith casglu data hefyd. Felly, mae gennym bedair asiantaeth yn awr yn gwneud yr un gwaith, fwy neu lai, a dyna un o'r rhesymau pam y credwn ei bod yn bwysig i'r

deliver proper flood risk management and assessment of danger to the general public.

Our third point is our concern that the consequences of some planning decisions can increase flood risk. We call upon the Welsh Assembly Government to urgently review TAN 15. I know that local planning authorities in Wales are advised to consult the Environment Agency on planning applications, but, nonetheless, they still go ahead without doing so.

I have a list before me of the Environment Agency's list of outstanding objections made between 1 July and 31 July 2009 on flood-risk grounds. This list is UK-wide, so not all the cases are from Wales. I will refer to one of these objections, which is from a council that is local to me. The Environment Agency states in the list that its reason for objection is that unsatisfactory evidence was put forward and that there is a high-risk of flooding from surface water. Yet, the council is preparing to have a

'mixed use redevelopment including employment, community, retail and specialist residential uses . . . together with associated highway works, car and cycle parking, servicing and other ancillary uses and activities'.

The Environment Agency is clearly stating, 'Do not do it, this is a flood-risk area.' However, the council and the developer intend to march on, despite that objection, and TAN 15 cannot stop them. I appreciate, Minister, that on 18 November we discussed this in the Assembly, and you said:

'Once we go through the process of looking at the Flood and Water Management Bill, which was announced in the Queen's Speech today, we will look at issues around flooding with the new climate data. However, I would be happy to look at whether TAN 15 needs to

Llywodraeth fabwysiadu dull o gael un asiantaeth arweiniol, sydd hyd braich o'r Llywodraeth, er mwyn rheoli perygl llifogydd ac asesu'r perygl i'r cyhoedd yn iawn.

Ein trydydd pwynt yw'r pryder y gall canlyniadau rhai penderfyniadau cynllunio gynyddu perygl llifogydd. Galwn ar Lywodraeth y Cynulliad i adolygu nodyn cyngor technegol 15 ar frys. Gwn fod awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru yn cael eu cyngori i ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd ar geisiadau cynllunio, ond er hynny, maent yn dal i fwrw ymlaen heb wneud hynny.

Mae gennyf o'm blaen restr Asiantaeth yr Amgylchedd o wrthwynebiadau a wnaed ar sail perygl llifogydd rhwng 1 Gorffennaf a 31 Gorffennaf 2009 ac sydd heb gael sylw o hyd. Mae'r rhestr hon yn berthnasol i'r DU gyfan, felly, nid yw'r holl achosion yng Nghymru. Cyfeiriaf at un o'r gwrthwynebiadau hyn, gan gyngor sy'n lleol i mi. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn dweud yn y rhestr mai ei rheswm dros wrthwynebu yw bod tystiolaeth anfoddhaol wedi'i chyflwyno a bod perygl mawr o lifogydd oherwydd dŵr wyneb. Ond eto, mae'r cyngor yn paratoi i gael

ailddatblygiad defnydd cymysg sy'n cynnwys defnyddio ar gyfer cyflogaeth, cymunedol, manwerthu a defnydd preswyl arbenigol . . . ynghyd â gwaith priffyrrd cysylltiedig, parcio ceir a beiciau, darparu gwasanaethau a dulliau defnyddio a gweithgareddau atodol eraill.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn dweud yn glir, 'Peidiwch a'i wneud, mae hon yn ardal lle mae perygl llifogydd.' Fodd bynnag, mae'r cyngor a'r datblygwr yn bwriadu bwrw ymlaen, er y gwrthwynebiad hwnnw, ac ni all TAN 15 eu hatal. Sylweddolaf, Weinidog, ein bod wedi trafod hyn yn y Cynulliad ar 18 Tachwedd, a'ch bod wedi dweud:

'Pan fyddwn wedi bod trwy'r broses o edrych ar y Mesur rheoli llifogydd a dŵr, a gyhoeddwyd yn Araith y Frenhines heddiw, byddwn yn edrych ar faterion yn ymwneud â llifogydd gan ddefnyddio'r data newydd ar yr hinsawdd. Fodd bynnag, byddwn yn barod i

be reviewed.'

Those are your words, Minister, not mine. I appreciate your words, but that is why it is so disappointing that the Government has deleted our third point.

Given the Environment Agency's list of outstanding objections, and the way in which developers and county councils are currently developing in all sorts of flood areas, we would like you to urgently review TAN 15 and also look, while you carry out that review, at placing financial penalties on some of these developments. People are building these houses, and the public are buying them in all innocence, because problems do not show up on legal searches, and they have to bear the brunt of the cost of the clean-up. We all have constituents who have shocking horror stories about the damage done and the lack of money for putting everything back together.

Finally, we call on the Welsh Assembly Government to implement the recommendations of the Wales Audit Office's report, 'Coastal Erosion and Tidal Flooding Risks in Wales'. The Welsh Assembly Government needs to do more to inform the stakeholders, and we agree entirely with the Wales Audit Office's view on this. We would like to see you move forward on this as a matter of urgency, because this is another area that is becoming more urgent as time goes by.

**The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson):** I move amendment 1 in the name of Carwyn Jones. Delete all and replace with:

*the National Assembly for Wales:*

*welcomes the publication of the Flood and Water Management Bill, which confers powers and responsibilities to Ministers in Wales;*

ystyried a oes angen i nodyn cyngor technegol 15 gael ei adolygu ai peidio.'

Eich geiriau chi yw'r rhain, Weinidog, nid fy ngeiriau i. Yr wyf yn gwerthfawrogi'ch geiriau, ond dyna pam y mae mor siomedig fod y Llywodraeth wedi dileu ein trydydd pwynt.

O gofio rhestr Asiantaeth yr Amgylchedd o wrthwynebiadau sydd heb gael sylw o hyd, a'r modd y mae datblygwyr a chynghorau sir yn datblygu ar hyn o bryd mewn pob math o ardaloedd sy'n agored i lifogydd, hoffem ichi adolygu TAN 15 ar frys, ac wrth wneud yr adolygiad hwnnw hoffem ichi ystyried cosbi rhai o'r datblygiadau hyn yn ariannol hefyd. Mae pobl yn adeiladu'r tai hyn a'r cyhoedd yn eu prynu heb feddwl dim, gan nad yw problemau'n dod i'r amlwg mewn chwiliadau cyfreithiol, a hwy sy'n gorfod dwyn baich y gost o lanhau. Mae gan bob un ohonom etholwyr sydd â straeon erchyll am y difrod a wnaed a'r diffyg arian i roi popeth yn ôl at ei gilydd.

Yn olaf, galwn ar Lywodraeth y Cynulliad i weithredu argymhellion yr adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru, 'Risgau o Erydu Arfordirol a Llifogydd Llanw yng Nghymru'. Mae angen i Lywodraeth y Cynulliad wneud mwy i ddarparu gwybodaeth i'r rhanddeiliaid, a chytunwn yn llwyr â barn Swyddfa Archwilio Cymru am hyn. Hoffem eich gweld yn symud ymlaen ar hyn ar frys, oherwydd mae hwn yn faes arall sy'n dod yn fwy o fater o frys wrth i amser fynd heibio.

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Cynigiaf welliant 1 yn enw Carwyn Jones. Dileu'r cyfan ac yn ei le rhoi:

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*yn croesawu cyhoeddi'r Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr sy'n cyflwyno pwerau a chyfrifoldebau i Weinidogion Cymru;*

*recognises that this will enable more effective, strategic and comprehensive management of flood risk in Wales and better protection for people who live in areas at risk of flooding from any source;*

*welcomes the success of TAN 15 in preventing inappropriate development in areas at risk of flooding; and*

*commends the work done by the emergency services, local authorities, the Environment Agency, third sector organisations and communities in responding to recent flooding incidents and the effective partnerships that have developed.*

**Bryngle Williams:** Flooding is an issue that will only get more pressing in the coming years, in part due to an unpredictable climate, but also due to the unfortunate situation where town planners, as my colleague Angela alluded to, have allowed development in areas at risk of flooding.

*yn cydnabod y bydd hyn yn galluogi i'r perygl o lifogydd gael ei reoli yn fwy effeithiol, yn fwy strategol ac yn fwy cynhwysfawr yng Nghymru ac i bobl sy'n byw mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd o unrhyw ffynhonnell gael eu diogelu'n well;*

*yn croesawu llwyddiant nodyn cyngor technegol 15 yn atal datblygu amhriodol mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd; a*

*yn canmol y gwaith a wnaed gan y gwasanaethau brys, yr awdurdodau lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd, sefydliadau'r trydydd sector a chymunedau wrth ymateb i'r llifogydd a gafwyd yn ddiweddar a'r partneriaethau effeithiol sydd wedi datblygu.*

**Bryngle Williams:** Mae llifogydd yn fater na fydd ond yn gwaethyg yn y blynnyddoedd i ddod, yn rhannol oherwydd hinsawdd anwadal, ond hefyd oherwydd y sefyllfa anffodus lle mae cynllunwyr trefi wedi caniatáu datblygu mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd, fel y mae fy nghydweithiwr Angela wedi crybwylly.

*Daeth William Graham i'r Gadair am 4.45 p.m.  
William Graham took the Chair at 4.45 p.m.*

With more homes and business in harm's way—it is obvious that flooding will continue when we build in these areas—we need to get the Assembly Government's policy on flooding right; there is no argument about that. A point repeatedly made when I, along with other members of the Sustainability Committee, met members of the public to listen to their experiences of flooding, was the confusion over exactly who was responsible for dealing with it.

I am sure that you will agree, Minister, that when your home is being flooded and you are running around asking for help, it is not acceptable to be referred to the Environment Agency, the water authority and the local council. As Angela has once again pointed out, it is essential that we have a one-stop shop for people who are being flooded. There is a clear need for a one-stop shop with responsibility for all the main aspects of flooding. It is a matter of concern that the Flood and Water Management Bill does not

Â mwy o gartrefi a busnesau mewn perygl—mae'n amlwg y bydd llifogydd yn parhau wrth inni adeiladu yn yr ardaloedd hyn—mae angen inni sicrhau bod polisi Llywodraeth y Cynulliad ar lifogydd yn iawn; nid oes dadlau yngylch hynny. Pwynt a wnaed dro ar ôl tro pan fûm i, ynghyd ag aelodau eraill o'r Pwyllgor Cynaliadwyedd, yn cyfarfod ag aelodau'r cyhoedd i wrando ar eu profiadau o lifogydd, oedd y dryswch yngylch pwy yn union oedd yn gyfrifol am ymdrin â'r mater.

Yr wyf yn siŵr y cytunwch, Weinidog, nad yw'n dderbynio pan fydd dŵr yn llifo i mewn i'ch cartref a chithau'n rhedeg o gwmpas yn gofyn am help ac yn cael eich cyfeirio at Asiantaeth yr Amgylchedd, yr awdurdod dŵr a'r cyngor lleol. Fel y mae Angela wedi ei nodi unwaith eto, mae'n hanfodol inni gael siop un stop ar gyfer pobl sy'n dioddef llifogydd. Mae angen clir am siop un stop sy'n gyfrifold am yr holl brif agweddau ar lifogydd. Mae'n destun pryder nad yw'r Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr yn

provide this clarity.

The recent flooding in Cockermouth—I know that Cockermouth is not in Wales, but we could face similar situations—has raised the issue of land use for water retention. Given the increasing flooding risk, and the severity of the weather, the sacrificial flooding of productive agricultural land to protect homes and businesses will undoubtedly play a more important role in the future.

I highlight the co-operation of landowners in the Conwy valley as a good example of where this policy has been used successfully. However, that co-operation will be undermined if responsibility for clearing up debris after flooding is not resolved. Landowners in Cumbria have been left with thousands of tonnes of gravel from the rivers that have flooded, and neither DEFRA nor the Environment Agency can agree where the responsibility for clearing up lies.

I read in a farming magazine this morning about a farmer in Cumbria who, had he taken gravel from the river, would have been legally summonsed for interfering with the environment. He now has around 25,000 tonnes of gravel left by the river on his fields. He has been told that if he puts the gravel back into the river, he will be summonsed for pollution. If more agricultural land is to be used for flood management such issues must be resolved, otherwise co-operation will not be possible. I hope that the Assembly Government will recognise the issues raised here by the Welsh Conservatives and give a commitment to resolving responsibility for flooding, giving the public and businesses the clarity that they need.

**Sandy Mewies:** I am pleased to support the amendment, which welcomes the publication of the Flood and Water Management Bill, because I believe that it will enable Welsh Ministers to better manage flood risk in Wales. That is very much needed, because flooding from coastal waters and surface water is becoming increasingly more frequent, with one in six properties now said to be at risk.

I have been particularly pleased to note that

darparu'r eglurder hwn.

Mae'r llifogydd yn Cockermouth yn ddiweddar—gwn nad yw Cockermouth yng Nghymru, ond gallem wynebu sefyllfaoedd tebyg—wedi codi mater defnyddio tir at ddiben cadw dŵr. O ystyried perygl cynyddol llifogydd, a difrifoldeb y tywydd, bydd aberthu tir amaethyddol cynhyrchiol a'i orlifo er mwyn amddiffyn cartrefi a busnesau yn dod yn bwysicach yn y dyfodol, heb os.

Tynnaf sylw at gydweithrediad tirfeddianwyr yn nyffryn Conwy fel engraifft dda o ddefnyddio'r polisi hwn yn llwyddiannus. Fodd bynnag, caiff y cydweithredu hwnnw ei danseilio os na fydd eglurder ynghyrch pwy sy'n gyfrifol am glirio llanastr ar ôl llifogydd. Mae tirfeddianwyr yn Cumbria wedi'u gadael gyda miloedd o dunelli o raean o'r afonydd sydd wedi gorlifo, ac ni all DEFRA nac Asiantaeth yr Amgylchedd gytuno pwy sy'n gyfrifol am glirio.

Darllenais mewn cylchgrawn ffermio y bore yma am ffermwyr yn Cumbria a fyddai wedi cael gwŷs am ymyrryd â'r amgylchedd pe bai wedi cymryd graean o'r afon. Yn awr mae ganddo tua 25,000 tunnell o raean wedi'i adael gan yr afon ar ei gaeau. Dywedwyd wrtho y bydd yn cael gwŷs am lygru os bydd yn rhoi'r graean yn ôl yn yr afon. Os ydym am weld mwy o dir amaethyddol yn cael ei ddefnyddio i reoli llifogydd, rhaid datrys materion o'r fath, neu ni fydd cydweithrediad yn bosibl. Gobeithio y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod y materion a godwyd yma gan y Ceidwadwyr Cymreig, ac y bydd yn ymrwymo i benderfynu pwy sy'n gyfrifol am lifogydd, gan roi i'r cyhoedd ac i fusnesau yr eglurder y mae arnynt ei angen.

**Sandy Mewies:** Yr wyf yn falch cefnogi'r gwelliant, sy'n croesawu cyhoeddi'r Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr, oherwydd credaf y bydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i reoli perygl llifogydd yng Nghymru yn well. Mae angen mawr iawn am hynny, gan fod llifogydd o ddŵr arfordirol a dŵr wyneb yn digwydd yn fwywfwy aml, a dywedir bod un o bob chwe eiddo mewn perygl bellach.

Yr wyf wedi bod yn arbennig o falch gweld

the Welsh Assembly Government is moving to an integrated risk management scheme, which puts the needs and views of our communities at the heart of improving flood defences. To this end, and given the ongoing demands, more investment is needed and the Government has attracted extra European funding to deal with this issue, which has such a major impact on people's lives.

In my own constituency, particularly in Mold, there are areas such as Cae Bracty, which I have written to you about on several occasions, where floods leave residents, in some cases, unable to insure their properties and living in fear of the consequences of heavy rainfall. Flintshire County Council, as you are aware, Minister, has asked for a grant from the competitiveness programme. I had understood that there was to be a meeting on 15 December. However, I am sorry to say that I have now been informed that that meeting has been postponed until 22 January.

4.50 p.m.

I do not agree with what the Conservatives are putting forward in some ways, but I agree that for people living with this threat, it is very worrying. The impact on people's mental health, their health in general and their lives is huge. I ask, therefore, that when we have schemes that we can bring on stream, we do it as soon as possible in such cases, bearing in mind the enormous and ongoing effect that flooding has on people and their lives.

**Darren Millar:** I am grateful for the opportunity to contribute to this afternoon's debate. As Members on all sides of the Chamber will know, it is a subject that I feel strongly about, having experienced flooding myself. The subject is timely, and it feels close to home for a number of reasons. First, as many of you will be aware, large parts of my constituency are at risk from flooding, both coastal areas such as Towyn and Kinmel Bay, where the risk is associated with rising sea levels, and further inland, in and around towns and villages such as Ruthin and Llanfairtalhaiarn, where the risk is associated with river erosion and surface water run-off.

bod Llywodraeth y Cynulliad yn symud at gynllun rheoli risg integredig, sy'n rhoi anghenion a safbwytiau ein cymunedau wrth wraidd y gwaith o wella amddiffynfeydd rhag llifogydd. I'r perwyl hwn, ac o ystyried y galwadau parhaus, mae angen mwy o fuddsoddiad, ac y mae'r Llywodraeth wedi cael arian Ewropeaidd ychwanegol i ymdrin â'r mater hwn, sy'n cael effaith mor fawr ar fywydau pobl.

Yn fy etholaeth fy hun, yn enwedig yn yr Wyddgrug, mae ardaloedd megis Cae Bracty yr wyf wedi ysgrifennu atoch droeon amdano lle mae llifogydd yn golygu bod preswylwyr, mewn rhai achosion, yn methu yswirio'u heiddo ac yn byw gan ofni canlyniadau glaw trwm. Fel y gwyddoch, Weinidog, mae Cyngor Sir y Fflint wedi gofyn am grant dan y rhaglen gystadleurwydd. Yr oeddwn wedi deall y byddai cyfarfod ar 15 Rhagfyr. Fodd bynnag, mae'n ddrwg gennyf ddweud fy mod wedi cael gwybod erbyn hyn fod y cyfarfod hwnnw wedi'i ohirio tan 22 Ionawr.

Nid wyf yn cytuno â'r hyn y mae'r Ceidwadwyr yn ei gyflwyno mewn rhai ffyrdd, ond cytunaf ei fod yn peri llawer o ofid i bobl sy'n byw dan y bygythiad hwn. Mae'r effaith ar iechyd meddwl pobl, eu hiechyd yn gyffredinol a'u bywydau yn enfawr. Felly, gofynnaf, pan fydd gennym gynlluniau y gallwn eu cyflwyno, ein bod yn gwneud hynny cyn gynted ag sy'n bosibl mewn achosion o'r fath, o gofio'r effaith anferth a pharhaus a gaiff llifogydd ar bobl a'u bywydau.

**Darren Millar:** Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at y ddadl y prynhawn yma. Fel y gŵyr Aelodau ar bob ochr i'r Siambr, mae'n bwnc yr wyf yn teimlo'n gryf yn ei gylch, oherwydd imi ddioddef llifogydd fy hun. Mae'r pwnc yn amserol, ac y mae'n agos at fy nghalon am nifer o resymau. Yn gyntaf, fel y gŵyr nifer ohonoch, mae rhannau helaeth o'm hetholaeth mewn perygl o gael lifogydd, ardaloedd arfordirol megis Tywyn a Bae Cinmel, lle mae'r risg yn gysylltiedig â lefelau'r môr yn codi, ac ymhellach o'r arfordir mewn trefi a phentrefi megis Rhuthun a Llanfair Talhaearn ac o'u hamgylch lle mae'r perygl yn gysylltiedig ag

erydu gan afonydd a dŵr ffo.

Next year marks the twentieth anniversary of the Towyn floods, which I, and many others, had the unfortunate experience of living through. It was a devastating flood, which I can still remember as though it were yesterday, even though it was so many years ago. It is a horrible thing that I do not want anyone else to have to experience.

**Andrew R.T. Davies:** I hear what you say about the Towyn floods 20 years ago, but, in my own regional constituency, Llantwit Major has experienced a similar sort of flooding. Sadly, time and again, communities have to live with the threat of flooding for some considerable time after the major event has occurred, with little change in the defences that are afforded to them.

**Darren Millar:** Whenever and wherever flooding occurs, it is devastating to the people involved, whether it is a small or large number of properties affected. I agree with you that when people are living in fear of flooding on a regular basis, there is a need for Government to act responsibly, where action is appropriate. Unfortunately, 20 years on from the floods in Towyn and Kinmel Bay, the Labour-Plaid Government here is still struggling to get to grips with the issue of flooding. When you consider comments such as those made by the Wales Audit Office recently, saying that the current precautions to defend parts of the Welsh coast do not sufficiently manage the existing risks posed by erosion or tidal flooding, it is pretty concerning. It is also concerning when you consider the comments made by Chris Mills of the Environment Agency Wales. In his evidence to the Sustainability Committee in July, he said, regarding surface water and related sewerage flooding, that

'we do not have the organisational arrangements to properly deal with it'.

People are acknowledging that there are problems, and yet we do not see any action to sort them out. We need to look to join up these dots to ensure that we get the system working properly. I have called for a long

Flwyddyn nesaf, bydd ugain mlynedd ers llifogydd Tywyn y cefais i a llawer o bobl eraill y profiad anffodus o fyw trwyddyt. Yr oeddent yn llifogydd dinistriol, ac y maent yn dal yn fyw iawn yn fy nghof, er bod cynifer o flynyddoedd wedi mynd heibio. Mae'n beth dychrynllyd, ac nid wyf yn dymuno i neb arall orfod cael y profiad.

**Andrew R.T. Davies:** Clywaf yr hyn yr ydych yn ei ddweud am lifogydd Tywyn 20 mlynedd yn ôl, ond yn fy etholaeth ranbarthol fy hun mae Llanilltud Fawr wedi cael math tebyg o lifogydd. Yn anffodus, dro ar ôl tro rhaid i gymunedau fyw dan fygythiad llifogydd am gryn amser ar ôl y digwyddiad mawr, heb fawr o newid yn yr amddiffynfeydd a gynigir iddynt.

**Darren Millar:** Pryd bynnag a ble bynnag bydd llifogydd yn digwydd, mae'n dorcalonnus i'r bobl dan sylw, p'un a yw'r llifogydd yn effeithio ar nifer fach neu nifer fawr o eiddo. Cytunaf â chi fod angen i Lywodraeth weithredu'n gyfrifol, lle mae camau gweithredu'n briodol, pan fydd pobl yn byw dan ofn llifogydd yn rheolaidd. Yn anffodus, 20 mlynedd ar ôl y llifogydd yn Nhywyn a Bae Cinmel mae'r Llywodraeth Llafur-Plaid Cymru hon yn dal i ymlafnio i fynd i'r afael â phroblem llifogydd. Pan ystyriwch sylwadau megis y rhai a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ddiweddar, yn dweud nad yw'r rhagofalon presennol i amddiffyn rhannau o arfordir Cymru yn rheoli'n ddigonol y risgau presennol a achosir gan erydu neu lifogydd llanw, mae'n achosi pryder. Mae'n achosi pryder hefyd pan ystyriwch y sylwadau a wnaed gan Chris Mills o Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd ym mis Gorffennaf, meddai am ddŵr wyneb a llifogydd carthffosiaeth cysylltiedig,

nid yw'r trefniadau trefniadaethol gennym i ymdrin ag ef yn iawn.

Mae pobl yn cydnabod bod yna broblemau, ac eto nid ydym yn gweld dim camau gweithredu i'w datrys. Mae angen inni ofalu bod yr elfennau hyn yn cael eu cysylltu er mwyn sicrhau bod y system yn gweithio'n

time for the adoption of a single lead agency approach to flood protection, prevention and response. It is a shame, Minister, that that request is falling on deaf ears every time that we raise it. That is what the experts are telling us needs to happen. It is, Minister—you can shake your head as much as you like. Every time that there is a flood, there is argument about who is responsible for what has happened, and whether it is Welsh Water, the local authority, the drainage board, the Environment Agency or the riparian owner. There is row after row, and it is not being sorted out. That is why we need one flood defence agency that makes sure that it is the only point of contact for the public and businesses when they experience the devastation of flooding.

As well as that, we need other measures to be taken. There should be a statutory requirement to disclose flood risk as part of the conveyance process. Home information packs would be an opportunity to do this for residential properties. All properties in flood-risk areas should automatically be registered with Floodline to reduce the risk of harm to people and property. It should not be an opt-in scheme, but an opt-out scheme, if you like, Minister. We have discussed that, and I know that you agree with me.

Businesses and other organisations that provide accommodation services in flood-risk areas, such as caravans on the coast in Towyn, where I live, should be required to inform their customers prior to an overnight stay of the action to be taken in the event of a flood. There is no statutory requirement to do that. We need to make sure that there is, so that people can be afforded the proper protection. There needs to be agreements in place between the Welsh Assembly Government and the Association of British Insurers that are not voluntary, but legally binding, in order to make sure that people have affordable insurance if they experience regular flooding. That would be simple, easy to implement, and would probably be

iawn. Yr wyf weld galw ers amser am fabwysiadu dull o gael un asiantaeth arweiniol ym maes amddiffyn rhag llifogydd, eu hatal ac ymateb iddynt. Mae'n drueni, Weinidiog, fod y cais hwnnw'n syrthio ar glustiau byddar bob tro pan fyddwn yn ei godi. Dyna y mae'r arbenigwyr yn dweud wrthym y mae angen ei wneud. Mae'n wir, Weinidog—gallwch ysgrwyd eich pen gymaint ag a fynnwch. Bob tro pan fydd llifogydd, bydd dadl ynghylch pwy sy'n gyfrifol am yr hyn sydd wedi digwydd, ac ai Dŵr Cymru, yr awdurdod lleol, y bwrdd draenio, Asiantaeth yr Amgylchedd neu berchennog glannau'r afon sy'n gyfrifol. Bydd dadl ar ôl dadl, ac ni chaiff y mater ei ddatrys. Dyna pam mae arnom angen un asiantaeth amddiffyn rhag llifogydd sy'n sierhau mai hi yw'r unig bwynt cyswllt i'r cyhoedd a busnesau pan fyddant yn dioddef dinistr llifogydd.

Yn ogystal â hynny, mae angen cymryd mesurau eraill. Dylai fod yn ofyniad statudol i ddatgelu perygl llifogydd fel rhan o'r broses drawsgludo. Byddai Pecynnau Gwybodaeth am Eiddo yn gyfle i wneud hyn ar gyfer eiddo preswyl. Dylai pob eiddo mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd gael eu cofrestru'n awtomatig gyda'r Llinell Llifogydd i leihau risg niweidio pobl ac eiddo. Ni ddylai fod yn gynllun y mae pobl yn dewis bod yn rhan ohono, ond yn gynllun y mae pobl yn dewis peidio â bod yn rhan ohono, os mynnwch chi, Weinidog. Yr ydym wedi trafod hynny, a gwn eich bod yn cytuno â mi.

Dylai fod yn ofynnol i fusnesau a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau llety mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd, megis carafanau ar yr arfordir yn Nhywyn lle'r wyf fi'n byw, roi gwybod i'w cwsmeriaid cyn aros dros nos pa gamau i'w cymryd pe bai llifogydd yn digwydd. Nid oes gofyniad statudol i wneud hynny. Mae angen inni sierhau bod yna ofyniad statudol, er mwyn i bobl gael eu hamddiffyn yn briodol. Mae angen cael cytundebau ar waith rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Chymdeithas Yswirwyr Prydain nad ydynt yn wirfoddol, ond sy'n gyfreithiol ymrwymol, er mwyn sierhau bod gan bobl yswiriant fforddiadwy os ydynt yn dioddef llifogydd yn rheolaidd. Byddai hynny'n syml, yn rhwydd i'w

minimal in cost. In addition, the planning process should better reflect the increased needs at flood-risk areas. My colleague, Angela Burns, has already mentioned the need to review TAN 15, and there is indeed a need to do that. We also need to ensure that no unnecessary building is done on floodplains. I urge you, Minister, to consider the points that we have raised today and to respond to them.

I have one final question. It is 20 years since the devastating floods in Towyn in my constituency. Twenty years on, it is still the area at the greatest risk of flooding in Wales. That risk is not necessarily from the sea now, but a result of the poor defences on the west bank of the River Clwyd. Will you make a commitment, in the twentieth year since those floods—the twentieth anniversary will be marked next February—to ensuring that my constituents get the flood defence protection that they need, in common with other parts of Wales?

**Joyce Watson:** I welcome the Welsh Government's and the Westminster Government's commitment to tackling the immense problem of flooding across Wales and the UK. I welcome the commitment to deal with the devastation caused by surface water flooding, which accounted for two thirds of the flooding problems experienced in 2007. The most important aspect of the Flood and Water Management Bill is that it will ensure that everyone knows their roles and responsibilities, and, for the first time, local councils will be given specific responsibility for surface water management. However, I would like you to clarify some aspects of that Bill. While specific responsibility for surface water management will be vested in local authorities, it is currently unclear what the national standards will be for the construction of SUDS, that is, sustainable drainage systems, on new developments, how they will operate, and whether there will be a specific responsibility on councils to require, rather than to encourage, developers to adopt SUDS measures to avoid or to reduce surface water flooding. In my opinion, that has been one of

weithredu a byddai'r gost yn isel, mwy na thebyg. Yn ogystal, dylai'r broses gynllunio adlewyrchu'n well yr anghenion cynyddol mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd. Mae fy nghydweithiwr, Angela Burns, eisoes wedi crybwyl bod angen adolygu TAN 15, ac yn wir mae angen gwneud hynny. Mae angen inni hefyd sicrhau nad oes dim adeiladu diangen yn digwydd ar orlifdiroedd. Anogaf chi, Weinidog, i ystyried y pwyntiau yr ydym wedi'u codi heddiw ac i ymateb iddynt.

Mae gennys un cwestiwn terfynol. Mae 20 mlynedd ers y llifogydd dinistriol yn Nhŷwyn yn fy etholaeth. Ugain mlynedd yn ddiweddarach, hon yw'r ardal sy'n wynebu'r perygl mwyaf o lifogydd yng Nghymru o hyd. Erbyn hyn, nid yw'r perygl hwnnw'n dod o'r môr, o reidrwydd, ond yn ganlyniad i'r amddiffynfeydd gwael ar lan orllewinol Afon Clwyd. A wnewch chi ymrwymiad, ugain mlynedd wedi'r llifogydd hynny—ugain mlynedd i fis Chwefror nesaf—i sicrhau bod fy etholwyr yn cael yr amddiffynfeydd rhag llifogydd y mae arnynt eu hangen, fel rhannau eraill o Gymru?

**Joyce Watson:** Yr wyf yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan i fynd i'r afael â phroblem aruthrol llifogydd ledled Cymru a'r DU. Yr wyf yn croesawu'r ymrwymiad i ymdrin â'r dinistr a achosir gan lifogydd dŵr wyneb, a oedd yn gyfrifol am ddwy ran o dair o'r problemau llifogydd a gafwyd yn 2007. Yr agwedd bwysicaf ar y Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr yw y bydd yn sicrhau bod pawb yn gwybod beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac am y tro cyntaf bydd cynghorau lleol yn cael cyfrifoldeb penodol am reoli dŵr wyneb. Fodd bynnag, hoffwn ichi egluro rhai agweddau ar y Mesur hwnnw. Er y bydd awdurdodau lleol yn cael cyfrifoldeb penodol am reoli dŵr wyneb, nid yw'n glir, ar hyn o bryd, beth fydd y safonau cenedlaethol ar gyfer adeiladu systemau draenio cynaliadwy ar ddatblygiadau newydd, sut y byddant yn gweithredu, ac a fydd cyfrifoldeb penodol ar gynghorau i'w gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr, yn hytrach na'u hannog, fabwysiadu mesurau systemau draenio cynaliadwy i osgoi neu leihau llifogydd dŵr wyneb. Yn fy marn i, dyna oedd un o ddifygion TAN 15, fel yr ydym

the shortcomings of TAN 15, as we have heard stated today.

TAN 15, as it stands, provides guidance to local authorities, and unless a planning decision is objected to or called in by the Assembly—I know, from conducting research for my proposal for an LCO, that that rarely happens—it can be sidelined. Minister, do you agree that it is critical that a consistent approach is taken by all local authorities throughout Wales, that local authorities should impose clearly defined criteria on developers, and that such criteria should also be a requirement placed on local authorities themselves?

**Mohammad Asghar:** I thank the Welsh Conservatives, my new colleagues, for the opportunity to speak in this debate. Meeting the challenges of flooding is a hugely important issue, and will only become more important as the risk of flooding increases in coming years. If nothing is done at the summit in Copenhagen, in which 190 countries are involved, it is predicted that there will be a 1 metre rise in the sea level around Wales and throughout the world and many countries will be under water. In my region, South East Wales, in the Newport area, around 7,000 houses will be directly affected by that unnecessary effect.

**Nerys Evans:** May I make an intervention?

**Mohammad Asghar:** May I say a few words before you start? I have not said anything yet, Nerys; you can speak in a minute.

The severe floods in England in 2007 were a warning to all of us that we must act decisively in our work to tackle climate change and to protect communities at risk from flooding.

**Nerys Evans:** You should be aware that Plaid Cymru's view is that the responsibilities of the Environment Agency should be devolved to Wales. What is your new party's view on that? If you do not know, maybe you should do the honourable thing and stand down, so that you can swot

eisoes wedi'i glywed heddiw.

Fel y mae hi, mae TAN 15 yn rhoi arweiniad i awdurdodau lleol, ac oni chaiff penderfyniad cynllunio ei wrthwynebu neu ei alw i mewn gan y Cynulliad—gwn, o gynnal ymchwil ar gyfer fy nghynnig am Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, mai yn anaml y bydd hynny'n digwydd—gellir ei roi o'r neilltu. Weinidog, a ydych yn cytuno ei bod yn hanfodol i bob awdurdod lleol ledled Cymru ddilyn dull gweithredu cyson, y dylai awdurdodau lleol osod meini prawf wedi'u diffinio'n glir i ddatblygwyr, ac y dylai meini prawf o'r fath fod yn ofynnol hefyd ar awdurdodau lleol eu hunain?

**Mohammad Asghar:** Yr wyf yn diolch i'r Ceidwadwyr Cymreig, fy nghydweithwyr newydd, am y cyfle i siarad yn y ddadl hon. Mae ymateb i heriau llifogydd yn fater hynod bwysig, a bydd yn dod yn bwysicach fyth wrth i berygl llifogydd gynyddu yn y blynnyddoedd i dddod. Os na wneir dim yn yr uwchgynhadledd yn Copenhagen lle bydd 190 o wledydd yn bresennol, rhagwelir y bydd lefel y môr o amgylch Cymru a ledled y byd yn codi 1 metr a nifer o wledydd dan ddŵr. Yn fy rhanbarth i, De-ddwyrain Cymru, yn ardal Casnewydd bydd y canlyniad diangen hwnnw'n effeithio'n uniongyrchol ar tua 7,000 o dai.

**Nerys Evans:** A gaf i wneud ymyriad?

**Mohammad Asghar:** A gaf fi ddweud ychydig eiriau cyn ichi ddechrau? Nid wyf wedi dweud dim eto, Nerys; cewch siarad mewn munud.

Yr oedd y llifogydd difrifol yn Lloegr yn 2007 yn rhybudd inni i gyd ei bod yn rhaid inni gymryd camau pendant yn ein gwaith i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac amddiffyn cymunedau sydd dan berygl llifogydd.

**Nerys Evans:** Dylech fod yn gwybod mai barn Plaid Cymru yw y dylai cyfrifoldebau Asiantaeth yr Amgylchedd gael eu datganoli i Gymru. Beth yw barn eich plaid newydd am hynny? Os na wyddoch, efallai y dylech wneud y peth anrhyydeddus a thynnu'n ôl, er mwyn ichi allu astudio polisiau'ch plaid

up on your new party's policies before you stand in your new party's colours.

5.00 p.m.

**Mohammad Asghar:** Nerys, I understand what you have said. However, none of your colleagues have yet contributed to this debate: that is one point. The second is that I have left a party, not the politics. Remember that.

**Nerys Evans:** Answer the question.

**William Graham:** Order. Mohammad Asghar is not taking an intervention.

**Mohammad Asghar:** Will you listen? I have gone to the party that is going to give more money to tackle flooding.

**Leanne Wood** *rose—*

**William Graham:** Order. Mohammad Asghar is not taking any more interventions. Sit down.

**Mohammad Asghar:** The severe flooding in England in 2007 was a warning to all of us. We must act decisively in our work to tackle climate change and protect communities at risk from flooding. In 2007, 55,000 properties were flooded, around 7,000 people were rescued from flood waters by the emergency services, and 13 people were killed. The 2007 floods also saw the largest loss of essential services since world war two, leaving almost 500,000 people without mains water or electricity supplies. The insurance bill was estimated at £3 billion.

In Wales, the expected annual damage to property at risk from flooding by rivers and seas is estimated to cost around £200 million. In 2004, the Foresight 'Future Flooding' report suggested that the annual economic damages in Wales will rise from £70 million in 2004 to more than £1.2 billion in 2080, under the most unlikely scenario.

Defining responsibility, and raising

newydd yn drylwyr cyn sefyll yn lliwiau'ch plaid newydd.

**Mohammad Asghar:** Nerys, yr wyf yn deall yr hyn yr ydych wedi'i ddweud. Fodd bynnag, nid oes yr un o'ch cydweithwyr wedi cyfrannu at y ddadl hon hyd yma: dyna un pwyt. Yr ail yw fy mod wedi gadael plaid, nid y wleidyddiaeth. Cofiwch hynny.

**Nerys Evans:** Atebwch y cwestiwn.

**William Graham:** Trefn. Nid yw Mohammad Asghar am dderbyn ymyriad.

**Mohammad Asghar:** A wnewch chi wrando? Yr wyf wedi mynd at y blaid sy'n mynd i roi mwy o arian i fynd i'r afael â llifogydd.

**Leanne Wood** *a gododd—*

**William Graham:** Trefn. Nid yw Mohammad Asghar am dderbyn mwy o ymyriadau. Eisteddwch i lawr.

**Mohammad Asghar:** Yr oedd y llifogydd difrifol yn Lloegr yn 2007 yn rhybudd inni i gyd. Rhaid inni weithredu'n bendant yn ein gwaith i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac amddiffyn cymunedau sydd mewn perygl o lifogydd. Yn 2007, effeithiodd llifogydd ar 55,000 eiddo, cafodd tua 7,000 o bobl eu hachub o lifddwr gan y gwasanaethau brys, a lladdwyd 13 o bobl. Yn sgil llifogydd 2007, cafwyd y golled fwyaf mewn gwasanaethau hanfodol ers yr ail ryfel byd, gan adael bron 500,000 o bobl heb drydan a dŵr o'r prif gyflenwad. Amcangyfrifwyd bod y bil yswiriant yn £3 biliwn.

Yng Nghymru, amcangyfrifir y bydd cost y difrod blynnyddol disgwyliedig i eiddo sydd dan berygl llifogydd o afonydd a moroedd tua £200 miliwn. Yn 2004, awgrymodd yr adroddiad 'Future Flooding' gan y rhaglen Foresight y bydd yr iawndal economaidd blynnyddol yng Nghymru yn codi o £70 miliwn yn 2004 i fwy nag £1.2 biliwn yn 2080, yn y sefyllfa fwyaf annhebygol.

Pennu cyfrifoldeb a chodi ymwybyddiaeth

awareness, will give us the best chance of minimising the flood risk faced by communities across Wales. Environment Agency Wales director Chris Mills was right when he said

‘there are important decisions for us to take about how to manage these risks to protect people, communities, businesses and the Welsh economy in future.’

We must ensure that all stakeholder groups are crystal clear about the role that they should play in the prevention of, and response to, all types of flooding. Only by doing this can we ensure accountability. The Welsh Government has the power to do this.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing, Jane Davidson, has said that we must reduce

‘our vulnerability to climate change by making people aware of the impacts of climate change and equipping them to make decisions that will increase our resilience and minimise our risks.’

However, in 2008-09, just 57 per cent of people living in flood-risk areas knew that they were at risk. Of these, just three out of five had taken some action to prepare for a flood. The fact that just over half of people living in flood-risk areas are aware of it suggests a failure of communication. There is a significant lack of awareness amongst citizens living in flood-risk areas.

**William Graham:** Will you wind up now, please?

**Mohammad Asghar:** Strong and accurate communication is crucial, Minister, if we are to tackle flooding effectively. This can only be achieved if clearly-defined responsibilities and processes are put in place.

**Eleanor Burnham:** The Liberal Democrats wish to extend sympathy, as others have done, to all households, businesses and farmers that have been hit by floods, and

fydd y cyfle gorau inni leihau perygl llifogydd sy'n wynebu cymunedau ledled Cymru. Yr oedd cyfarwyddwr Asiantaeth yr Amgylchedd, Chris Mills, yn iawn pan ddywedodd

mae yna benderfyniadau pwysig inni eu gwneud ynghyllch sut i reoli'r peryglon hyn i amddiffyn pobl, cymunedau, busnesau ac economi Cymru yn y dyfodol.

Rhaid inni sicrhau bod yr holl grwpiau rhanddeiliaid yn holol glir ynghyllch eu rôl wrth atal ac ymateb i bob math o lifogydd. Dim ond drwy wneud hyn y gallwn sicrhau atebolwydd. Mae gan Lywodraeth Cymru y pŵer i wneud hyn.

Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, Jane Davidson, wedi dweud bod rhaid inni leihau

mor agored i niwed yr ydym o ran y newid yn yr hinsawdd drwy sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'i effeithiau a'u galluogi i wneud penderfyniadau i'n helpu i wrthsefyll yr effeithiau a lleihau'r peryglon.

Fodd bynnag, yn 2008-09, dim ond 57 y cant o bobl a oedd yn byw mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd a wyddai eu bod mewn perygl. O'r rhain, tri o bob pump yn unig a oedd wedi cymryd camau i baratoi ar gyfer llifogydd. Mae'r ffaith mai ychydig dros hanner y bobl sy'n byw mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd sy'n ymwybodol o hynny yn awgrymu methu cyfathrebu. Mae diffyg ymwybyddiaeth sylweddol ymhlið dinasyddion sy'n byw mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd.

**William Graham:** A wnewch chi dynnu at y terfyn yn awr, os gwelwch yn dda?

**Mohammad Asghar:** Mae cyfathrebu cadarn a chywir yn hanfodol, Weinidog, os ydym i fynd i'r afael â llifogydd yn effeithiol. Trwy roi cyfrifoldebau a phrosesau wedi'u diffinio'n glir ar waith yn unig y gellir cyflawni hyn.

**Eleanor Burnham:** Hoffai'r Democratiaid Rhyddfrydol estyn cydymdeimlad, fel y mae eraill wedi'i wneud, i bob aelwyd, busnes a ffermwyr sydd wedi'u taro gan lifogydd, a

offer our praise and thanks to the emergency voluntary services that have brought relief to those affected. I was delighted to have played a very small part in flood relief in the area of Rossett and Trefalyn a few years ago, when the Environment Agency was encouraged to spend a considerable amount of time and effort putting some funding in place. Some people there, as has been previously described were badly affected. I felt dreadfully sorry for one lady, who had experienced two incidences of flooding within nine months of each other. She had to have two kitchens installed in nine months. She was absolutely devastated and, in the end, unfortunately, she did not stay alive for very long because I think that all of the stress took its toll. That was very sad.

Around 357,000 properties in Wales or around one in six buildings are at risk of flooding, which is no mean task for our rescue services. We have all had a chat with the Environment Agency—we had one recently. Sir Michael Pitt's review makes 15 urgent recommendations—and I will not discuss all of them—but the one that, in my view, the Environment Agency should address is monitoring groundwater levels more frequently and systematically at times of high flood risk.

I am not an expert in these matters and I am not an engineer, but I can only use my common sense and recognise that there are problems in relation to this. So, I hope that you will consider that, Minister. The Environment Agency will tell you that they do not have enough money to do that, but surely groundwater levels are an essential aspect of flooding other than the major flooding caused by rivers.

The floods in 2007 highlighted the fact there is a clear gap in our ability to cope with prolonged and extensive flooding. Current funding is inadequate and there is uncertainty about the role and responsibility of different departments to deal with flooding. The Flood and Water Management Bill is a welcome piece of legislation and we hope that the final Act will help to streamline our approach to flooding, addressing all types of flooding and clarifying responsibility because the general

chynigwyn ein canmoliaeth a'n diolch i'r gwasanaethau brys gwirfoddol sydd wedi cynorthwyo'r rheini sydd wedi dioddef. Yr oeddwn yn falch iawn o fod â rhan fach iawn yn y gwaith o lliniaru llifogydd yn ardal yr Orsedd a Threfalun ychydig flynyddoedd yn ôl, pan anogwyd Asiantaeth yr Amgylchedd i roi'n sylweddol o'i hamser a'i hegni i sicrhau bod arian ar gael. Effeithiwyd yn ddrwg ar rai pobl yno, fel y disgrifiwyd eisoes. Yr oedd gennyl dueni mawr dros un ddynes a oedd wedi dioddef dau achos o lifogydd o fewn naw mis i'w gilydd. Bu'n rhaid iddi gael dwy gegin wedi'u gosod mewn naw mis. Torrodd ei chalon, ac yn y diwedd, yn anffodus, ni fu byw'n hir iawn, oherwydd credaf i'r holl straen wneud niwed mawr iddi. Yr oedd hynny'n drist iawn.

Mae tua 357,000 eiddo yng Nghymru neu tuag un o bob chwe adeilad dan berygl llifogydd, sy'n grym dasg i'n gwasanaethau achub. Mae pob un ohonom wedi cael sgwrs ag Asiantaeth yr Amgylchedd—cawsom un yn ddiweddar. Mae adolygiad Syr Michael Pitt yn gwneud 15 argymhelliaid brys—ac nid wyf am eu trafod i gyd—ond yr un y dylai Asiantaeth yr Amgylchedd roi sylw iddo, yn fy marn i, yw monitro lefelau dŵr daear yn amlach ac yn fwy systematig ar adegau pan fydd perygl mawr o lifogydd.

Nid wyf yn arbenigwr ar y materion hyn ac nid wyf yn beiriannydd, ond gallaf ddefnyddio fy synnwyr cyffredin a gweld bod hyn yn achosi problemau. Felly, gobeithio y byddwch yn ystyried hynny, Weinidog. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn dweud wrthych nad oes ganddi ddigon o arian i wneud hynny, ond siawns nad yw lefelau dŵr daear yn agwedd hanfodol ar lifogydd ar wahân i'r llifogydd mawr a achosir gan afonydd.

Yr oedd y llifogydd yn 2007 yn tynnu sylw at y ffaith fod bwlc'h clir yn ein gallu i ymdopi â llifogydd estynedig a helaeth. Mae'r cyllid presennol yn annigonol ac y mae ansicrwydd ynghylch rôl a chyfrifoldeb gwahanol adrannau wrth ymdrin â llifogydd. Mae'r Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr yn ddarn o ddeddfwriaeth i'w groesawu, a gobeithiwn y bydd y Ddeddf derfynol yn helpu symleiddio ein dull o ymdrin â llifogydd, gan roi sylw i bob math o lifogydd ac egluro cyfrifoldebau,

public often does not know where to go. I think that this is as important an issue as anything.

However, based on the current Bill as drafted, we support the Welsh Conservative Party's motion today. We know that the Environment Agency is currently responsible for managing flood risk from inland main rivers and the sea, but not for managing the flood risk from ordinary watercourses such as surface water, sewers, groundwater or from coastal erosion. That is where I think the issue lies: there are so many people in this equation and the general public in a flooded area do not care who tackles these things, as long as they are tackled. So, I hope that the Minister will take these matters on board because the proposed system under the Bill is still too confusing. The responsibility for flooding is split between the Environment Agency, local authorities, Welsh Ministers and the internal drainage boards and more.

I often talk to people, following a flood, who complain that they were uncertain about who to contact. I believe that we need to clarify this for those individuals by promoting joined-up thinking and nominating one overall body, for example, the Environment Agency, to take strategic responsibility for flood defence management and planning, which would help to ensure a co-ordinated approach.

We welcome the provision in the Bill for the Environment Agency to develop a forecasting and warning system on all flood risk, and yet, it is the local authority who leads on all matters relating to flood risk. Under a single agency approach, the Environment Agency would take responsibility for flood risk, assessing and managing flood risk and developing an early warning system.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 5.07 p.m.  
The Deputy Presiding Officer took the Chair at 5.07 p.m.*

In flood risk areas, improving public awareness of the importance of buildings and

otherwydd yn aml nid yw'r cyhoedd yn gwybod ble i fynd. Credaf fod hyn yn fater cyn bwysiced â dim.

Fodd bynnag, ar sail y Mesur presennol fel y mae wedi'i ddrafftio, yr ydym yn cefnogi cynnig Plaid Geidwadol Cymru heddiw. Gwyddom mai Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n gyfrifol ar hyn o bryd am reoli perygl llifogydd o brif afonydd mewndirol a'r môr, ond nid yr Asiantaeth sy'n gyfrifol am reoli perygl llifogydd o gyrsiau dŵr arferol megis dŵr wyneb, carthffosydd a dŵr daear, neu lifogydd a achosir gan erydu arfordirol. Dyna lle'r wyf yn credu y mae'r broblem: mae cynifer o bobl yn rhan o'r gwaith, ac nid oes ots gan y cyhoedd mewn ardal sydd wedi cael llifogydd pwy sy'n mynd i'r afael â'r pethau hyn, cyn belled â bod rhywun yn mynd i'r afael â hwy. Felly, gobeithio y bydd y Gweinidog yn ystyried y materion hyn, otherwydd mae'r system arfaethedig dan y Mesur yn dal yn rhy ddryslyd. Mae'r cyfrifoldeb dros lifogydd wedi'i rannu rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd, awdurdodau lleol, Gweinidogion Cymru a'r byrddau draenio mewnol ymhlið eraill.

Yn aml byddaf yn siarad â phobl ar ôl llifogydd sy'n cwyno nad oeddent yn siŵr â phwy y dylent gysylltu. Credaf fod angen inni egluro hyn ar gyfer yr unigolion hynny drwy hybu gwaith meddwl cydgysylltiedig ac enwebu un corff cyffredinol, er enghraift, Asiantaeth yr Amgylchedd, i gymryd cyfrifoldeb strategol am reoli a chynllunio gwaith amddiffyn rhag llifogydd, a fyddai'n helpu sicrhau dull gweithredu cydlynol.

Yr ydym yn croesawu'r ddarpariaeth yn y Mesur i Asiantaeth yr Amgylchedd ddatblygu system ragweld a rhybuddio ar gyfer pob math o berygl llifogydd, ond eto, yr awdurdod lleol sy'n arwain ar yr holl faterion sy'n ymwneud â pherygl llifogydd. Dan ddull lle mae un asiantaeth, byddai Asiantaeth yr Amgylchedd yn cymryd cyfrifoldeb dros berygl llifogydd, asesu a rheoli perygl llifogydd a datblygu system rhybudd cynnar.

Mewn ardal oedd lle mae perygl llifogydd, mae codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o

contents insurance is also crucial as is working with the insurance industry itself because as I mentioned earlier, where was the lady who had two new kitchens in the space of nine months to go when the insurance company changed its mind? This is a big issue—I can see Members nodding their heads—and it is extremely important. This is very distressing for people. Thankfully, I have never been in that position, but I know people who have.

bwysigrwydd yswiriant adeiladau ac yswiriant cynnwys hefyd yn hanfodol, fel y mae gweithio gyda'r diwydiant yswiriant ei hun yn bwysig, oherwydd fel y soniais yn gynharach, i ble y dylai'r ddynes a gafodd ddwy gegin newydd mewn naw mis fod wedi mynd pan newidiodd y cwmni yswiriant ei feddwl? Mae hon yn broblem fawr—gallaf weld Aelodau'n ysgwyd eu pennau—ac y mae'n hynod bwysig. Mae hyn yn peri gofid mawr i bobl. Yn ffodus, nid wyf erioed wedi bod yn y sefyllfa honno, ond gwn am bobl sydd wedi bod yn y sefyllfa.

It is also crucial that the Bill addresses the maintenance and protection of key infrastructure and the need to secure the supply of water and electricity. I was fortunate enough, as I am sure were others, to go to Ewloe on Monday to hear Welsh Water discuss some of its arrangements. It was brilliant, and I can see Carl Sargeant nodding his head in agreement. It was fantastic. It is important that we have a joined-up approach.

Mae'n hanfodol hefyd i'r Mesur roi sylw i gynnal a chadw ac amddiffyn seilwaith allweddol a'r angen i ddiogelu'r cyflenwad dŵr a thrydan. Yr oeddwn yn ddigon ffodus, fel pobl eraill, mae'n siŵr, i fynd i Ewlo ddydd Llun i glywed Dŵr Cymru yn trafod rhai o'i drefniadau. Yr oedd yn rhagorol, a gallaf weld Carl Sargeant yn nodio'i ben wrth gytuno. Yr oedd yn wych. Mae'n bwysig fod gennym ddull gweithredu cydgysylltiedig.

Finally, the Welsh Liberal Democrats warmly welcome the Flood and Water Management Bill and look forward to the progress through its various stages, when we hope that issues raised in my contribution today will be taken seriously.

Yn olaf, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn croesawu'n gynnes y Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr ac yn edrych ymlaen at ei weld yn mynd drwy ei amryw gamau. Gobeithiwn y caiff y materion a godwyd yn fy nghyfraniad heddiw eu cymryd o ddifrif bryd hynny.

**Nick Ramsay:** I am grateful for the opportunity to contribute to today's debate. We have stated our concern about the Flood and Water Management Bill, specifically about what we feel is a cloudiness or lack of clarity on the responsibility for flood protection and prevention in the Bill.

**Nick Ramsay:** Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at y ddadl heddiw. Yr ydym wedi mynegi ein pryder am y Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr, ac yn benodol am yr hyn a ystyriwn yn niwlogrwydd neu'n ddiffyg eglurder yn y Mesur ynghylch y cyfrifoldeb dros amddiffyn rhag llifogydd a'u hatal.

We are having this debate because of the now widely accepted fact that we are facing a progressive rise in sea levels and an increasing incidence of severe storms in years to come due to climate change. Building up our defences to deal with coastal flooding is important and will cost a great deal.

Yr ydym yn cael y ddadl hon oherwydd y ffaith sy'n cael ei derbyn yn eang bellach ein bod yn wynebu cynnydd graddol yn lefel y môr a chynnydd yn yr achosion o stormydd difrifol mewn blynnyddoedd i ddod oherwydd y newid yn yr hinsawdd. Mae adeiladu ein hamddiffynfeydd i ymdrin â llifogydd arfordirol yn bwysig, a bydd y gost yn fawr.

5.10 p.m.

**Janet Ryder:** Will you take an intervention?

**Janet Ryder:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Nick Ramsay:** In a moment; I will just make some progress.

In the summer of 2007, the UK was devastated by flooding. [Interruption.] There is a lot of laughter in the Chamber today, but many people were affected by the flooding, which caused £3 billion of damage and flooding to some 55,000 properties. Some 500,000 people were left without mains water or electricity. Around 7,000 people were rescued from the floodwaters by the emergency services and, tragically, 13 people died.

This is about looking at the lessons that can be learned from 2007. As policy makers, these human stories remind us sharply of the imperative for pre-emptive action. CS Lewis wrote that experience is the most brutal of teachers. Sadly, that is often the case in relation to flooding and we have seen it many times in the past in Wales. We owe it to the thousands of people hurt physically and financially by these catastrophes not just to learn the lessons, but to learn them well. I will give way to Janet.

**Janet Ryder:** I would like to ask you two things. First, can you confirm to us exactly how much the Tory party has now put aside for the management of floods in Wales? Your colleague has just said that you have that figure; please be open and honest with Plenary and tell us exactly what that figure is.

**Nick Ramsay:** Janet, we have said that we would provide extra funding. At the end of the day, you are in Government and it is you who are failing so miserably to deal with this problem. We will scrutinise and put forward alternatives where necessary.

I would like to touch on the issue of awareness. One startling statistic is that, in 2008-09, 57 per cent of people living in a flood-risk area knew they were at risk. Of those, three out of five had taken some action to prepare for a flood. So, there is a lack of awareness among those living in areas that are at risk of the exact risk of flooding in

**Nick Ramsay:** Ymhen eiliad; hoffwn wneud ychydig gynnydd yn gyntaf.

Yn ystod haf 2007 achosodd llifogydd lanastr yn y DU. [Torri ar draws.] Mae llawer o chwerthin yn y Siambwr heddiw, ond effeithiodd y llifogydd ar lawer o bobl, gan achosi gwerth £3 biliwn o ddifrod a llifogydd i ryw 55,000 eiddo. Cafodd tua 500,000 o bobl eu gadael heb drydan neu ddŵr o'r prif gyflenwad. Cafodd tua 7,000 o bobl eu hachub o'r llifddwr gan y gwasanaethau brys, ac yn drychinebus bu farw 13 o bobl.

Mae hyn yn golygu edrych ar y gwersi y gellir eu dysgu o 2007. Fel pobl sy'n llunio polisiau, mae'r straeon hyn am bobl yn ein hatgoffa'n glir ei bod yn rhaid cymryd camau i achub y blaen ar y sefyllfa. Ysgrifennodd CS Lewis mai profiad yw'r athro mwyaf creulon. Yn anffodus, mae hynny'n aml yn wir am lifogydd, ac yr ydym wedi'i weld droeon yn y gorffennol yng Nghymru. Dylem ddysgu'r gwersi, a'u dysgu'n dda, er mwyn y miloedd o bobl y mae'r trychinebau hyn wedi gwneud niwed corfforol ac ariannol iddynt. Ildiaf i Janet.

**Janet Ryder:** Hoffwn ofyn dau beth ichi. Yn gyntaf, a allwch gadarnhau faint yn union y mae'r blaid Doriaidd wedi'i neilltuo bellach ar gyfer rheoli llifogydd yng Nghymru? Mae eich cydweithiwr newydd ddweud bod y ffigur hwnnw gennych; a fyddch cystal â bod yn agored ac yn onest â'r Cyfarfod Llawn a dweud wrthym beth yn union yw'r ffigur hwnnw?

**Nick Ramsay:** Janet, yr ydym wedi dweud y byddem yn darparu arian ychwanegol. Yn y pen draw, chi sydd mewn Llywodraeth a chi sy'n methu mor druenus ag ymdrin â'r broblem hon. Byddwn yn gwneud gwaith craffu ac yn cynnig dewisiadau amgen lle bydd angen.

Hoffwn sôn am ymwybyddiaeth. Un ystadegyn brawychus yw mai 57 y cant o bobl a oedd yn byw mewn ardal lle mae perygl llifogydd yn 2008-09 a wyddai eu bod mewn perygl. O'r rheini, yr oedd tri o bob pump wedi cymryd rhai camau i baratoi ar gyfer llifogydd. Felly, mae diffyg ymwybyddiaeth ymhliith pobl sy'n byw

their area. There is also the problem that has been alluded to of a massive number of buildings being built on our floodplains. Too often the problem is that we hear talk and fine sentiments from the Government that we often agree with, but when you look at the situation outside the reality on the coalface is not as you hope it would be.

Accountability has been mentioned, and we need clear accountability for different types of flooding. There is a lot of good stuff in what is proposed, but our concern is the accountability. As my colleague, Angela Burns, has already said, when you arrive home in the dark and you find that your house is under six inches of floodwater, you do not care which agency deals with this, you just want it sorted out.

This brings me on to the issue of surface water. We know that the Pitt review made a series of recommendations. I have had many discussions with the Minister about this and have written many letters on the Pitt review and its recommendations. Surface water has always been an area where there has been a lack of clarity. In my constituency—and I am sure that the same is true of the constituencies of many other Assembly Members—I have been contacted by people who have not previously been covered by regulations because surface water was not previously recognised as a type of flooding. Therefore, I welcome the recommendations of the Pitt review and the Minister's efforts in this area over the last year or two to address this serious problem.

I would like to close by saying that there will be an increasing risk of flooding. We believe, in tabling this debate, that the Assembly Government should adopt a single lead agency approach to flood prevention and protection. We regret the lack of leadership in certain key areas and the failure to establish and make clear high-level objectives and the responsibilities of key stakeholders, as well as the lack of communication. The Flood Management and Water Bill is too centralising, too political and, my goodness me, has this debate not been taken over by

mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd o union natur y perygl yn eu hardal. Mae yna hefyd y broblem y cyfeiriwyd ati fod nifer fawr iawn o adeiladau'n cael eu codi ar ein gorlifdiroedd. Yn rhy aml, y broblem yw ein bod yn clywed siarad a syniadau aruchel gan y Llywodraeth a ninnau'n cytuno â hwy yn aml. Ond pan edrychwn ar y sefyllfa y tu allan, nid yw'r realiti ar lawr gwlaid yr hyn y byddech yn gobethio y byddai.

Crybwyllywyd atebolrwydd, ac y mae arnom angen atebolrwydd clir ar gyfer gwahanol fathau o lifogydd. Mae llawer o bethau da yn yr hyn a gynigir, ond ein pryder yw'r atebolrwydd. Fel mae fy nghydweithiwr, Angela Burns, wedi'i ddweud eisoes, pan fyddwch yn cyrraedd gartref yn y tywyllwch ac yn gweld bod eich tŷ dan chwe modfedd o ddŵr, nid oes ots gennych pa asiantaeth sy'n ymdrin â'r broblem, dim ond bod rhywun yn gwneud.

Daw hyn â mi at fater dŵr wyneb. Gwyddom fod adolygiad Pitt wedi gwneud cyfres o argymhellion. Yr wyf wedi cael llawer o drafodaethau gyda'r Gweinidog am hyn ac yr wyf wedi ysgrifennu nifer o lythyrau ar adolygiad Pitt a'i argymhellion. Mae dŵr wyneb bob amser yn faes lle bu diffyg eglurder. Yn fy etholaeth i—ac yr wyf yn siŵr fod yr un peth yn wir am etholaethau nifer o Aelodau Cynulliad eraill—mae pobl wedi cysylltu â mi nad oedd y rheoliadau'n berthnasol iddynt o'r blaen am nad oedd dŵr wyneb o'r blaen yn cael ei gydnabod yn fath o lifogydd. Felly, yr wyf yn croesawu argymhellion adolygiad Pitt ac ymdrechion y Gweinidog yn y maes hwn dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf i roi sylw i'r broblem ddifrifol hon.

Hoffwn gloi drwy ddweud y bydd perygl cynyddol o lifogydd. Credwn, trwy gyflwyno'r ddadl hon, y dylai Llywodraeth y Cynulliad fabwysiadu dull o gael un asiantaeth arweiniol ym maes amddiffyn rhag llifogydd a'u hatal. Gresynwn at y diffyg arweiniad mewn meysydd allweddol penodol a'r methiant i bennu ac egluro amcanion lefel uchel a chyfrifoldebau rhanddeiliaid allweddol, yn ogystal â'r diffyg cyfathrebu. Mae'r Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr yn canoli grym yn ormodol, mae'n rhy wleidyddol, a mawredd annwyl, onid yw'r

petty politics? That is very sad for those who are affected by flooding in Wales. I am happy to support this motion and I urge Members to put aside petty politics and do the same.

**Leanne Wood:** I was interested to hear from the Tories' newest Member that the Tories have set aside money to deal with flooding. It would be interesting to hear if the Tories have a figure for this or whether their newest Member was making up policy on the hoof. We have heard that you have made a commitment to provide extra money. How much extra money—£1? If you do not tell us how much money you have set aside, you have no right to expect to be believed on that point. Some clarification on that would be very welcome indeed. I intend to make—*[Interruption.]*

**The Deputy Presiding Officer:** Order. David Melding, are you proposing to make an intervention? If you are, will you stand up and ask?

**David Melding** rose—

**The Deputy Presiding Officer:** Leanne Wood, are you happy to take an intervention?

**Leanne Wood:** I am indeed.

**David Melding:** Leanne, I think that you are quite right to urge proper rigour on all political parties and that is why when we make commitments, we identify the money required and publish the information. I have to say that you have gained a reputation here as someone who just says, ‘More, more, more, please, please, please, now, now, now’, without telling us where any of it should come from.

**Leanne Wood:** You know as well as I do that public finances are going to get tight in future years. If you are making a commitment to provide extra money for flooding, you need to tell us how much, or else we are not going to believe you.

I intend for my contribution in this debate to

ddadl hon wedi'i cholli ynghanol gwleidyddiaeth ddibwys? Mae hynny'n drist iawn i'r rhai y mae llifogydd yn effeithio arnynt yng Nghymru. Yr wyf yn hapus i gefnogi'r cynnig hwn, ac anogaf Aelodau i roi gwleidyddiaeth ddibwys o'r neilltu a gwneud yr un fath.

**Leanne Wood:** Yr oedd yn ddiddorol clywed gan aelod mwyaf newydd y Torïaid fod y Torïaid wedi neilltuo arian i ymdrin â llifogydd. Byddai'n ddiddorol clywed a oes gan y Torïaid ffigur ar gyfer hyn, ynteu a oedd eu haelod mwyaf newydd yn creu polisi yn y fan a'r lle. Clywsom eich bod wedi ymrwymo i ddarparu arian ychwanegol. Faint o arian ychwanegol—£1? Os na ddywedwch wrthym faint o arian yr ydych wedi'i neilltuo, nid oes gennych hawl i ddisgwyl inni eich credu ar y pwynt hwnnw. Byddai cael ychydig eglurder ar hynny yn dderbynol iawn. Bwriadaf wneud—*[Torri ar draws.]*

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. David Melding, a ydych yn bwriadu gwneud ymyriad? Os felly, a wnewch chi sefyll a gofyn?

**David Melding** a gododd—

**Y Dirprwy Lywydd:** Leanne Wood, a ydych yn hapus i gymryd ymyriad?

**Leanne Wood:** Ydw, yn wir.

